Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| ar | on |
| DYDDIAD Y CYFARFOD | DATE (ENGLISH) |
| → am 2:00 o'r gloch ← | → at 2:00 pm ← |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

# R H A G L E N

## 1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2026.

## 2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

## 3. **CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, Arweinydd neu'r Prif Weithredwr, ac unrhyw sylwadau terfynol gan y Cadeirydd ar ei chyfnod yn yn swydd y mae ei thymor yn dod i ben.

## 4. **RHYBUDD O GYNNIG**

Derbyn y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Neville Evans:-

'Rwyf yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i gydnabod Ynys Môn fel Sir sydd a dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg fel a nodir yn adroddiad Comisiwn y Cymunedau Cymraeg a gadeiriwyd gan Dr Simon Brooks.

Gyda Llywodraeth newydd yn cychwyn ar ei gwaith ym Mae Caerdydd, rwy'n galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru ac i annog gweithredu argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg er mwyn atgyfernethu'r Gymraeg fel iaith fyw o fewn ein cymunedau yma ar yr ynys.'

## 5. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

## 6. **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2025/26**

Ystyried Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

## 7. **YMGYNGHORIAD ARDOLL YMWELWYR**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**[toriad byr]**

**8. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2026/27.

**(Cyfeirir yr Aelodau at y ddogfen 'Trefn y Gweithgareddau' ar gyfer Ethol Cadeirydd y Cyngor Sir).**

**9. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2026/27.

**10. AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 y Cyfansoddiad, cael gwybod gan yr Arweinydd enwau'r Cynghorwyr y mae ef wedi ei ddewis i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio.

**11. ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 y Cyfansoddiad, ethol Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y flwyddyn sirol.

**12. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor yw cytuno arno (fel y nodir ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

**13. CADARNHAU PWYLLGORAU**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau a ganlyn fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol: -

- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS)
- Is-Bwyllgor Indemniadau

**14. RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AR GYFER 2026/27**

Cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod: -

- 24 Medi 2026 - 1:00 pm
- 8 Rhagfyr 2026 - 1:00 pm
- 4 Mawrth 2027 - 1:00 pm
- Mai 2027 (Cyfarfod Blynyddol) - dyddiad i'w gadarnhau

**15. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL PWYLLGORAU**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**16. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Demoncrataidd.

**17. COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU – ADRODDIAD**

**BLYNYDDOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2026-27**

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 12 Mawrth 2026.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Celfyn Furlong, Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, Carwyn Jones, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Dyfed Wyn Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Ieuan Williams ac Arfon Wyn. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmeriaid,<br>Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio,<br>Pennaeth Democrataidd,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW) (ar gyfer eitem 14 yn unig),<br>Rheolwr Cyfathrebu (GJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor -Gweddarlledu (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Llio Angharad Owen, Alwen P Watkin, Robin Williams, Sonia Williams a Liz Wood<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. |

### 1. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2025 yn gywir.

### 2. DATGANIAD BUDDIANNAU

Bu i’r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan buddiant personol yn Eitem 5 - Rhybudd o Gynnig gan ei fod yn Aelod o’r Ymddiriedolaeth Wiwerod coch ac yn dilyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddo gymryd rhan yn y drafodaeth a’r bleidlais.

Bu i’r Prif Swyddogion ddatgan buddiant sylweddol yn Eitem 14 - Datganiad Polisi Tâl 2026 ac fe wnaethant adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a’r bleidlais.

**3. CYHOEDDIADAU**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:-

- Estynnodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad i bawb a drefnodd orymdeithiau a dathliadau eraill i nodi Dydd Gŵyl Dewi. Dywedodd ei bod wedi cael y fraint o arwain gorymdaith Llangefni a’i bod yn braf gweld nifer mor fawr yn bresennol.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith bod Pont Menai yn dathlu ei phen-blwydd yn 200 oed ym mis Ionawr. Roedd dyluniad Thomas Telford yn uchelgeisiol gan mai hon oedd y bont grog fwyaf yn y byd. Dadorchuddiwyd plac coffa ym Mhorthaethwy i nodi'r garreg filltir hon.

- Llongyfarchiadau i Dion Wyn Jones, sy'n wreiddiol o Ynys Môn, am ennill gwobrau Cogydd Cenedlaethol Cymru mewn cystadleuaeth ddiweddar yng Nghasnewydd.

- Llongyfarchiadau i Glwb Gymnasteg Ynys Môn ar y ganmoliaeth a dderbyniwyd yng Ngwobrau Gymnasteg Prydain yn y categori chwaraeon diogel. Canmolwyd y clwb am eu gwaith i sicrhau diogelwch plant.

- Llongyfarchiadau i Isabel o Ysgol Cemaes am ddylunio bathodyn a fydd yn mynd i'r gofod ar un o deithiau NASA. Mae cysylltiad unigryw rhwng yr ysgol a NASA gan fod un o'u cyn-ddisgyblion, Dr Melanie Coathup, yn gweithio i'r asiantaeth.

- Roedd y Cadeirydd yn dymuno cydnabod y gwaith cymunedol a wnaed gan Liz Mangan o Westy'r Holland, Llanfachraeth wrth ddosbarthu bagiau o ffrwythau a llysiau i bawb yn y pentref cyn y Nadolig.

- Llongyfarchiadau i drefnwyr Hanner Marathon Ynys Môn ac i'r holl redwyr a gymerodd ran eleni. Symudwyd y ras i Faes Sioe Ynys Môn yn 2026 ac roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn.

- Llongyfarchiadau i Jenna Seddon o Rhosneigr am orffen yn 3ydd yn y ras 50 milltir 'Ultra' yng Nghaer mewn amser o 8 awr 38 munud.

- Llongyfarchiadau i'r busnesau a dderbyniodd wobr yn seremoni wobrwyo CF Ynys Môn a gynhaliwyd ar 25 Chwefror, 2026.

- Estynnodd y Cadeirydd ei dymuniadau gorau i Fand Ieuenctid Biwmares ar eu taith i Linz yn Awstria i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Bandiau Pres Ieuenctid Ewrop.

- Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor wedi cynnal seremoni fer i nodi Diwrnod Cenedlaethol Cofio'r Holocost yn y Cyngor ar 27 Ionawr, 2026.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi gosod her bersonol iddi ei hun fel Cadeirydd Cyngor Ynys Môn i gerdded 130 milltir o amgylch yr Ynys dros gyfnod o ddwy i dair wythnos, gan ddechrau yng nghanol mis Mawrth. Dywedodd ymhellach y bydd yn casglu arian tuag at Rasasc Gogledd Cymru ac er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth hanfodol. Fel Hyrwyddwr Dioddefwyr ar Banel Comisiynydd yr Heddlu, mae hi wedi gweld y gwaith a wneir gan Rasasc Gogledd Cymru i gefnogi menywod, dynion a phlant sydd wedi dioddef trais.

* * * * *

Estynnwyd cydymdeimlad i unrhyw Aelod o'r Cyngor neu Staff a oedd wedi cael profedigaeth.

Safodd Aelodau a Swyddogion mewn tawelwch i ddangos eu cydymdeimlad.

* * * * *

**4. CWESTIYNAU**

Cyflwynwyd – rhybudd o'r cwestiwn canlynol gan y Cynghorydd Robert Ll Jones mewn perthynas â cherbydau mawr sy'n croesi trwy Gaergybi ar eu ffordd i Iwerddon ar y llongau fferi i Arweinydd y Cyngor :-

*Hoffwn ofyn i Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn os ydi o wedi gofyn i'n Haelod o'r Senedd neu'n Haelod Seneddol lleol i ddweud wrthym beth sy'n digwydd o ran unrhyw gynlluniau i ddarparu cyfleusterau ar gyfer loriau sy'n teithio i'r Iwerddon drwy borthladd Caergybi.*

*Mae angen i ni gefnogi'r gyrwyr hyn gan fod y mater yn achosi perygl i gerddwyr pan fydd y loriau yn cael eu parcio ym meysydd parcio siopau ger ardal siopa Penrhos. Mae'r problemau diweddar gyda thywydd garw dros y gaeaf wedi ychwanegu at y broblem.*

*O'r hyn rwy'n ei ddeall mae ein Hadran Briffyrdd wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y materion parhaus hyn ac maent yn barod i gydweithio er mwyn dod o hyd i ddatrysiad i'r broblem. Mae angen i ni weithredu cyn y bydd damwain neu rywbeth gwaeth yn digwydd. '*

Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr Aelod o'r Senedd yn gwbl ymwybodol o'r heriau a wynebir oherwydd bod loriau'n parcio o gwmpas y siopau yn ardal Penrhos. Dywedodd ymhellach ei fod wedi trafod y mater ar sawl

achlysur gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth, Mr Ken Skates AC a'r Tasglu Iwerddon a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r problemau sydd wedi codi yn sgil cau Porthladd Caergybi yn 2024. Mae Cynllun Trafnidiaeth Cymru yn tynnu sylw at y problemau o ran parcio loriau yng Nghaergybi. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi bod addewid wedi'i gwneud i ddarparu Parc ar gyfer loriau yn nhref Caergybi ac ar hyd yr A55. Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod y mater yn cael sylw ar frys yn hytrach na blaenoriaeth haen ganol o fewn y Cynllun Gweithredu.

**5. RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynwyd rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Dylan Rees: -

*Mae Prosiect Cadwraeth arloesol y Wiwer Goch ar Ynys Môn wedi bod yn hynod lwyddiannus. Erbyn hyn mae tua 800 o wiwerod coch ar yr ynys ac maent fwyaf niferus yng nghyffiniau Llangefni, Marian-glas ac mewn ambell ardal arfordirol ar hyd y Fenai. Mae gweld wiwerod coch yn brofiad pleserus a chyffrous i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Fodd bynnag, mae llwyddiant y prosiect hwn dan fygythiad parhaus oherwydd brech y wiwer.*

*Firws sy'n cael ei gario a'i ledaenu gan wiwerod llwyd yw brech y wiwer, ond nid yw'n effeithio ar y wiwer lwyd. Pan fydd gwiwerod coch yn cael eu heintio, byddant yn cael nifer fawr o friwiau agored ar y croen, cyn marwolaeth boenus bythefnos yn ddiweddarach. Yng ngogledd Cymru, collwyd rhwng 70 ac 80% o boblogaeth y wiwer goch yng Ngwynedd yn dilyn achos o'r haint yn 2020/21. Yn ystod y deunaw mis diwethaf mae tua 40 o wiwerod llwyd wedi cael eu dal ar Ynys Môn, ac er gwaethaf pob ymdrech, mae'n amhosibl atal pob gwiwer lwyd rhag dod drosodd i Ynys Môn. Mae angen ateb hirdymor, **cyn iddi fynd yn rhy hwyr**.*
*Yn 2023 sefydlwyd deiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i ariannu ymchwil i frechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag clefyd marwol brech y wiwer. Mae'r ddeiseb wedi casglu 11,313 o lofnodion o bob rhan o Gymru a chafodd ei thrafod yn y Senedd ar 27 Medi 2023. Derbyniodd gefnogaeth drawsbleidiol, yn ogystal ag ymrwymiad Gweinidogion.*

*Hyd yma, yr unig gamau a gymerwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yw gwahodd cyflenwyr sydd wedi cofrestru ar wefan "GwerthwchiGymru' i gyflwyno tendrau. Digwyddodd hyn ym mis Gorffennaf 2025, a chan mai am bum wythnos yn unig y cafodd yr hysbyseb ei dangos ar y wefan, nid yw'n syndod na chafodd yr un tendr ei gyflwyno. Nid yw'r Llywodraeth wedi cymryd unrhyw gamau ers hynny.*

*Mae Cyngor Môn, felly, yn galw ar Lywodraeth Cymru, **fel mater o frys**, i gymryd y camau angenrheidiol i gomisiynu sefydliad addas i ymchwilio i'r brechlyn.'*

Eiliodd y Cynghorydd Nicola Roberts y Cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones ei fod yn cefnogi'r Cynnig a chyfeiriodd at y ffaith bod nifer fawr o wiwerod coch yn ardal Llys Dulas. Roedd o'r farn bod angen difa'r Gwiwerod Llwyd i amddiffyn dyfodol Gwiwerod Coch.

Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees, er bod difa'r Gwiwerod Llwyd yn opsiwn, ei bod yn amhosibl atal gwiwerod llwyd rhag dod yma o'r tir mawr. Dywedodd fod y brechlyn i amddiffyn y Gwiwerod Coch yn flaenoriaeth.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo’r cynnig bod Cyngor Sir Ynys Môn yn galw ar Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, i gymryd y camau angenrheidiol i gomisiynu sefydliad priodol i gynnal ymchwil brechu er mwyn amddiffyn gwiwerod coch rhag brech y wiwer.**

## 6. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

## 7. RHEOLI'R TRYSORLYS - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Rhagfyr, 2025 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**Penderfynwyd yn unfrydol i dderbyn Adroddiad yr Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli’r Trysorlys ar gyfer 2025/2026.**

## 8. STRATEGAETH GYFALAF 2026 - 2031

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Ionawr, 2026 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**Penderfynwyd yn unfrydol i dderbyn y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2026-2031.**

## 9. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Chwefror, 2026 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo’r Datganiad o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/2027.**

## 10. STRATEGAETH ARIANNOL A CHYLLIDEB TYMOR CANOLIG 2026/2027

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Chwefror, 2026 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Yn absenoldeb y Dirprwy Arweinydd a Deiliad Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y gyllideb arfaethedig wedi bod yn destun trafodaethau helaeth a oedd yn cynnwys craffu gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol mewn dau gyfarfod ar wahân ynghyd â

Sesiwn Briffio Aelodau ym mis Hydref 2025 a mis Ionawr, 2026 a'r Panel Sgriwtini Adnoddau. Nododd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei setliad dros dro ym mis Tachwedd 2025, ac y byddai Ynys Môn yn derbyn cynnydd o 2.3%. Ychwanegwyd £112.8m arall at gyllid llywodraeth leol ym mis Rhagfyr 2025, gan Lywodraeth Cymru a derbyniwyd setliad terfynol o 4.16% gan y Cyngor hwn. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd yn y ganran o fewn y setliad gan Lywodraeth Cymru, mae'n dal i fod yn sefyllfa ariannol heriol wrth ddarparu ar gyfer y galw cynyddol am y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Dywedodd yr Arweinydd ymhellach y bydd yr aflonyddwch yn y Dwyrain Canol yn sicr yn dylanwadu ar yr economi a chwyddiant ynghyd â phwysau ychwanegol ar y setliad gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru y flwyddyn nesaf. Dywedodd fod y cynigion yn cynnwys cyllideb refeniw net o £207.029 miliwn, cynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor a fydd yn codi tâl Band D i £1,792.98, defnyddio £1.685 miliwn o gronfeydd wrth gefn i helpu i gydbwyso'r gyllideb a pharhau gyda phremiwm y Dreth Gyngor o 100% ar ail gartrefi a chartrefi gwag. Mae'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor yn debyg i'r cynnydd cenedlaethol ac yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, Ynys Môn fydd â'r cyfraddau isaf o ran y Dreth Gyngor yng Ngogledd Cymru o hyd. Serch hynny, derbynnir y bydd y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn effeithio ar rai pobl a dywedodd fod cymorth ar gael drwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn ogystal â chyngor hefyd drwy Ganolfan J E O'Toole neu Gyngor ar Bopeth.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ymhellach mai'r Cyngor hwn yw'r Awdurdod cyntaf yng Nghymru i sicrhau Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor i aelwydydd sydd â phreswylydd sydd â salwch terfynol. Nododd fod y Cynghorydd Jeff Evans wedi codi'r mater yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Sir ym mis Rhagfyr 2025 a oedd yn fenter gan Elusen Marie Curie.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor yr argymhellion i'r Cyngor llawn fel y gwelir yn (a), (b) ac (c) o'r adroddiadau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau wneud sylwadau a gofyn cwestiynau. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor i gwestiynau a materion a godwyd gan y Cyngor fel a ganlyn:-

- Dywedodd Aelod nad yw'r cynnydd parhaus sy'n wynebu trigolion Ynys Môn yn gynaliadwy. Mae'r Dreth Gyngor wedi cynyddu ers 2022, gyda chynnydd o 9.5% yn 2024, 8.5% yn 2025 ac mae'r cynnig ar gyfer 2026/27 yn gynnydd pellach o 5.1%. Mae hyn yn cyfateb i dros 20% o gynnydd dros y blynyddoedd. Mae'r cynnydd sy'n wynebu trigolion yn digwydd mewn cyfnod pan fo argyfwng o ran costau byw gyda theuluoedd yn wynebu prisiau bwyd uwch a biliau ynni uwch a chyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig. Nodwyd bod llawer o drigolion yn teimlo eu bod yn derbyn llai o wasanaeth yn gyfnewid am dâl uwch o ran y Dreth Gyngor. Mynegwyd pryderon bod yr un fformiwla yn cael ei defnyddio i gynyddu trethi, defnyddio cronfeydd wrth gefn ac yna, mae'n gwthio'r broblem strwythurol i'r flwyddyn ganlynol. Mae'r gyllideb hon unwaith eto yn dibynnu ar gronfeydd wrth gefn o £1.68 miliwn; dylid defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer amgylchiadau annisgwyl a allai godi.

Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cyngor mewn sefyllfa gref oherwydd y penderfyniad a wnaed gan y grŵp sy'n rheoli. Nid yw'r setliad gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i alluogi Cynghorau i fforddio'r galw am wasanaethau gan lywodraeth leol ac mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn anochel. Roedd o'r farn nad y Dreth Gyngor yw'r dreth decaf i gasglu adnoddau, ond dyma'r unig ffordd i lywodraeth leol allu fforddio gwasanaethau; defnyddio cronfeydd wrth gefn, cynyddu'r Dreth Gyngor neu doriadau mewn gwasanaethau yw'r unig opsiynau sydd ar gael i awdurdodau lleol. Eleni mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn gwasanaethau lle mae'r galw yn cynyddu i sicrhau gwytnwch y gwasanaethau hynny.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod gorwariant ym maes Gwasanaethau Plant er bod llai o blant hyd at 17 oed ar yr Ynys. Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi gallu cadw o fewn eu cyllideb er bod mwy o bobl oedrannus yn byw ar yr Ynys. Y gost i drigolion Ynys Môn ar gyfer lleoli plant y tu allan i'r sir mewn gofal yr Awdurdod hwn yw £4m.

Dywedodd yr Arweinydd fod costau lleoli plant mewn gofal y tu allan i'r sir yn cynyddu ond mae'r Awdurdod hwn wedi buddsoddi mewn darparu Cartrefi Clyd ar yr ynys. Mae cynlluniau hefyd i gynyddu'r ddarpariaeth hon er mwyn lleihau'r costau. Yn ôl y ddemograffeg, mae Awdurdodau sydd â llai o blant ysgol yn derbyn llai o adnoddau gan Lywodraeth Cymru. Nododd fod poblogaeth sy'n heneiddio ar yr Ynys, a bod cyllid ychwanegol wedi'i roi i'r Gwasanaeth Oedolion oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau.

Dywedodd Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd fod 12 o blant ar hyn o bryd mewn lleoliad y tu allan i'r sir, sy'n cyfateb i £79k yr wythnos i fynd i'r afael ag anghenion y plant. Awgrymodd y byddai'n fuddiol i Aelodau gyfarfod staff Teulu Môn i ddeall yr heriau sy'n cael eu hwynebu i ymateb i'r gofynion statudol i fforddio gofal i'r plant hyn. Amlinellodd Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y costau dan sylw a disgrifiodd strwythur a threfniadau gweithredol model Cartrefi Clyd.

- Dywedodd Aelod fod angen adolygu nifer yr ysgolion uwchradd ar yr Ynys a nifer y Canolfannau Hamdden. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i adolygu'r tâl am y Bin Gwyrdd, ardollau Treth Gyngor ail gartrefi, mân-ddaliadau ac ardrethi busnes.

Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor, er ei fod yn derbyn y sylwadau, y dylai'r materion hyn fod wedi cael eu codi yn ystod y broses graffu a gynhaliwyd sawl mis yn ôl cyn y gyllideb derfynol arfaethedig.

**Cynnig Gwahanol i'r Gyllideb gan Grŵp yr Wrthblaid**

Cyflwynwyd – diwygiad gan Grŵp yr Wrthblaid i gyllideb derfynol arfaethedig y Pwyllgor Gwaith yn unol ag adran 4.3.2.2.11 o'r Cyfansoddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid fod y gyllideb a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn cynnwys creu 65 o swyddi gyda 53 o swyddi wedi'u trosglwyddo yn sgil trosglwyddo staff o'r gwasanaeth ADY a 12

swydd newydd.  Cyfeiriodd at gynnig y Grŵp i osod y Dreth Gyngor ar 1.3% a nododd fod cynnydd o 1% yn cyfateb i £500k o'i gymharu â £291k pan gymerodd y grŵp rheoli reolaeth o'r Cyngor.  Nododd nad oes sôn am y cynnydd yn y premiwm ar gartrefi gwag a fydd yn cynyddu'r flwyddyn nesaf ynghyd ag ardoll twristiaeth a gyflwynir ar ôl etholiad y Senedd.  Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi £5.6m tuag at y cynllun; roedd o'r farn y dylid gwneud pobl yn ymwybodol o'r cynllun. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi'i orfodi ar lywodraeth leol yng Nghymru gan y Llywodraeth Geidwadol ac nad yw'r swm a ganiateir ar gyfer yr Asesiad Gwariant Safonol wedi cynyddu'n sylweddol ers y newid polisi hwn.

Amlinellodd y Cynghorydd Jones ymhellach welliant Grŵp yr Wrthblaid i'r gyllideb derfynol arfaethedig a chyfeiriodd at y ffaith bod y Grŵp yn cytuno â'r angen am gynnydd mewn seiberddiogelwch.  Cyfeiriodd at y tanwariant o £1.7m yn 2023/2024, £3.8m yn 2024/2025 a £1.8m yn 2025/2026.  Cyfeiriodd ymhellach at y cronfeydd wrth gefn penodol a'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a nododd y bydd difidend i dorri'r Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf.   Roedd gwelliant Grŵp yr Wrthblaid i'r gyllideb yn awgrymu cynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor ynghyd â 0.3% i dalu'r cynnydd yn ardoll y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Eiliodd y Cynghorydd Jeff Evans y cynigion gwahanol i'r gyllideb.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau wneud sylwadau a gofyn cwestiynau mewn ymateb i'r Diwygiad i'r Gyllideb ac i'r cynigion buddsoddi mewn gwasanaethau a amlinellwyd gan Grŵp yr Wrthblaid:-

**Lleihau cyllideb ADY £20k**
**Lleihau Cyllideb Cyfleusterau Cyhoeddus £25k**
**Lleihau Cyllideb Arolygu Diogelwch Bwyd i £100k**
**Lleihau'r Gyllideb Seiberddiogelwch i £200k a dileu'r Cais Dadansoddi Data**
**Dileu'r Cais Caffael**

Dywedodd y Cynghorydd Pip O'Neill na allai gefnogi'r gostyngiad a awgrymwyd gan Grŵp yr Wrthblaid i'r ddarpariaeth ADY gan fod pwysau ychwanegol eisoes ar y ddarpariaeth hon o fewn ysgolion.  Roedd hefyd yn anghytuno â'r awgrym i leihau'r cyllid ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus a oedd yn wasanaeth hanfodol.

Roedd y Cynghorydd Gwilym O Jones yn teimlo'n gryf fod angen diogelu'r ddarpariaeth ADY gan fod mwy o bwysau ar y gwasanaeth hwn.  Cyfeiriodd at astudiaeth a gynhaliwyd gan Dr Dave McKenna ynglŷn â'r trefniadau craffu ar Ynys Môn ac awgrymodd y dylai'r Aelodau ymweld ag ysgolion i asesu gofynion ysgolion.  Mae'r Panel Sgriwtini Addysg bellach yn ymweld ag ysgolion, fel rhan o'u rôl graffu, i drafod materion gyda Phenaethiaid, Athrawon ac i wrando ar lais y plant.  Nododd fod y ddarpariaeth ADY yn bryder parhaus mewn ysgolion a bod dirfawr angen cynyddu'r ddarpariaeth hon.  Mynegodd ei fod yn falch bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi £200k ychwanegol tuag at y ddarpariaeth.  Roedd hefyd yn anghytuno â'r awgrym i leihau'r cyllid ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus gan fod pryder parhaus ymysg y cyhoedd am yr angen am fwy o doiledau ar yr Ynys.

Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod £400k wedi'i gynnwys yng nghyllideb yr ysgol tuag at y ddarpariaeth ADY ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ychwanegu £200k arall tuag at y galw cynyddol yn y ddarpariaeth. Mae trosglwyddo staff o'r ADY a'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn sgil dod â'r trefniant ar y cyd â Chyngor Gwynedd i ben eisoes yn rhan o'r trefniant ar y cyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Euryn Morris at gynnig gan Grŵp yr Wrthblaid i leihau'r gyllideb seiberddiogelwch i £200k. Nododd mai pwrpas seiberddiogelwch a dadansoddi data yw diogelu data personol pobl ac y byddai unrhyw ymosodiad seiber yn arwain at ganlyniadau sylweddol ynghyd â chostau ariannol i'r Awdurdod. Byddai'r toriadau a awgrymwyd gan Grŵp yr Wrthblaid i seiberddiogelwch a dadansoddi data yn cynyddu'r risg o gostau sy'n gysylltiedig â seiber-ymosodiad.

Mynegodd y Cynghorydd Jackie Lewis bryderon am y cynnig gan Grŵp yr Wrthblaid i leihau'r gyllideb Arolygu Diogelwch Bwyd i £100k. Nododd fod yr Arolygiadau Diogelwch Bwyd eisoes dan bwysau wrth gynnal arolygiad diogelwch bwyd. Cwestiynodd oblygiadau'r gostyngiad arfaethedig a gynigiwyd gan Grŵp yr Wrthblaid i'r gwasanaeth. Mewn ymateb, dywedodd Deiliad Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod diffyg capasiti o fewn yr Adran a bod Arolygiadau Diogelwch Bwyd yn hollbwysig wrth ddiogelu hylendid bwyd. Dywedodd fod y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu buddsoddi yn y gwasanaeth i gyflogi Swyddog ychwanegol o fewn y gwasanaeth. Pwrpas y buddsoddiad yw darparu capasiti ychwanegol sydd ei angen i glirio'r gwaith sy’n cronni, ac ar ôl hynny disgwylir i'r capasiti uwch sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cyflawni’r nifer gofynnol o arolygiadau bob blwyddyn.

Dywedodd y Cynghorydd Geraint Bebb ei fod yn gwrthwynebu'r cynnig gan Grŵp yr Wrthblaid i ddileu'r Cais Caffael. Gyda’r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol dywedodd ei bod yn bwysig cael proses gaffael gadarn ar waith i sicrhau gwerth am arian.

Cafodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid, gyfle i ymateb i’r sylwadau a wnaed yn erbyn y cynigion gwahanol i’r gyllideb. Nododd fod yr Aelodau wedi portreadu rhai o'r cynigion cyllideb fel toriadau i'r gyllideb. Er bod seiberddiogelwch yn elfen bwysig; cyd y cynnydd yn y gyllideb seiberddiogelwch, fel yr amlinellir yn y gyllideb, yn golygu y bydd angen pedwar aelod ychwanegol o staff. Roedd o'r farn y dylai'r gwasanaethau ddefnyddio eu darpariaeth yn fwy effeithiol heb wario £800k ychwanegol.

Dywedodd ymhellach fod Grŵp yr Wrthblaid wedi cytuno i'r gofyniad i gynyddu’r gyllideb ar gyfer yr Arolygiad Diogelwch Bwyd ond ar lefel o £100k; dylid monitro lefel y buddsoddiad i fesur faint o safleoedd bwyd y mae'r Adran yn gallu eu cwblhau yn y lle cyntaf.

Yn dilyn pleidlais o 6 o blaid, 24 yn erbyn, a neb yn ymatal, ni chafodd Cynnig y Grŵp Gwrthblaid ar gyfer Cyllideb wahanol ei dderbyn.

Yn dilyn pleidlais o 22 o blaid, 8 yn erbyn, a neb yn ymatal cymeradwywyd cynnig cyllideb y Pwyllgor Gwaith.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2026/2027.**
- **Derbyn y Penderfyniad drafft ar y Dreth Gyngor fel y nodir yn (ch) yn yr Rhaglen :-**

**1. PENDERFYNWYD**

Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu Adran 13 o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac Adran 9 o adroddiad Cyllideb 2026/27 fel y Strategaeth Gyllideb o fewn yr ystyr a roddir gan y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau ei bod yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol ac eithrio’r ffigurau a ddisgrifir fel y rhai cyfredol.

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu cyllideb refeniw ar gyfer 2026/27 fel y dangosir yn Adroddiad Cyllideb 2026/27 ac Atodiad 1 ac Atodiad 2.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu cyllideb gyfalaf fel y’i nodir yn adroddiad Adroddiad Cyllideb Gyfalaf 2026/27.

**(c)** Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yng Nghyllideb Derfynol Arfaethedig 2026/27 yn Atodiad 2 er mwyn cyflawni penderfyniadau’r Cyngor. Yn ogystal â hyn, dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y pŵer i drosglwyddo hyd at £50k yr eitem o'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Bydd unrhyw eitem sy’n fwy na £50k angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn y gwneir unrhyw drosglwyddiad o’r gronfa wrth gefn gyffredinol.

**(ch)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2026/27, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

- **(i)** pwerau diderfyn i wario pob pennawd cyllideb yn Atodiad 2 Cyllideb Derfynol Arfaethedig 2026/27 yn erbyn enw pob gwasanaeth, ar y gwasanaeth y mae'n ymwneud ag ef;
- **(ii)** pwerau i gymeradwyo'r defnydd o wasanaethau a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gyllido cynigion gwariant untro sy’n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;
- **(iii)** pwerau i drosglwyddo o’r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2026/27 ac ar gyngor y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) – Swyddog Adran 151, y pŵer i ryddhau hyd at £250k o falansau cyffredinol i ddelio â blaenoriaethau sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

**(dd)** Dirprwyo'r pwerau canlynol i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2027:-

- **(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;
- **(ii)** y pwerau a’r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i wneud arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;
- **(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn Adroddiad y Gyllideb Gyfalaf 2026/27 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda’r fframwaith cyllidebol.

(d) Pennu a chymeradwyo’r dangosyddion darbodus a rhai’r trysorlys sy'n amcangyfrifon a therfynau ar gyfer 2026/27 ac ymlaen fel sy'n ymddangos yn yr adroddiad Datganiad ar Strategaeth Rheoli’r Trysorlys 2026/27.

(dd) Cymeradwyo’r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27 a Strategaeth Gyfalaf 2026/27.

(ff) Cadarnhau y bydd eitemau 1(b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

2. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau at ddibenion blwyddyn ariannol 2026/27 benderfyniad y Cyngor Sir, a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Penodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig A Dim Disgownt
Dosbarth Penodedig B Dim Disgownt

3. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau at ddibenion blwyddyn ariannol 2026/27 benderfyniad y Cyngor Sir ar 6 Mawrth 2007 i bennu lefel disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig C Dim Disgownt

4. **PENDERFYNWYD** datgymhwyso unrhyw ddisgownt(au) a ganiatawyd i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a ddefnyddir yn achlysurol (y cyfeirir atynt fel arfer fel ail gartrefi) ac i amrywio penderfyniad y Cyngor llawn a wnaed ar 28 Chwefror 2018 a gosod am y flwyddyn ariannol 2025/26 swm uwch o'r Dreth Gyngor (sef premiwm y Dreth Cyngor) o 100% o gyfradd safonol y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor neu ar gyfer anheddau a ddefnyddir o bryd i'w gilydd (y cyfeirir atynt fel arfer fel ail gartrefi) i osod swm uwch o Dreth Gyngor (sef premiwm y Dreth Gyngor) o 100% o dan Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Adran 139 o Ddeddf Tai (Cymru).

5. Nodi bod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996, wedi penderfynu na fydd yn ymdrin ag unrhyw gostau sy’n wynebu’r Cyngor mewn rhan o'i ardal na thalu unrhyw ardoll neu ardoll arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael eu diddymu'n benodol.

6. Nodir bod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 25 Tachwedd 2025 wedi cymeradwyo’r symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2026/27 ac i nodi ymhellach fod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lleol yn parhau heb newid am y blynyddoedd dilynol oni bai y caiff ei ddiwygio'n sylweddol. Nodir hefyd bod y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018 wedi mabwysiadu a chymeradwyo Polisi Dewisol y Dreth Gyngor lleol o dan Adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, gan ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddirymu, ailddeddfu a/neu ddiwygio'r Polisi. Fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith ddiwygio'r Polisi ddiwethaf ar 03 Mawrth 2022. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi argymell i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2026, i ddiwygio'r polisi i ganiatáu eithriad i drethdalwyr y cyngor sy'n dioddef o salwch terfynol. Mae'r penderfyniad hwn yn derbyn mabwysiadu Polisi Dewisol y Dreth Gyngor diwygiedig os yw'r Cyngor yn cadarnhau'r newid arfaethedig. Os na chaiff y cynnig ei gadarnhau, yna bydd y Polisi fel y'i diwygiwyd ar 3 Mawrth 2022 yn parhau i fod yn berthnasol a bydd yn cael ei dderbyn o dan y penderfyniad hwn."

7. Yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2025, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y’i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a’r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig o Anheddau)(Cymru)(Diwygiad) 2004, a’r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth

Gyngor)(Cymru)(Diwygiad) 2016, gymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn 2026/27, fel a ganlyn:-

**a)** **33,887** yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sail treth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn.

**b)** Mae'r rhannau o ardal y Cyngor, sef y symiau a gyfrifwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel y sail ar gyfer treth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol, fel a ganlyn:-

| **Ardaloedd Cynghorau Cymuned/Tref** | **Sail y Dreth 2026/27** |
|---|---|
| Amlwch | 1,596.26 |
| Biwmares | 1,177.85 |
| Caergybi | 4,134.77 |
| Llangefni | 2,164.10 |
| Porthaethwy | 1,512.10 |
| Llanddaniel-fab | 386.37 |
| Llanddona | 435.66 |
| Cwm Cadnant | 1,235.84 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,333.25 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 714.12 |
| Bodorgan | 494.92 |
| Llangoed | 698.55 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 655.90 |
| Llanidan | 432.82 |
| Rhosyr | 1,096.44 |
| Penmynydd | 249.00 |
| Pentraeth | 627.60 |
| Moelfre | 715.20 |
| Llanbadrig | 736.08 |
| Llanddyfnan | 536.58 |
| Llaneilian | 652.60 |
| Llannerch-y-medd | 554.69 |
| Llaneugrad | 209.68 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 2,082.80 |
| Cylch y Garn | 446.48 |
| Cartref | 601.70 |
| Rhos-y-bol | 484.65 |
| Aberffraw | 327.15 |
| Bodedern | 456.21 |
| Bodffordd | 417.58 |
| Trearddur | 1,584.29 |
| Tref Alaw | 276.93 |
| Llanfachraeth | 240.24 |
| Llanfaelog | 1,476.95 |
| Llanfaethlu | 306.81 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 596.82 |
| Fali | 1,077.66 |
| Bryngwran | 369.54 |
| Rhoscolyn | 410.32 |
| Trewalchmai | 380.93 |
| **Cyfanswm Sail y Dreth** | **33,887.44** |

**8.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2026/27, yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

| | | |
|---|---|---|
| **a)** | £279,761,942 | sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (d) o'r Ddeddf. |
| **b)** | £72,062,360 | sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) ac (c) o'r Ddeddf. |
| **c)** | £207,699,582 | sef y swm y mae'r cyfanswm yn 8(a) uchod yn fwy na'r cyfanswm yn 8(b) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn. |
| **ch)** | £144,584,962 | sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif a fydd yn daladwy am y flwyddyn i gronfa'r cyngor mewn perthynas â chyfraddau annomestig wedi'u hailddosbarthu, grant cynnal refeniw a grant penodol, llai unrhyw swm a gyfrifir yn unol ag Adran 33(3) o'r Ddeddf. |
| **d)** | £1,862.48 | sef y swm yn 8(c) uchod llai y swm yn 8(ch) uchod, i gyd wedi'i rannu â'r swm yn 7(a) uchod, a gyfrifir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, fel sail ei threth gyngor am y flwyddyn. |
| **dd)** | £ 2,355,140 | sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf. |
| **e)** | £ 1,792.98 | sef y swm yn 8(d) uchod llai y canlyniad a roddir drwy rannu'r swm yn 8(dd) uchod â'r swm yn 7(a) uchod, a gyfrifir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) o'r Ddeddf, fel sail ei threth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i hardal nad oes unrhyw eitem arbennig yn ymwneud â nhw. |

f)

| **Ardaloedd Cymuned/Cygnor Tref** | | **Band D cyfatebol fesul ardal gan gynnwys Cyngor Ynys Môn ac elfennau Cyngor Cymuned / Tref** |
|---|---|---:|
| Amlwch | £ | 1,875.24 |
| Biwmares | £ | 1,826.37 |
| Caergybi | £ | 1,982.79 |
| Llangefni | £ | 1,959.84 |
| Porthaethwy | £ | 1,892.16 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,837.26 |
| Llanddona | £ | 1,814.76 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,821.42 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,891.98 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,829.70 |
| Bodorgan | £ | 1,817.19 |
| Llangoed | £ | 1,835.91 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 1,805.13 |
| Llanidan | £ | 1,843.83 |
| Rhosyr | £ | 1,825.11 |
| Penmynydd | £ | 1,836.36 |
| Pentraeth | £ | 1,847.61 |
| Moelfre | £ | 1,814.22 |
| Llanbadrig | £ | 1,839.24 |
| Llanddyfnan | £ | 1,824.66 |
| Llaneilian | £ | 1,833.48 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,840.14 |
| Llaneugrad | £ | 1,816.83 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,829.34 |
| Cylch y Garn | £ | 1,810.89 |
| Cartref | £ | 1,811.61 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,810.35 |
| Aberffraw | £ | 1,838.79 |

| | | |
|---|---|---|
| Bodedern | £ | 1,829.16 |
| Bodffordd | £ | 1,828.89 |
| Trearddur | £ | 1,816.83 |
| Tref Alaw | £ | 1,817.37 |
| Llanfachraeth | £ | 1,855.44 |
| Llanfaelog | £ | 1,822.77 |
| Llanfaethlu | £ | 1,819.08 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,829.79 |
| Fali | £ | 1,856.16 |
| Bryngwran | £ | 1,841.67 |
| Rhoscolyn | £ | 1,807.56 |
| Trewalchmai | £ | 1,837.62 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 8(e) uchod, symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 8(b) uchod, a gyfrifir gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef symiau sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**Bandiau Prisio**

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 8(e) a 8(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a gyfrifir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o anheddau a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

| | | Treth y Cyngor fesul Band, fesul Ardal, sy'n cynnwys elfennau/praeseptau Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Cymuned/Tref | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Amlwch | £ | 1,250.16 | 1,458.52 | 1,666.88 | 1,875.24 | 2,291.96 | 2,708.68 | 3,125.40 | 3,750.48 | 4,375.56 |
| Biwmares | £ | 1,217.58 | 1,420.51 | 1,623.44 | 1,826.37 | 2,232.23 | 2,638.09 | 3,043.95 | 3,652.74 | 4,261.53 |
| Caergybi | £ | 1,321.86 | 1,542.17 | 1,762.48 | 1,982.79 | 2,423.41 | 2,864.03 | 3,304.65 | 3,965.58 | 4,626.51 |
| Llangefni | £ | 1,306.56 | 1,524.32 | 1,742.08 | 1,959.84 | 2,395.36 | 2,830.88 | 3,266.40 | 3,919.68 | 4,572.96 |
| Porthaethwy | £ | 1,261.44 | 1,471.68 | 1,681.92 | 1,892.16 | 2,312.64 | 2,733.12 | 3,153.60 | 3,784.32 | 4,415.04 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,224.84 | 1,428.98 | 1,633.12 | 1,837.26 | 2,245.54 | 2,653.82 | 3,062.10 | 3,674.52 | 4,286.94 |
| Llanddona | £ | 1,209.84 | 1,411.48 | 1,613.12 | 1,814.76 | 2,218.04 | 2,621.32 | 3,024.60 | 3,629.52 | 4,234.44 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,214.28 | 1,416.66 | 1,619.04 | 1,821.42 | 2,226.18 | 2,630.94 | 3,035.70 | 3,642.84 | 4,249.98 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,261.32 | 1,471.54 | 1,681.76 | 1,891.98 | 2,312.42 | 2,732.86 | 3,153.30 | 3,783.96 | 4,414.62 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,219.80 | 1,423.10 | 1,626.40 | 1,829.70 | 2,236.30 | 2,642.90 | 3,049.50 | 3,659.40 | 4,269.30 |
| Bodorgan | £ | 1,211.46 | 1,413.37 | 1,615.28 | 1,817.19 | 2,221.01 | 2,624.83 | 3,028.65 | 3,634.38 | 4,240.11 |
| Llangoed | £ | 1,223.94 | 1,427.93 | 1,631.92 | 1,835.91 | 2,243.89 | 2,651.87 | 3,059.85 | 3,671.82 | 4,283.79 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 1,203.42 | 1,403.99 | 1,604.56 | 1,805.13 | 2,206.27 | 2,607.41 | 3,008.55 | 3,610.26 | 4,211.97 |
| Llanidan | £ | 1,229.22 | 1,434.09 | 1,638.96 | 1,843.83 | 2,253.57 | 2,663.31 | 3,073.05 | 3,687.66 | 4,302.27 |
| Rhosyr | £ | 1,216.74 | 1,419.53 | 1,622.32 | 1,825.11 | 2,230.69 | 2,636.27 | 3,041.85 | 3,650.22 | 4,258.59 |
| Penmynydd | £ | 1,224.24 | 1,428.28 | 1,632.32 | 1,836.36 | 2,244.44 | 2,652.52 | 3,060.60 | 3,672.72 | 4,284.84 |
| Pentraeth | £ | 1,231.74 | 1,437.03 | 1,642.32 | 1,847.61 | 2,258.19 | 2,668.77 | 3,079.35 | 3,695.22 | 4,311.09 |
| Moelfre | £ | 1,209.48 | 1,411.06 | 1,612.64 | 1,814.22 | 2,217.38 | 2,620.54 | 3,023.70 | 3,628.44 | 4,233.18 |
| Llanbadrig | £ | 1,226.16 | 1,430.52 | 1,634.88 | 1,839.24 | 2,247.96 | 2,656.68 | 3,065.40 | 3,678.48 | 4,291.56 |
| Llanddyfnan | £ | 1,216.44 | 1,419.18 | 1,621.92 | 1,824.66 | 2,230.14 | 2,635.62 | 3,041.10 | 3,649.32 | 4,257.54 |
| Llaneilian | £ | 1,222.32 | 1,426.04 | 1,629.76 | 1,833.48 | 2,240.92 | 2,648.36 | 3,055.80 | 3,666.96 | 4,278.12 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,226.76 | 1,431.22 | 1,635.68 | 1,840.14 | 2,249.06 | 2,657.98 | 3,066.90 | 3,680.28 | 4,293.66 |
| Llaneugrad | £ | 1,211.22 | 1,413.09 | 1,614.96 | 1,816.83 | 2,220.57 | 2,624.31 | 3,028.05 | 3,633.66 | 4,239.27 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,219.56 | 1,422.82 | 1,626.08 | 1,829.34 | 2,235.86 | 2,642.38 | 3,048.90 | 3,658.68 | 4,268.46 |
| Cylch y Garn | £ | 1,207.26 | 1,408.47 | 1,609.68 | 1,810.89 | 2,213.31 | 2,615.73 | 3,018.15 | 3,621.78 | 4,225.41 |
| Cartref | £ | 1,207.74 | 1,409.03 | 1,610.32 | 1,811.61 | 2,214.19 | 2,616.77 | 3,019.35 | 3,623.22 | 4,227.09 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,206.90 | 1,408.05 | 1,609.20 | 1,810.35 | 2,212.65 | 2,614.95 | 3,017.25 | 3,620.70 | 4,224.15 |
| Aberffraw | £ | 1,225.86 | 1,430.17 | 1,634.48 | 1,838.79 | 2,247.41 | 2,656.03 | 3,064.65 | 3,677.58 | 4,290.51 |
| Bodedern | £ | 1,219.44 | 1,422.68 | 1,625.92 | 1,829.16 | 2,235.64 | 2,642.12 | 3,048.60 | 3,658.32 | 4,268.04 |
| Bodffordd | £ | 1,219.26 | 1,422.47 | 1,625.68 | 1,828.89 | 2,235.31 | 2,641.73 | 3,048.15 | 3,657.78 | 4,267.41 |
| Trearddur | £ | 1,211.22 | 1,413.09 | 1,614.96 | 1,816.83 | 2,220.57 | 2,624.31 | 3,028.05 | 3,633.66 | 4,239.27 |
| Tref Alaw | £ | 1,211.58 | 1,413.51 | 1,615.44 | 1,817.37 | 2,221.23 | 2,625.09 | 3,028.95 | 3,634.74 | 4,240.53 |
| Llanfachraeth | £ | 1,236.96 | 1,443.12 | 1,649.28 | 1,855.44 | 2,267.76 | 2,680.08 | 3,092.40 | 3,710.88 | 4,329.36 |
| Llanfaelog | £ | 1,215.18 | 1,417.71 | 1,620.24 | 1,822.77 | 2,227.83 | 2,632.89 | 3,037.95 | 3,645.54 | 4,253.13 |
| Llanfaethlu | £ | 1,212.72 | 1,414.84 | 1,616.96 | 1,819.08 | 2,223.32 | 2,627.56 | 3,031.80 | 3,638.16 | 4,244.52 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,219.86 | 1,423.17 | 1,626.48 | 1,829.79 | 2,236.41 | 2,643.03 | 3,049.65 | 3,659.58 | 4,269.51 |
| Fali | £ | 1,237.44 | 1,443.68 | 1,649.92 | 1,856.16 | 2,268.64 | 2,681.12 | 3,093.60 | 3,712.32 | 4,331.04 |
| Bryngwran | £ | 1,227.78 | 1,432.41 | 1,637.04 | 1,841.67 | 2,250.93 | 2,660.19 | 3,069.45 | 3,683.34 | 4,297.23 |
| Rhoscolyn | £ | 1,205.04 | 1,405.88 | 1,606.72 | 1,807.56 | 2,209.24 | 2,610.92 | 3,012.60 | 3,615.12 | 4,217.64 |
| Trewalchmai | £ | 1,225.08 | 1,429.26 | 1,633.44 | 1,837.62 | 2,245.98 | 2,654.34 | 3,062.70 | 3,675.24 | 4,287.78 |

**9.** Dylid nodi, ar gyfer y flwyddyn 2026/27, bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru wedi datgan y symiau canlynol mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

**Awdurdod Praeseptio** **Bandiau Prisio**

| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru | £ | 265.50 | 309.75 | 354.00 | 398.25 | 486.75 | 575.25 | 663.75 | 796.50 | 929.25 |

**10.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 8(ff) a 9 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2026/27 ar gyfer pob categori o anheddau a ddangosir isod:-

| | | Y Dreth Gyngor fesul Band, ym mhob ardal, sy'n cynnwys elfen Cyngor Sir Ynys-Môn, Praeseptau Cyngor Cymunedol / Tref a Phraesept Heddlu Gogledd Cymru | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Amlwch | £ | 1,515.66 | 1,768.27 | 2,020.88 | 2,273.49 | 2,778.71 | 3,283.93 | 3,789.15 | 4,546.98 | 5,304.81 |
| Biwmares | £ | 1,483.08 | 1,730.26 | 1,977.44 | 2,224.62 | 2,718.98 | 3,213.34 | 3,707.70 | 4,449.24 | 5,190.78 |
| Caergybi | £ | 1,587.36 | 1,851.92 | 2,116.48 | 2,381.04 | 2,910.16 | 3,439.28 | 3,968.40 | 4,762.08 | 5,555.76 |
| Llangefni | £ | 1,572.06 | 1,834.07 | 2,096.08 | 2,358.09 | 2,882.11 | 3,406.13 | 3,930.15 | 4,716.18 | 5,502.21 |
| Porthaethwy | £ | 1,526.94 | 1,781.43 | 2,035.92 | 2,290.41 | 2,799.39 | 3,308.37 | 3,817.35 | 4,580.82 | 5,344.29 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,490.34 | 1,738.73 | 1,987.12 | 2,235.51 | 2,732.29 | 3,229.07 | 3,725.85 | 4,471.02 | 5,216.19 |
| Llanddona | £ | 1,475.34 | 1,721.23 | 1,967.12 | 2,213.01 | 2,704.79 | 3,196.57 | 3,688.35 | 4,426.02 | 5,163.69 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwm Cadnant | £ | 1,479.78 | 1,726.41 | 1,973.04 | 2,219.67 | 2,712.93 | 3,206.19 | 3,699.45 | 4,439.34 | 5,179.23 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,526.82 | 1,781.29 | 2,035.76 | 2,290.23 | 2,799.17 | 3,308.11 | 3,817.05 | 4,580.46 | 5,343.87 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,485.30 | 1,732.85 | 1,980.40 | 2,227.95 | 2,723.05 | 3,218.15 | 3,713.25 | 4,455.90 | 5,198.55 |
| Bodorgan | £ | 1,476.96 | 1,723.12 | 1,969.28 | 2,215.44 | 2,707.76 | 3,200.08 | 3,692.40 | 4,430.88 | 5,169.36 |
| Llangoed | £ | 1,489.44 | 1,737.68 | 1,985.92 | 2,234.16 | 2,730.64 | 3,227.12 | 3,723.60 | 4,468.32 | 5,213.04 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 1,468.92 | 1,713.74 | 1,958.56 | 2,203.38 | 2,693.02 | 3,182.66 | 3,672.30 | 4,406.76 | 5,141.22 |
| Llanidan | £ | 1,494.72 | 1,743.84 | 1,992.96 | 2,242.08 | 2,740.32 | 3,238.56 | 3,736.80 | 4,484.16 | 5,231.52 |
| Rhosyr | £ | 1,482.24 | 1,729.28 | 1,976.32 | 2,223.36 | 2,717.44 | 3,211.52 | 3,705.60 | 4,446.72 | 5,187.84 |
| Penmynydd | £ | 1,489.74 | 1,738.03 | 1,986.32 | 2,234.61 | 2,731.19 | 3,227.77 | 3,724.35 | 4,469.22 | 5,214.09 |
| Pentraeth | £ | 1,497.24 | 1,746.78 | 1,996.32 | 2,245.86 | 2,744.94 | 3,244.02 | 3,743.10 | 4,491.72 | 5,240.34 |
| Moelfre | £ | 1,474.98 | 1,720.81 | 1,966.64 | 2,212.47 | 2,704.13 | 3,195.79 | 3,687.45 | 4,424.94 | 5,162.43 |
| Llanbadrig | £ | 1,491.66 | 1,740.27 | 1,988.88 | 2,237.49 | 2,734.71 | 3,231.93 | 3,729.15 | 4,474.98 | 5,220.81 |
| Llanddyfnan | £ | 1,481.94 | 1,728.93 | 1,975.92 | 2,222.91 | 2,716.89 | 3,210.87 | 3,704.85 | 4,445.82 | 5,186.79 |
| Llaneilian | £ | 1,487.82 | 1,735.79 | 1,983.76 | 2,231.73 | 2,727.67 | 3,223.61 | 3,719.55 | 4,463.46 | 5,207.37 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,492.26 | 1,740.97 | 1,989.68 | 2,238.39 | 2,735.81 | 3,233.23 | 3,730.65 | 4,476.78 | 5,222.91 |
| Llaneugrad | £ | 1,476.72 | 1,722.84 | 1,968.96 | 2,215.08 | 2,707.32 | 3,199.56 | 3,691.80 | 4,430.16 | 5,168.52 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,485.06 | 1,732.57 | 1,980.08 | 2,227.59 | 2,722.61 | 3,217.63 | 3,712.65 | 4,455.18 | 5,197.71 |
| Cylch y Garn | £ | 1,472.76 | 1,718.22 | 1,963.68 | 2,209.14 | 2,700.06 | 3,190.98 | 3,681.90 | 4,418.28 | 5,154.66 |
| Cartref | £ | 1,473.24 | 1,718.78 | 1,964.32 | 2,209.86 | 2,700.94 | 3,192.02 | 3,683.10 | 4,419.72 | 5,156.34 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,472.40 | 1,717.80 | 1,963.20 | 2,208.60 | 2,699.40 | 3,190.20 | 3,681.00 | 4,417.20 | 5,153.40 |
| Aberffraw | £ | 1,491.36 | 1,739.92 | 1,988.48 | 2,237.04 | 2,734.16 | 3,231.28 | 3,728.40 | 4,474.08 | 5,219.76 |
| Bodedern | £ | 1,484.94 | 1,732.43 | 1,979.92 | 2,227.41 | 2,722.39 | 3,217.37 | 3,712.35 | 4,454.82 | 5,197.29 |
| Bodffordd | £ | 1,484.76 | 1,732.22 | 1,979.68 | 2,227.14 | 2,722.06 | 3,216.98 | 3,711.90 | 4,454.28 | 5,196.66 |
| Trearddur | £ | 1,476.72 | 1,722.84 | 1,968.96 | 2,215.08 | 2,707.32 | 3,199.56 | 3,691.80 | 4,430.16 | 5,168.52 |
| Tref Alaw | £ | 1,477.08 | 1,723.26 | 1,969.44 | 2,215.62 | 2,707.98 | 3,200.34 | 3,692.70 | 4,431.24 | 5,169.78 |
| Llanfachraeth | £ | 1,502.46 | 1,752.87 | 2,003.28 | 2,253.69 | 2,754.51 | 3,255.33 | 3,756.15 | 4,507.38 | 5,258.61 |
| Llanfaelog | £ | 1,480.68 | 1,727.46 | 1,974.24 | 2,221.02 | 2,714.58 | 3,208.14 | 3,701.70 | 4,442.04 | 5,182.38 |
| Llanfaethlu | £ | 1,478.22 | 1,724.59 | 1,970.96 | 2,217.33 | 2,710.07 | 3,202.81 | 3,695.55 | 4,434.66 | 5,173.77 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,485.36 | 1,732.92 | 1,980.48 | 2,228.04 | 2,723.16 | 3,218.28 | 3,713.40 | 4,456.08 | 5,198.76 |
| Fali | £ | 1,502.94 | 1,753.43 | 2,003.92 | 2,254.41 | 2,755.39 | 3,256.37 | 3,757.35 | 4,508.82 | 5,260.29 |
| Bryngwran | £ | 1,493.28 | 1,742.16 | 1,991.04 | 2,239.92 | 2,737.68 | 3,235.44 | 3,733.20 | 4,479.84 | 5,226.48 |
| Rhoscolyn | £ | 1,470.54 | 1,715.63 | 1,960.72 | 2,205.81 | 2,695.99 | 3,186.17 | 3,676.35 | 4,411.62 | 5,146.89 |
| Trewalchmai | £ | 1,490.58 | 1,739.01 | 1,987.44 | 2,235.87 | 2,732.73 | 3,229.59 | 3,726.45 | 4,471.74 | 5,217.03 |

## 11. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD – CYMERADWYO DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL Y CYNGOR YN DERFYNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Chwefror, 2026 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo’r newid arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn rhoi’r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyngor, yn hytrach na’r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.**

## 12. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL PWYLLGORAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i'w gymeradwyo'r Cyngor.

**Penderfynwyd yn unfrydol:**

- **Bod y Cyngor yn cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi ar bwyllgorau fel yr amlinellwyd yn Atodiad A.**
- **Bod y seddi gwag yn cael eu dynodi i'r ddau aelod unigol.**
- **Bod Arweinyddion Grwpiau yn hysbysu'r Pennaeth Democratiaeth cyn gynted ag y bo modd os bydd unrhyw newid o ran aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.**

**13. DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU 2026 - 2031**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Chwefror, 2026 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**Penderfynwyd yn unfrydol i fabwysiadu'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gyfer 2026-2031.**

**14. DATGANIAD O BOLISI TÂL 2026**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmeriaid i'w dderbyn gan y Cyngor.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor fod Deddf Lleoliaeth 2011, Adran 38, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr baratoi a chyhoeddi Datganiad o Bolisi Tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu dull y cyngor o bennu tâl ei weithwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Douglas M Fowlie nad oes modd cyfiawnhau'r strwythur cyflog ar gyfer yr uwch dîm rheoli, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau ariannol presennol.

Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y strwythur cyflog yn cael ei osod yn annibynnol drwy'r Cyd-bwyllgor Cenedlaethol. Nododd fod cyfrifoldebau sylweddol yn rhan o rolau yr uwch reolwyr a bod angen strwythur cyflog o'r fath er mwyn gallu denu gweithwyr i'r rolau hyn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad o Bolisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2026/2027.**

**CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

**Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd 2025-26**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2025/26, blwyddyn bwysig a chyffrous o ran gwireddu gallu a chyfleoedd economaidd newydd ar yr ynys.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddwyd mai Wylfa fyddai'r safle cyntaf ar gyfer derbyn adweithydd modwlar bychan yn Ynysoedd Prydain; cyhoeddiad oedd yn benllanw gwaith lobïo traws bleidiol yma yn Ynys Môn gan Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Senedd o bob Plaid ac, yn amlwg, gan Aelodau ym mhob rhan o'r Siambr hon.

Bellach, mae'r gwaith caled o sicrhau bod cymunedau cyfagos yn cael eu gwarchod, a bod buddion y datblygiad arfaethedig yn dod i drigolion Ynys Môn wedi cychwyn. Mae'n hanfodol ein bod yn creu llwybr sgiliau er mwyn sicrhau bod swyddi newydd o fewn y datblygiad, ac o fewn y gadwyn gyflenwi leol, yn dod i drigolion Ynys Môn ac yn hynny o beth, roedd yn bleser gallu arwyddo cytundeb ffurfiol o gydweithio gyda Great British Energy-Nuclear fis diwethaf.

Cyrhaeddom garreg filltir bwysig ar gyfer gwireddu datblygiadau'r Porthladd Rhydd ym mis Mawrth wrth arwyddo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau cyllid sbarduno gwerth £25 miliwn a galluogi'r Porthladd Rhydd i fod yn weithredol erbyn gwanwyn 2026. Gyda hyn bellach yn ei le, gall y Cyngor, Stena, a phartneriaid eraill gyflymu cynlluniau sy'n cryfhau rôl yr ynys yn y meysydd ynni, gweithgynhyrchu a masnach, a chynorthwyo i hyrwyddo ffyniant hirdymor Ynys Môn a Gogledd Cymru.

Yn ogystal â'r ddau gynllun uchod, rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau buddsoddiad o £10.4 miliwn gan Uchelgais Gogledd Cymru i gefnogi twf economaidd hirdymor yn ardal Amlwch wrth fwrw ati i adnewyddu hen Adeilad y Derfynfa Forol ym Mhorth Amlwch ac adeiladu 10 uned busnes yn yr ystâd ddiwydiannol. Cam pwysig arall wrth geisio gwireddu ein Strategaeth Adfywio Gogledd Ynys Môn.

Mae sicrhau economi sy'n ffynnu a swyddi o ansawdd i'n trigolion yn greiddiol i'n gwaith ni o fewn y Cyngor Sir er mwyn cefnogi busnesau lleol i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n codi a galluogi ein pobl ifanc i aros ar yr Ynys os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rwy'n ffyddiog y gallwn edrych ymlaen at ddyfodol llewyrchus ar gyfer Ynys Môn a'i thrigolion.

O fewn ein Gwasanaethau Cymdeithasol rydym wedi croesawu canfyddiadau arolygiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Roedd eu hymweliad ym mis Ionawr 2026 yn edrych ar ba mor dda mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gweithio. Daeth y tîm i'r casgliad fod plant a theuluoedd yn cael eu cefnogi'n dda gan dîm gofalgar, medrus ac ymrwymedig a bod nifer o enghreifftiau o ymarfer ardderchog i'w gweld ar yr Ynys. Ar yr un pryd, cafwyd arolygiad o Wasanaethau Maethu Ynys Môn gyda'r arolygwyr yn amlygu fod ein plant yn profi sefydlogrwydd ac yn derbyn cefnogaeth i feithrin perthnasau cadarnhaol gyda gofalwyr maeth, yn ogystal â chanmol yr hyfforddiant gwybodus am drawma, goruchwyliaeth gyson a rhwydweithiau cymorth mae'r gofalwyr maeth yn eu derbyn.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch o galon i'n holl ofalwyr maeth am eu gwaith diflino dros blant a phobl ifanc Ynys Môn. Nid yw bob amser yn hawdd addasu i rannu'ch cartref â phlant eraill, ond mae eu cyfraniad yn hanfodol ac mae ein gofalwyr maeth yn mynd gam ymhellach i wneud yn siŵr bod plant sy'n derbyn gofal yn teimlo eu bod yn cael croeso, yn ddiogel ac aelod o'r teulu. Mae fy edmygedd a fy mharch tuag at ein gofalwyr maeth yn ddiddiwedd.

Derbyniodd Hwb Cymunedol Amrywiol y Cyngor wobr genedlaethol yng ngwobrau Cymunedau Mwy Diogel Cymru ym mis Rhagfyr. Mae'r hwb yn cynnig lleoliad croesawgar, cefnogol a chynhwysol i gymunedau lleol ledled Ynys Môn, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches o Affganistan, Wcráin a Syria. Mae'r wobr yn adlewyrchu ymrwymiad ein staff, ein partneriaid a'n gwirfoddolwyr, a'r teuluoedd sy'n cyfrannu'n wythnosol er mwyn dwyn ynghyd popeth sy'n dda am Ynys Môn - mae'n groesawgar, cartrefol, cefnogol ac yn dangos yr hyn a ellir ei gyflawni wrth i gymunedau ddod ynghyd.

Wrth sôn am ddod a pob rhan o'n cymunedau ynghyd, derbyniodd Môn Actif gydnabyddiaeth genedlaethol am y gwaith mae'n ei wneud drwy dderbyn gwobr 'Building Belonging' yng Ngwobrau Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid 2026. Mae'r wobr yn cydnabod sefydliadau sy'n creu amgylchedd gynhwysol lle mae plant ac oedolion ifanc yn teimlo eu bod yn perthyn. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a chymunedau i gefnogi miloedd o bobl ifanc bob blwyddyn gyda'r gwaith yn adlewyrchu amcanion Cynllun Strategol Môn Actif 2024 i 2029 sy'n blaenoriaethu'r gwaith i leihau anghydraddoldebau, gwella cyfranogiad a chreu cymunedau sy'n iach ac actif drwy ddulliau cynhwysol sy'n canolbwyntio ar le.

Cafodd naw o bobl ifanc o Ynys Môn gymryd rhan mewn seremoni arbennig ym Mhalas Buckingham a chael eu hanrhydeddu am gwblhau Gwobr Aur Dug Caeredin dan arweiniad a gyda chefnogaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Môn. Ysgol David Hughes ym Mhorthaethwy yw'r ysgol uwchradd gyntaf ym Môn i ennill gwobr arian Siarter Iaith Uwchradd, gydag Ysgol Gyfun Llangefni yn cael ei henwi fel yr ysgol uwchradd prif lif gyntaf yn y DU i dderbyn y wobr Ysgol sy'n Wybodus am Drawma ac Iechyd Meddwl – llongyfarchiadau mawr. Mae'r rhain i gyd yn gamau pwysig yn ein taith fel Cyngor i ddod yn Ynys sy'n Wybodus o Drawma.

Gyda chynlluniau cyffrous ar gyfer ail-leoli dysgwyr 11 i 18 oed Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad newydd, yn ogystal â'r cynllun i godi cyfleuster gofal ychwanegol a chartref gofal preswyl gydag arbenigedd dementia ym Mhorthaethwy, mae'r buddsoddiad yng ngwasanaethau'r dyfodol i drigolion Ynys Môn yn sylweddol. Fe fydd y ddau ddatblygiad yma, wrth gwrs, yn cyfrannu at ein ymrwymiadau a gwaith i symud tuag at bod yn sefydliad sero net.

Wrth gwrs, mae'n hawdd rhestru gwobrau ac anrhydeddau ond mae'r cynnydd a'r gwaith sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ym mhob adran o fewn y Cyngor Sir yn arwydd o ymroddiad a gwaith caled ein holl staff. Wrth fynychu cyfarfodydd cenedlaethol a rhanbarthol yn fy rôl fel Arweinydd ac yn fy rôl fel Deilydd Portffolio mae fy malchder a'm parch tuag at arloesedd Cyngor Sir Ynys Môn, a'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar yr Ynys yn enfawr, ac mae fy niolch yn enfawr i holl staff y Cyngor, a'n partneriaid allweddol, am eu hymroddiad i gefnogi ac amddiffyn ein trigolion a'n cymunedau.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Yn atebol i:** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad:** | 12fed o Fai 2026 |
| **Pwnc:** | Ymgynghoriad Cyhoeddus ar yr Ardoll Ymwelwyr arfaethedig |
| **Deiliad/deiliaid Portffolio:** | Y Cyng. Alun Roberts (Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Andy Godber<br>Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol<br>andygodber@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i bob Aelod Etholedig |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Gofynnir i'r Cyngor Llawn gefnogi:

**Y gwaith o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn seiliedig ar y posibilrwydd o gyflwyno ardoll ymwelwyr ar Ynys Môn (yn unol â chanllawiau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru).**

Mae'r ardoll ymwelwyr yn dâl ychwanegol posibl y mae'n rhaid ei dalu wrth aros mewn llety ymwelwyr yng Nghymru.

Bydd yr arian a godir drwy'r ardoll yn cael ei ddefnyddio i wella twristiaeth leol.
Bydd o gymorth i:

- cynnal a chadw cyfleusterau a seilwaith lleol
- amddiffyn amgylchedd naturiol Ynys Môn
- sicrhau y gall cymunedau barhau i groesawu ymwelwyr gan ddiogelu'r hyn sy'n gwneud pob ardal yn arbennig

Gall Cynghorau Lleol ddewis a ydynt yn dymuno cyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn eu hardal, ond rhaid penderfynu hyn ar ôl ymgynghori â phreswylwyr a busnesau.

Golyga hyn y bydd yr ardoll yn cael ei chodi yn yr ardaloedd hynny y mae'r gymuned wedi penderfynu ei rhoi ar waith.

Mis Hydref 2027 yw'r cynharaf y gallai Cyngor Sir Ynys Môn gyflwyno ardoll ymwelwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn eirioli'r defnydd o Egwyddorion Gunning ar gyfer ymgynghori – sef:

- Rhaid i'r ymgynghori fod ar gam ffurfiannol.

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

- Rhaid rhoi digon o wybodaeth er mwyn caniatáu ystyriaeth ddeallus o'r ymatebion a gall gynnwys asesiad o effeithiau economaidd. Ymhlith ystyriaethau eraill mae gwybodaeth ynghylch y gwelliannau i reolaeth cyrchfannau a fyddai'n digwydd yn sgil y cyllid ychwanegol a godir drwy'r Ardoll.
- Rhaid rhoi digon o amser ar gyfer ystyried ac ymateb.
- Rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr adborth a geir drwy'r ymgynghoriad.

Cynigir y dylai'r broses ymgynghori ddechrau ar 18fed o Fai am gyfnod o 8 wythnos.

Gweler rhagor o fanylion a'r dull ymgynghori yn **ATODIAD A**

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu optio allan o'r opsiwn hwn?

Yr opsiwn arall fyddai gwrthod cyflwyno Ardoll Ymwelwyr a hynny heb ymgynghori â'r sector a'r cyhoedd yn ehangach.

## C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor Cyfan?

Mae cyngor cyfreithiol wedi dod i'r casgliad bod y penderfyniad i ymgynghori ar y cyflwyniad posibl yn un y mae angen i'r Cyngor Llawn ei wneud.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Cyfan?

Er na chyfeirir atynt yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan na Chynllun y Cyngor, mae'r rhesymeg sydd wrth wraidd yr Ardoll i gyflawni rheolaeth cyrchfan gynaliadwy yn gyson â'r ddau bolisi.

## D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor?

Bydd yr ymgynghoriad a'r asesiadau effaith economaidd a chydraddoldeb cysylltiedig yn cael eu cyflawni gan ddefnyddio cyllid presennol y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Yr argymhelliad yw cefnogi'r gwaith o gyflawni proses ymgynghori lawn Bydd y rhain yn cynnig y sylfaen er mwyn penderfynu a ddylid mabwysiadu Ardoll Ymwelwyr ai peidio. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y disgwylir iddo atal costau / dibyniadau i'r Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol – cefnogaeth yn ofynnol ar gyfer y cam ymgynghori yn unig |
| 3 | A ydym ni wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill er mwyn cyrraedd y penderfyniad hwn? Os felly, nodwch pwy. | Y bwriad yw gweithio ar y cyd â chynghorau cyfagos, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy, er mwyn dilyn amserlen a phroses osodedig ar gyfer yr ymgynghoriad.. Wedi dweud hynny, bydd yr ymgynghoriad ei hun yn cael ei gynnal yn annibynnol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi cyfrannu at ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, yn cynnwys y rheini sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y penderfyniad? Eglurwch sut. | Bydd gan y cyhoedd gyfle i gynnig adborth drwy'r broses ymgynghori |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn eu cael ar y grwpiau sydd wedi'u gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae asesiad effaith cydraddoldeb llawn wedi'i gynnal a bydd yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad. **ATODIAD B** |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. | Mae asesiad effaith economaidd llawn wedi'i gynnal a bydd yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad – **ATODIAD C** |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. | Bydd y broses ymgynghori yn gwbl ddwyieithog.<br>Mae gwerthusiad o effeithiau posibl ar yr Iaith Gymraeg yn rhan o **ATODIAD B** |

| E – Gyda phwy y gwnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu barn nhw? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Rheoli (UDRh) | Awgrymu y dylid cynnal ymgynghoriad. |

| E – Gyda phwy y gwnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu barn nhw? |
|---|---|---|
| | (gorfodol) | Awgrymu y dylid cydweithio ar y dull ymgynghori gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Conwy ond y dylai'r ymgynghoriad ei hun fod yn annibynnol. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Paratoi'r deunyddiau ymgynghori digidol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Amherthnasol |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| ATODIAD A – Gofynion Ymgynghori<br>ATODIAD B – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb<br>ATODIAD C – Asesiad Effaith Economaidd<br>ATODIAD D – Gwerthusiad o'r Effeithiau Posibl ar yr Amgylchedd. |

| Ff - Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| ATODIAD E - Cynllun Rheoli Cyrchfan 2023-2028 |

# ATODIAD A

## Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025

## Disgwyliadau a gofynion ymgynghori ar gyfer Awdurdodau Lleol

### 1. Cyflwyniad

Cafodd Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 Gydsyniad Brenhinol ar 18fed Hydref. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr (yr ardoll) a godir ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn yr ardal. Ardoll ddewisol ydyw; awdurdodau lleol fydd i benderfynu a ydynt am ei chyflwyno ar ôl ymgynghori â'u cymunedau a busnesau lleol.

Mae cyflwyno'r ardoll ei hun yn ddewisol ar gyfer pob awdurdod lleol ac ni all ddigwydd cyn 2027 gan fod angen ymgynghori ag ymgynghoreion gorfodol cyn hynny.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch yr Ardoll yma;

Ardoll Ymwelwyr a Chofrestr o Ddarparwyr Llety Ymwelwyr

### 2. Canllawiau Ymgynghori Drafft Llywodraeth Cymru

Mae'r map ffordd ar gyfer y broses gwneud penderfyniadau gan yr awdurdod lleol wedi'i gyhoeddi ar ffurf drafft gan Lywodraeth Cymru ac yn ffurfio sail y diweddariad hwn ar y camau nesaf.

Mae awdurdodau cyfagos, sef Gwynedd a Chonwy, wedi dangos bwriad i ymgymryd â'r broses ymgynghori ar y posibilrwydd o gyflwyno'r Ardoll ym mis Mai-Gorffennaf 2026, ac mae swyddogion yn credu ei bod hi'n synhwyrol dilyn amserlen debyg.

Bydd y broses ymgynghori yn sail i benderfyniad y Cyngor.

Gall pob awdurdod lleol ddewis a ydynt am fabwysiadu a rhoi'r ardoll ymwelwyr ar waith. Os yw awdurdod yn dymuno gweithredu ardoll, yna mae'n rhaid ymgynghori â phreswylwyr, busnesau a sefydliadau lleol eraill cyn ei rhoi ar waith.

### 3. Gofynion ymgynghori

- Rhaid i'r ymgynghori fod ar gam ffurfiannol
- Rhaid rhoi digon o wybodaeth er mwyn caniatáu ystyriaeth ddeallus o'r ymatebion a gall gynnwys asesiad o effeithiau economaidd. Ymhlith ystyriaethau eraill mae gwybodaeth ynghylch y gwelliannau i reolaeth cyrchfannau a fyddai'n digwydd yn sgil y cyllid ychwanegol a godir drwy'r Ardoll.
- Mae'n rhaid caniatáu digon o amser i ystyried ac ymateb.
- Cynigir cyfnod ymgynghori o 8 wythnos.
- Rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr adborth a geir drwy'r ymgynghoriad.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

### 3.1 Rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

- Preswylwyr lleol, gweithwyr a myfyrwyr.
- Cynghorau Cymuned yn ardal y prif gyngor.
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Prif Gynghorau cyfagos.
- Cyd-Bwyllgor Corfforaethol sy'n cynnwys o leiaf un uwch-aelod gweithredol o'r cyngor.
- Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio yn y sector twristiaeth

### 3.2 Dylai'r ymgynghoriad gynnwys:

- Cynnig wedi'i gyhoeddi yn amlinellu'r achos dros yr ardoll.
- Buddion ac awgrymiadau posibl ar gyfer sut ellir buddsoddi'r ardoll.
- Asesiad o effaith leol (effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol).
- Deunyddiau hygyrch, clir ac amserlenni realistig.
- Cydweithio ag Awdurdod Cyllid Cymru am gyngor a chefnogaeth weithredol.

### 3.3 Rhaid i awdurdodau lleol hefyd:

- Cynnal Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Dilyn y Cod o Ymarfer Argymelledig ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu.

### 3.4 Dulliau Ymgysylltu

Bydd y costau ymgynghori yn cael eu talu gan yr awdurdod lleol ac, fel y cyfryw, awgrymir defnyddio'r dulliau ymgysylltu mwyaf cost effeithlon.

Byddai'r rhain yn cynnwys -

- Arolwg Ar-lein
- Rhannu negeseuon digidol ac ar y cyfryngau cymdeithasol
- Hysbyseb ar radio leol i dynnu sylw at yr ymgynghoriad
- Fersiynau papur o'r ymgynghoriad a gwybodaeth ategol mewn adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys canolfannau hamdden a llyfrgelloedd.

Yn ogystal, bydd ymgysylltu wyneb yn wyneb yn digwydd trwy-

- Gyfarfodydd cyhoeddus, gweithdai, digwyddiadau dros dro. Byddant yn cael eu cynnal mewn gwahanol ardaloedd daearyddol ar hyd a lled Ynys Môn.
- Cyfarfod gydag Awdurdod Cyllid Cymru yn benodol ar gyfer y sector busnes.

**4. Ar ôl yr ymgynghoriad:**

- Bydd swyddogion yn rhoi adborth ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ac yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor.
- Rhaid i'r Cyngor Cyfan fwrw pleidlais ar y penderfyniad.
- Os cymeradwyir, rhaid cyhoeddi hysbysiad ffurfiol yn cynnwys -
    - ◊ Canlyniadau'r broses gwneud penderfyniadau
    - ◊ Cyfraddau'r Ardoll sydd i'w cyflwyno
    - ◊ Dyddiad ar gyfer cyflwyno
    - ◊ Gwybodaeth arall mae'r awdurdod yn ei hystyried yn briodol

**5. Opsiynau a rhwymedigaethau'r awdurdod lleol**

Gall awdurdodau lleol benderfynu sut i ddefnyddio unrhyw refeniw a godir drwy'r ardoll ymwelwyr er mwyn cefnogi twristiaeth. Rhaid iddynt nodi i ba bwrpas maen nhw'n bwriadu defnyddio'r ardoll mewn adroddiad i'w gyhoeddi cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad a bydd yn ofynnol iddynt ddarparu adroddiad blynyddol ar sut mae'r refeniw a godwyd wedi bod o fudd i'w hardal.

Bydd yr adnodd ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i wella rheoli cyrchfan a bydd rhaid cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn nodi sut y cafodd ei ddefnyddio, gan sicrhau, felly, fod yr adnodd hwn, sydd wedi'i glustnodi, yn cael ei ddefnyddio'n unol â'r Ddeddf.


Bydd sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll, sy'n ofynnol gan bob cyngor sy'n mabwysiadu hyn, yn cefnogi'r penderfyniad o ran dyrannu'r gwariant.

Er mai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll fydd yn penderfynu sut i ddefnyddio'r adnoddau ychwanegol, mae disgwyl i amcanion y Cynllun Rheoli Cyrchfan fod wrth wraidd y penderfyniad ynghylch buddsoddi yn y dyfodol. Hynny yw, gwella Ynys Môn fel cyrchfan sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy a chymunedau, diwylliant, treftadaeth a'r amgylchedd naturiol yw ei asedau allweddol.

Yn ogystal, dylid nodi na ellir addasu na chael gwared ar yr ardoll nes ei bod wedi bod ar waith am o leiaf 12 mis a byddai unrhyw addasiadau iddi yn gofyn proses ymgynghori arall.

**6. Gwybodaeth arall**

Awdurdod Cyllid Cymru fydd yn rheoli'r gwaith o gasglu'r ardoll ar ran unrhyw awdurdod lleol sy'n penderfynu gweithredu ardoll ymwelwyr.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL
Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon
Asesiad Effaith Cydraddoldeb yr Ardoll Ymwelwyr
ynysmon.llyw.cymru anglesey.gov.wales

# Cynnwys

1 Cyflwyniad ____ 1
2 Y Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ____ 3
3 Methodoleg - Asesiad Effaith Cydraddoldeb ____ 7
4 Crynodeb o Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol ____ 9
5 Asesiad o'r effaith leol ar gydraddoldeb ____ 14
6 Cymraeg ____ 32
7 Statws Economaidd-Gymdeithasol ____ 35
8 Atodiad A – Data preswylwyr ____ 43

# 1 Cyflwyniad

1.1 Yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ystyrir yr effeithiau a allai ddod i ran cydraddoldeb pe bai Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod ardoll ymwelwyr.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno gwybodaeth i Gyngor Sir Ynys Môn i ategu ei ystyriaethau ynglŷn â gosod ardoll ymwelwyr mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

1.3 Yn ogystal, mae hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar y Gymraeg ac yn ystyried y statws socio-economaidd yng nghyd-destun y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

## Trosolwg o'r Ardoll Ymwelwyr

1.4 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi dewis i gynghorau godi tâl ar arosiadau dros nos. Gelwir y tâl hwn yn 'ardoll ymwelwyr', a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027.

1.5 Gellir codi'r ardoll ar ddwy gyfradd wahanol:

- Lleiniau safleoedd gwersylla ac ystafelloedd a rennir (hostelau ac ystafelloedd aml-wely): 75c a TAW y pen, y noson
- Pob math arall o lety i ymwelwyr: £1.30 a TAW y pen, y noson

Nodwch y bydd gofyn i'r rhai sy'n gwersylla mewn faniau camper, carafanau neu glampio dalu'r gyfradd uwch.

1.6 Ceir eithriadau[1]; ni fydd ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr os byddant:

- dan 18 oed ac yn gwersylla neu'n aros mewn ystafell a rennir (fel hostelau neu ystafelloedd aml-wely)
- yn aros am fwy na 31 noson ar un archeb
- yn aros mewn llety brys neu dros dro a drefnwyd gan y cyngor lleol

1.7 Bydd arian yr ardoll yn cael ei ail-fuddsoddi mewn pethau fel rheoli'r gyrchfan a gwella'r ardal. Mae Adran 44 o Ddeddf 2025 yn nodi bod yn rhaid i gynghorau ddefnyddio arian yr ardoll ar gyfer:

- lleihau'r effaith a gaiff ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd ymwelwyr (pa un a fyddant at ddefnydd pobl leol hefyd, ai peidio).

[1] Yr ardoll ymwelwyr: cyfraniad bach ar gyfer etifeddiaeth barhaol: Ar gael yma

## Diben yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

1.8 Wrth ystyried a ddylid gosod ardoll ymwelwyr ai peidio, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn ystyried yr effeithiau posibl ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010').[2] Diben yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cyflwyno gwybodaeth a all gynorthwyo'r cyngor yn ei rôl fel awdurdod lleol wrth arfer Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

1.9 Yn **Adran 2** yr adroddiad hwn, nodir y cyd-destun trwy bennu'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi , ac mae Adran 3 yn esbonio'r y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan ystyried effeithiau anghymesur a gwahaniaethol.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â gosod ardoll ymwelwyr ledled Cymru.[3] Yn **Adran 4**, crynhoir canfyddiadau'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.

1.10 Yn **Adran 5**, ystyrir yr effaith a fyddai'n deillio o osod ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn a'r ffyrdd posibl y gallai'r effeithiau hynny ryngweithio â nodweddion gwarchodedig.

1.11 Mae **Adran 6** yn ystyried yr effaith bosibl ar y Gymraeg ac mae **Adran 7** yn ystyried y statws economaidd-gymdeithasol yng nghyd-destun y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

1.12 Cynhaliwyd asesiad ar wahân o'r effaith economaidd – pan fo'n berthnasol, croesgyfeirir ato yn yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.

---

[2] Deddf Cydraddoldeb 2010.
[3] Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma

## 2 Y Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi

2.1 Deddf 2010 yw sail y gyfraith atal gwahaniaethu ym Mhrydain Fawr. Yn Adran 4 o Ddeddf 2010, diffinnir gwahanol fathau o nodweddion gwarchodedig sy'n berthnasol i'r Ddeddf, sef:

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd a chred;
- Rhyw;
- Cyfeiriadedd rhywiol.

2.2 Mae Deddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi sylw dyladwy i ystyriaethau cydraddoldeb wrth iddynt arfer eu swyddogaethau. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddwch, erledigaeth ac unrhyw beth arall a waherddir gan neu dan y Ddeddf hon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno;
- Meithrin cydberthnasau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno.

2.3 Mae'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol (fel y nodir yn Adran 149 (3) o Ddeddf 2010):

- Dileu neu leihau anfanteision a ddaw i ran unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, sef anfanteision sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, sef anghenion sy'n wahanol i anghenion unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno;
- Annog unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad unigolion o'r fath yn anghymesur o isel.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

2.4 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru 2015**[4] yn nodi saith nod ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r rhain yn darparu diben cyffredin cyfreithiol rwymol i lywodraethau cenedlaethol a lleol yn ogystal ag ar gyfer byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Nod 'Cymru Fwy Cyfartal' yw creu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau.

2.5 Mae adrannau 1 i 3 o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**, a daeth yr adrannau hyn i rym yng Nghymru yn 2021. Mae'r ddyletswydd yn golygu bod awdurdod "rhaid, wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau, ystyried dyledus pa mor ddymunol yw eu harfer mewn ffordd sydd wedi'i gynllunio i leihau'r anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol". Wrth wneud hynny, rhaid i'r awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan weinidogion Cymru.

2.6 Mae'r canllawiau hyn[5] yn diffinio anfantais economaidd-gymdeithasol fel "byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas", ac y gall hyn gynnwys "cymunedau o ddiddordeb" a "cymunedau lle".

### Polisi perthnasol arall

2.7 Fydd **Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040** (2021)[6] yn llunio dyfodol sy'n gynaliadwy, yn iach, yn deg ac yn deg. Mae pob rhanbarth yn cael ei annog i adeiladu ar eu cryfderau presennol a dilyn cyfleoedd i gyflawni mwy o ffyniant a lles.

2.8 Mae dau o'r deuddeg canlyniad yng Nghymru yn y dyfodol yn sôn am dwristiaeth, gan gynnwys pwysigrwydd 'denu diddordeb a gwariant twristiaid a darparu brand unigryw a dibynadwy i fusnesau Cymru' a darparu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy.

2.9 Mae twristiaeth a hamdden yn cael eu cydnabod fel cyflogwr mawr a chynyddol ac yn cyfrannu at economi wledig Cymru. Mae'r cynllun yn nodi y dylid archwilio ffurfiau cynaliadwy o dwristiaeth, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer twristiaeth egnïol, gwyrdd a diwylliannol. Mae twristiaeth hefyd yn 'ffocws' Ardal Twf rhanbarthol Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru (Polisi 21).

2.10 Mae'r Cynllun hefyd yn tynnu sylw at gynyddu gwelededd yr iaith Gymraeg hefyd yn flaenoriaeth.

2.11 Mae'r **Genhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach (2023),** yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu economi fwy ffyniannus, cyfartal a mwy gwyrdd Mae hyn yn cynnwys:

- Pontio cyfiawn a ffyniant gwyrdd
- Llwyfan i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant

---

[4] Llywodraeth Cymru. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted
[5] Llywodraeth Cymru. 2021. Cymru Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.
[6] Llywodraeth Cymru. 2021. Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040.

- Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'n heconomi bob dydd
- Buddsoddi ar gyfer twf.

2.12 Mae'r canlyniadau cenhadaeth economaidd yn sail i'r pedair blaenoriaeth: economi fwy ffyniannus, economi mwy gwyrdd ac economi fwy cyfartal. Mae'n diffinio fel economi fwy ffyniannus yn un sy'n gweithredu o fewn terfynau amgylcheddol diogel ac yn hyrwyddo lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Llywodraeth weithredol sy'n gyrru datblygiad economaidd i dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldebau.

2.13 Mae'r **Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025-2029** (2025)[7] yn cyflawni dyletswyddau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig penodol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac ymrwymiadau i Hawliau Dynol. Mae'n nodi'r nod hirdymor i Gymru fel 'Mae Cymru yn genedl sy'n seiliedig ar gydraddoldeb, gwrth-wahaniaethu a chynhwysiant, drwy gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.'

2.14 Mae'r **Contract Economaidd**[8] yn gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r busnesau y mae'n eu cefnogi i nodi sut y bydd gweithio mewn partneriaeth yn gwella gwytnwch economaidd ac yn gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i weithio. Mae'r Contract yn ymrwymo busnesau i ddarparu cyfraniadau buddsoddi cyhoeddus sy'n blaenoriaethu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys mynediad at Waith Teg a hyrwyddo lles. Mewn ymateb i'r cyfraniadau hyn, mae'r Contract yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i nodi'r cymorth anariannol y bydd yn ei ddarparu i fusnesau yn gyfnewid.

## Polisi Ynys Môn

2.15 Gweledigaeth **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026** (2017)[9] (JLDP) yw rhoi cynlluniau a phrosiectau ar waith a fydd yn hyrwyddo cymunedau ffyniannus, iach a diogel. Mae amcanion strategol yn cynnwys:

- Diogelu a chryfhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, a hyrwyddo ei defnydd fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol.
- Cynyddu cyfraddau cyflogaeth a gweithgarwch economaidd a lleihau cyfraddau diweithdra, fel bod pob un yn agosach at y cyfartaledd cenedlaethol.

2.16 Mae'r cynllun yn cydnabod twristiaeth fel sector economaidd a blaenoriaeth allweddol, a bod angen 'gwella a rheoli'r ddarpariaeth twristiaeth 'drwy'r flwyddyn' yn yr ardal mewn ffordd gynaliadwy tra ar yr un pryd yn hyrwyddo treftadaeth, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yr ardal'.

2.17 Gweledigaeth CSYM a nodir yng **Nghynllun y Cyngor 2023-2028**[10] yw ''Creu Ynys Môn sy'n iach ac yn ffyniannus lle gall pobl ffynnu'. Mae'r cynllun yn cael ei ategu gan chwe amcan: (y Gymraeg, Gofal Cymdeithasol a Lles, Addysg, Tai, yr Economi a Newid yn yr Hinsawdd).

---

[7] Llywodraeth Cymru. 2025. Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Hawliau Dynol 2025-2029
[8] https://businesswales.gov.wales/economic-contract
[9] Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd Council. 2017. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026.
[10] Cyngor Sir Ynys Môn. Cynllun y Cyngor 2023-2028.

2.18 Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ynys Môn 2024-2028 yn sefydlu wyth amcan cydraddoldeb ar gyfer Ynys Môn:

- Addysg: Cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a chefnogi lles disgyblion ysgol
- Y gweithle: Cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal a lleihau bylchau cyflog
- Safonau byw: Cymryd camau i wella safonau byw grwpiau gwarchodedig
- Lles iechyd a gofal cymdeithasol: Cymryd camau i wella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol
- Diogelwch personol: Cymryd camau i ddiogelu grwpiau gwarchodedig
- Cyfranogiad: Cynyddu mynediad at gyfranogiad ac annog amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau
- Anfantais economaidd-gymdeithasol: Cymryd camau i fynd i'r afael ag anfantais
- Arferion gwaith: Gwella ein harferion mewnol i sicrhau tegwch i bawb

2.19 Y bwriad yw sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o waith ar draws y sefydliad ac nad yw'n eistedd ar wahân fel prosiect ar wahân. Mae cynlluniau gweithredu blynyddol yn sicrhau llywodraethu a monitro.

# 3 Methodoleg - Asesiad Effaith Cydraddoldeb

### Dull

3.1 Bydd pob ymyriad yn esgor ar amrywiaeth o effeithiau, gan gael effaith a all fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.

3.2 Yn achos pawb y bydd rhyw ymyriad yn effeithio arnynt, byddant yn meddu ar rai nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf 2010, bydd croestoriadedd yn digwydd i wahanol raddau (megis oedran, hil a rhyw), ac ni fydd yr ymyriadau'n effeithio'n gyfartal ar bawb. Ond nid yw hyn yn cyfateb, o angenrheidrwydd, i effaith ar gydraddoldeb.

3.3 Er mwyn canfod pa effeithiau sy'n berthnasol i ystyriaethau cydraddoldeb, mae asesiadau cydraddoldeb yn pennu bod effeithiau cydraddoldeb yn cyfateb i effeithiau sy'n effeithio'n anghymesur neu'n wahaniaethol ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol o gymharu ag unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodweddion gwarchodedig hynny, fel yr esbonnir isod:

- **Anghymesur:** efallai y ceir effaith anghymesur ar gydraddoldeb pan fo cyfran fwy o bobl â nodwedd warchodedig arbennig yn dioddef effeithiau o gymharu â'r boblogaeth ehangach.
- **Gwahaniaethol:** efallai y ceir effaith wahaniaethol ar gydraddoldeb pan fo pobl â nodwedd warchodedig yn dioddef effeithiau gwahaniaethol o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, a hynny gan eu bod yn agored i niwed neu oherwydd cyfyngiadau a wynebant yn sgil y nodwedd warchodedig honno.

3.4 Nid oes modd mesur graddfa nac arwyddocâd effeithiau o'r fath bob amser. O'r herwydd, mae'r broses o ystyried effeithiau cydraddoldeb yn cynnwys dadansoddiad disgrifiadol o'r effeithiau posibl, a hefyd nodir a fydd effeithiau o'r fath yn niweidiol neu'n fanteisiol.

3.5 Mae effeithiau cydraddoldeb yn gymhleth, ac maent yn anodd eu rhagweld yn gywir ac yn gynhwysfawr. Mater personol yw nodweddion gwarchodedig pobl, ac ni wyddys beth ydynt bob amser. Ychwaith, nid yw'r holl bobl a fydd yn byw wrth ymyl yr ardal, yn gweithio yn yr ardal, neu'n ymweld â'r ardal yn y dyfodol, yno heddiw. Oherwydd hyn, dim ond effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol a ystyrir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

3.6 Mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan gyrff cyhoeddus, efallai y bydd angen ystyried a chydbwyso amrediad o wahanol effeithiau cadarnhaol a negyddol. Efallai y ceir mesurau lliniaru rhesymol a all ddileu neu leihau rhai effeithiau anghymesur neu wahaniaethol ar gydraddoldeb, ond efallai na fydd modd osgoi rhai effeithiau bob amser.

### Cwmpas yr Asesiad

3.7 Prif amcan yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cyflwyno gwybodaeth i Gyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â'i effaith debygol ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, er mwyn llywio'i benderfyniadau.

3.8 Gallai'r ardoll ymwelwyr effeithio ar dri grŵp cyffredinol o bobl, sef:

- Pobl sydd (neu a fydd yn y dyfodol) yn cael eu cyflogi mewn swyddi twristiaeth (neu sectorau cysylltiedig), y gallai cyflwyno'r ardoll effeithio ar eu cyflogaeth – yn cynnwys perchnogion busnesau y gellid effeithio arnynt.

- Preswylwyr sy'n byw yn yr ardal, y gallai cyflwyno'r ardoll effeithio arnynt – trwy weld newid yn nifer yr ymwelwyr a/neu a fyddai'n elwa ar fuddsoddi arian yr ardoll.

- Ymwelwyr (neu bobl eraill sy'n aros dros nos) y byddai'n rhaid iddynt dalu'r ardoll.

3.9 O fewn y grwpiau hyn, fe fydd yna bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig, ac fe fydd yna wahanol raddau o groestoriadedd.

3.10 Y man cychwyn ar gyfer cynnal yr asesiad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar lefel Cymru gyfan[11] (Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb), yn cynnwys yr asesiad, yr ymgynghoriad / gwaith ymgysylltu a'r mesurau lliniaru. Yna, awn ati i ystyried a oes yna unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn a allai newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac arwain at effeithiau anghymesur neu wahaniaethol. Mae hyn wedi'i nodi yn Adran 4 tra bod yr asesiad effaith cydraddoldeb lleol wedi'i nodi yn Adran 5.

3.11 Mae darnau diweddarach yn ystyried yr effaith bosibl ar y Gymraeg ac yn ystyried y statws economaidd-gymdeithasol yng nghyd-destun y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

[11] Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma

# 4 Crynodeb o Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol

4.1 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn defnyddio ffigurau a data ystadegol yn ymwneud â phob nodwedd warchodedig a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cynnwys elusennau, grwpiau anabledd a sefydliadau ffydd, er mwyn pennu – a lliniaru, pan fo modd – unrhyw effeithiau negyddol posibl ar gydraddoldeb.

4.2 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb:

***'Nod cyffredinol yr ardoll yw cynhyrchu refeniw ychwanegol i awdurdodau lleol sy'n dewis defnyddio ardoll, ac ni ddisgwylir y bydd effeithiau "uniongyrchol" ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.'***

4.3 Yn yr asesiad, nodir y byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn effeithio ar awdurdodau lleol, ymwelwyr, trigolion lleol a busnesau, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Diffinnir 'effaith uniongyrchol' fel unrhyw effaith bosibl yn sgil gorfod talu neu godi'r ardoll. Diffinnir 'effaith anuniongyrchol' fel unrhyw effaith bosibl yn sgil bodolaeth yr ardoll.

4.4 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod mai gwaith ymchwil cyfyngedig yn unig a geir mewn perthynas â'r effaith y byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn ei chael ar nodweddion gwarchodedig, felly defnyddir gwybodaeth ansoddol a rhywfaint o ddata i lunio casgliadau ynglŷn ag effeithiau "anuniongyrchol" posibl. Mae'r un amodau'n berthnasol i'r asesiad lleol.

### Y sefyllfa gyffredinol mewn perthynas ag ad-daliadau ac eithriadau

4.5 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgysylltiad ffurfiol ar y Ddeddf, gan gynnwys mewn perthynas ag eithriadau. Yn gyffredinol, gwelwyd bod y rhai a oedd o blaid esemptio rhai grwpiau yn tueddu i gredu bod angen gwneud hynny oherwydd y rhesymau canlynol:

4.5.1 dylid rhoi eithriadau ar waith er mwyn hyrwyddo tegwch a chanlyniadau cyfartal trwy gynorthwyo grwpiau â nodweddion gwarchodedig, a hefyd

4.5.2 ni ddylai rhai grwpiau gael eu dosbarthu fel ymwelwyr, ac o'r herwydd ni ddylent orfod talu ardoll.

4.6 Yn achos y rhai a oedd yn anghytuno â gosod eithriadau, roeddynt o'r farn y gallai eithriadau gyflwyno cymhlethdodau a chynyddu'r baich gweinyddol i awdurdodau treth a darparwyr llety ymwelwyr, ac roeddynt o'r farn y gallai eithriadau fod yn annheg gan fod pob ymwelydd yn elwa ar seilwaith a gwasanaethau i ymwelwyr.

4.7 Yn y pen draw, mae Llywodraeth Cymru yn bendant ei barn bod angen sylfaen bolisi glir ar gyfer eithriadau neu gyfraddau is ar sail nodweddion gwarchodedig. Y dull, felly, yw lleihau'r defnydd o eithriadau a defnyddio cyfradd ardoll is.

4.8 Er mwyn sicrhau dull graddoledig a gwneud yn siŵr na fydd pobl ar incwm is yn cael eu datgymell neu eu rhwystro rhag talu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r ardoll, nodir dwy gyfradd yn y Bil, sef

cyfradd is ar gyfer hostelau a safleoedd gwersylla a chyfradd uwch ar gyfer pob llety arall i ymwelwyr. Er y nodir y bydd gofyn i'r rhai sy'n gwersylla mewn faniau gwersylla, carafanau neu glampio dalu'r gyfradd uwch.

4.9 Bydd modd i Weinidogion Cymru asesu a diwygio’r cyfraddau a bennir yn y ddeddfwriaeth os daw effeithiau niweidiol i’r amlwg.

4.10 Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi dau gategori o arosiadau mewn perthynas â'r ardoll, a fydd naill ai, wedi'u heithrio neu eu had-dalu:

- Mae'r **eithriadau** yn cynnwys arosiadau a drefnir gan awdurdodau lleol, y rhai sy'n ddigartref, llety i geiswyr lloches, ysbytai preifat, adeiladau cymeradwy, cartrefi gofal a safleoedd sipsiwn a theithwyr.
- Gellir **darparu ad-daliadau** lle nad yw'n bosibl darparu eithriad. Mae hyn yn cynnwys arosiadau lle mae risg i'r iechyd, diogelwch neu les pe bai unigolyn yn aros yn ei unig breswylfa neu brif breswylfa, lle roedd unigolyn yn ddigartref (ac nad oedd yr arhosiad wedi'i eithrio), ac arosiadau gan y rhai sy'n derbyn budd-dal anabledd lle roedd person yng nghwmni person sy'n darparu gofal, cymorth neu gymorth.

4.11 Caiff y grwpiau a’r sefyllfaoedd canlynol eu hesemptio:

- Arosiadau dros nos ar safleoedd sipsiwn a theithwyr.
- Arosiadau a drefnir gan y Swyddfa Gartref fel rhan o’i rhwymedigaethau statudol.
- Arosiadau brys mewn llety ymwelwyr a drefnir gan awdurdodau lleol fel rhan o’u dyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
- Arosiadau a drefnir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o’i rhwymedigaethau statudol.
- Ni chynhwysir pobl dan 18 oed yn y tâl cyfrifadwy ar gyfer arosiadau cyfradd is.

4.12 Yn yr un modd, bydd modd cael ad-daliadau mewn achosion pan na fydd modd darparu esemptiad, megis:

- Arosiadau’n ymwneud â llety brys dros dro a drefnir gan sefydliadau elusennol mewn llety ymwelwyr ar ran pobl ddigartref, yn cynnwys ceiswyr lloches a phobl sy’n ffoi rhag cam-drin domestig.
- Pobl anabl sy’n cael budd-dal anabledd cymwys, a dalodd ardoll ymwelwyr tra’r oeddynt yn aros mewn llety ymwelwyr ac sydd yng nghwmni gofalwr.
- Arosiadau lle ceir risg i iechyd a diogelwch neu les pe bai rhyw unigolyn wedi aros yn ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa (er enghraifft, arosiadau a drefnir gan elusennau ar gyfer pobl agored i niwed; neu pan fo tân, llifogydd neu drychineb arall yn golygu nad oes modd byw yn yr eiddo; neu pan fo’r gwasanaethau brys wedi cynghori na ddylid aros yn yr eiddo am resymau o’r fath).

4.13 Fel rhan o’r broses ymgynghori, ymgysylltodd swyddogion llywodraeth Cymru â thimau polisi yn Llywodraeth Cymru ac yn y trydydd sector er mwyn deall mwy am brofiadau byw grwpiau agored i niwed sydd angen llety ymwelwyr.

4.14 O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu hwnnw, cymerwyd y camau canlynol mewn perthynas ag eithriadau ac ad-daliadau.

- Eithriadau:
  - Nodi'n glir yn Neddf 2025 y mathau o arosiadau mewn llety ymwelwyr a fydd yn esempt rhag talu ardoll ymwelwyr er mwyn sicrhau bod nodau'r polisi yn cael eu gwireddu.
  - Y gallu i gyflwyno eithriadau newydd, ynghyd â'r gallu i addasu neu ddileu eithriadau, pe bai tystiolaeth yn dod i'r amlwg ynglŷn ag unrhyw effaith anghymesur.
- Ad-daliadau – y gallu i ychwanegu at y rhestr o senarios a allai fod yn gymwys i gael ad-daliadau, pe bai tystiolaeth berthnasol yn dod i'r amlwg.

## Nodweddion gwarchodedig

4.15 Yn Nhabl 4.1 isod, ceir crynodeb o'r effaith ar bob nodwedd warchodedig a'r mesurau ar gyfer lliniaru'r effeithiau a gynhwysir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Tabl 4.1: Yr effaith ar nodweddion gwarchodedig – Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| Oedran | Dim effeithiau negyddol na chadarnhaol uniongyrchol. Pennwyd rhai effeithiau eilaidd ar gyfer plant a phobl ifanc.<br><br>Efallai y bydd y gallu i dalu ardoll yn effeithio'n wahanol ar bobl ar incwm is, e.e. pobl iau neu bobl hŷn. | Caiff pobl dan 18 oed eu heithrio rhag talu ardoll ar gyfer arosiadau cyfradd is. |
| Anabledd | Pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol. Y rheswm am hyn yw y gallai pobl anabl sydd angen gofalwr wynebu costau ychwanegol oherwydd bod yr ardoll yn berthnasol i'r gofalwr, pe bai'r unigolyn anabl yn ysgwyddo'r costau ychwanegol hynny. | System ad-dalu ar gyfer pobl sy'n cael budd-dal anabledd ac sy'n cael cwmni unigolyn sy'n darparu gofal, cymorth neu help. |
| Ailbennu rhywedd | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | Caiff arosiadau mewn ysbytai preifat eu hesemptio rhag yr ardoll. |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |
| Hil | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | Caiff safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu hesemptio rhag yr ardoll.<br><br>Mae eithriadau / ad-daliadau ar gael ar gyfer grwpiau agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a phobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. |
| Crefydd a chred | Dim effaith negyddol uniongyrchol. Efallai y gallai'r ardoll effeithio ar fforddiadwyedd twristiaeth grefyddol, ond mae llety am ddim yn esempt. | Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer y bobl hynny y gallai eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol.<br>Mae llety am ddim yn esempt rhag yr ardoll, a chodir ardoll is ar lety cyfradd is.<br><br>Gellid defnyddio'r refeniw a gynhyrchir yn sgil yr ardoll i ddiogelu a chynnal a chadw safleoedd crefyddol. |
| Rhyw | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |

4.16 O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu a wnaed gyda rhanddeiliaid, mae'r mesurau lliniaru ychwanegol a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn cynnwys y canlynol:

- Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad yn ymwneud â faint o refeniw a gynhyrchir a'r modd y cafodd / y caiff y refeniw ei ddefnyddio er budd y gyrchfan ac i wella'r ardal leol (adlewyrchir hyn yn Adran 45 o Ddeddf 2025).
- Dylai Gweinidogion Cymru gynnal adolygiad ar weithrediad ac effaith Deddf 2025 a dylent gyhoeddi adolygiad bob 5 mlynedd (adlewyrchir hyn yn Adran 63 o Ddeddf 2025).
- Dylid monitro'r defnydd a wneir o ddata, megis arolygon Croeso Cymru, y Baromedr Twristiaeth a gwaith ymgysylltu gyda busnesau ac awdurdodau lleol.

- Dylai Awdurdod Cyllid Cymru fonitro ac adolygu pa mor effeithiol y gweinyddir yr ardoll trwy ymgysylltu â busnesau ac awdurdodau lleol, a dylai adrodd am swm y refeniw a gesglir.

4.17 Isod, ystyrir canfyddiadau'r asesiad 'cenedlaethol' hwn a'r mesurau lliniaru pan fo'n briodol.

# 5 Asesiad o'r effaith leol ar gydraddoldeb

5.1 Yn yr adran ganlynol, cyflwynir data sylfaenol yn ymwneud â demograffeg yr ymwelwyr a'r boblogaeth leol mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf 2010 pan fo data ar gael. Hefyd, llunnir cymhariaeth â data demograffig sylfaenol ar gyfer Cymru mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig. Mae **Atodiad A** yn cynnwys crynodeb o'r data perthnasol ar gyfer y boblogaeth breswyl ac fe'i croesgyfeiriir yma yn ôl yr angen.

5.2 Rhagwelir y bydd gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid yn dechrau'n gynnar yn 2026. Bydd y sylwadau a dderbynnir drwy gydol y broses ymgynghori yn llywio cam nesaf yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (fel y bo'n briodol).

5.3 Mae'r mesurau lliniaru a'r argymhellion a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u seilio ar y rhai a gyflwynir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â gosod ardoll ledled Cymru, a'r rhai y cyfeirir atynt yn Neddf 2025.

## Nodweddion Gwarchodedig

### Oedran

5.4 Mewn perthynas ag oedran, ystyrir yr effeithiau posibl ar:

- Ymwelwyr
- Y boblogaeth leol, o ran cyflogaeth

*Ymwelwyr*

5.5 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb: 'Mae'n bosibl bod y rhai mewn oed sydd fel arfer yn cael eu cysylltu ag incwm is (er enghraifft, pobl iau), yn llai tebygol o allu fforddio'r gost ychwanegol ar gyfer llety ymwelwyr sy'n gysylltiedig â'r ardoll'.

5.6 Yn achos pobl dan 18 oed sy'n aros mewn arosiadau cyfradd is, ni fydd yn rhaid iddynt dalu'r ardoll ar gyfer arosiadau cyfradd is. Bydd hyn yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar bobl ifanc, oherwydd efallai y byddant yn fwy tebygol o aros mewn llety ymwelwyr cyfradd is (er, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi nad oes unrhyw ddata ar gael i gadarnhau'r honiad hwn).

5.7 Hefyd, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi na fyddai costau ychwanegol, o angenrheidrwydd, yn datgymell pobl sy'n ennill llai o arian rhag mynd ar wyliau, ond y gallai costau ychwanegol o'r fath newid eu hymddygiad mewn ffyrdd eraill – fel peri iddynt aros am gyfnod byrrach neu wario llai o arian.

5.8 Nid yw Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn mynd ati'n benodol i ystyried yr effaith bosibl ar bobl hŷn.

5.9 Yn Nhabl 4-5, dangosir dosbarthiad oedran y bobl sy'n ymweld ag Ynys Môn a Chymru. Ymddengys fod cyfran lai o ymwelwyr ifanc yn ymweld ag Ynys Môn o gymharu â Chymru yn gyfan, ac ymddengys fod cyfran fwy o bobl hŷn yn ymweld ag Ynys Môn (er, nid oes data 'tebyg am debyg' ar gael).

5.10 Wrth ddehongli'r tabl, dylid nodi'r canlynol:

- Mae proffil oedran ymwelwyr Ynys Môn yn deillio o 2019, tra mae proffil oedran ymwelwyr Cymru gyfan yn deillio o 2024.
- Mae proffil oedran ymwelwyr Ynys Môn yn cwmpasu ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos, tra mae proffil oedran ymwelwyr Cymru gyfan yn ymwneud ag ymwelwyr dros nos domestig.

Tabl 5-1: Proffil oedran ymwelwyr

| | 16 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55 – 64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn (% yr ymwelwyr)[12] | 16 | 14 | 15 | 20 | 18 | 17 |
| Cymru (% y tripiau)[13] | 20 | 27 | 19 | 13 | 13* | 7* |

Sylwer: mae seren ar ôl ffigur yn dynodi bod maint y sylfaen islaw 100 ac y dylid ystyried y ffigur fel ffigur dangosol yn unig.

5.11 Caiff y tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn dioddef effaith wahaniaethol ei liniaru (yn rhannol) gan yr esemptiad ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed, sy'n golygu na fydd yn rhaid iddynt dalu band isaf yr ardoll. Ymddengys na cheir effaith anghymesur (oherwydd awgryma'r data fod llai o ymwelwyr ifanc o Gymru yn ymweld ag Ynys Môn o gymharu â Chymru gyfan).

5.12 Gyfran fwy o bobl hŷn sy'n ymweld ag Ynys Môn arwain at effaith anghymesur o ganlyniad i effaith niweidiol y cynnydd yng nghost y trip. Ar y llaw arall, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn nodi'r manteision canlynol, sy'n berthnasol i ymwelwyr a thrigolion (ychwanegwyd y pwyslais):

5.12.1 'Gallai'r refeniw ychwanegol hefyd fod o fudd anuniongyrchol i drigolion hŷn a thrigolion iau drwy wella ansawdd bywyd yn y gymuned yn gyffredinol, pe bai'r arian yn cael ei ddefnyddio i wella seilwaith, gan wneud y cyrchfan yn fwy hygyrch i fwy o bobl'.

5.12.2 'Gallai'r arian hefyd gefnogi ymdrechion i ddiogelu diwylliant, a allai helpu i ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth a thraddodiadau lleol, a fyddai o fudd i bobl hŷn a allai fod â chysylltiad dyfnach â'r elfennau diwylliannol hyn, ac ar y llaw arall byddai cynnal a chreu cyfleusterau newydd i'r cenedlaethau iau eu defnyddio o fudd i bobl ifanc'.

### *Cyflogaeth*

5.13 Mae proffil oedran trigolion Ynys Môn yn hŷn na chyfartaledd Cymru a Gogledd Cymru gyda llai o bobl o oedran gweithio yn gyffredinol – cyfeiriwch at Atodiad A am ragor o fanylion.

5.14 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir bod swyddi'r bobl a gyflogir yn y sector twristiaeth yn tueddu i fod yn llai diogel – h.y. maent yn gweithio'n rhan-amser neu'n treulio llai o amser yn gweithio i'r un cyflogwr. Ymhellach, mae'r bobl a gyflogir yn y sector twristiaeth yn tueddu i fod yn iau.

[12] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn
[13] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma

5.15 Hefyd, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn defnyddio'r asesiad o'r effaith economaidd ar lefel genedlaethol, a nodir bod effaith yr ardoll ymwelwyr ar gyflogaeth rhwng +100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a -400 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae'r amrediad yn deillio o ansicrwydd ynghylch i ba raddau y gellir gwrthbwyso llai o alw am wasanaethau twristiaeth gyda gwariant refeniw'r ardoll ymwelwyr.

5.16 Mae'r nifer cyfatebol ar gyfer Ynys Môn rhwng -25 a +7 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (gweler yr Asesiad o'r Effaith Economaidd i gael rhagor o ddata). Gallai unrhyw golledion mewn swyddi effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc.

5.17 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir bod 38% o'r gweithwyr twristiaeth ledled Cymru yn 2022 rhwng 16-29 oed. Dengys data diweddarach (ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref 2024 a Medi 2025) fod 25% o drigolion Cymru a oedd yn gweithio yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai rhwng 16-24 oed.[14] Y ganran gyfatebol ar gyfer Ynys Môn yw 27%. Mae cyfran uchel iawn o bobl 16-19 oed (15%) yn gweithio yn y sector hwn yn Ynys Môn, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (sef 10%).

Tabl 5.2: Cyflogaeth yn ôl oedran (Dosbarthu, Gwestai a Bwytai) – preswyl (Hydref 2024 – Medi 2025)[15]

| **Grŵp oedran** | **Ynys Môn** | | **Cymru** | |
|---|---|---|---|---|
| 16 – 19 | 900 | 15% | 23,700 | 10% |
| 20 – 24 | 700 | 12% | 35,300 | 15% |
| 25 – 49 | 2,200 | 37% | 104,800 | 45% |
| 50+ | 2,100 | 36% | 67,000 | 29% |
| **Cyfanswm** | **5,900** | **100%** | **230,800** | **100%** |

5.18 Er y gellir esgor ar effaith anghymesur (oherwydd y tebygolrwydd uwch y cyflogir pobl ifanc yn y sector twristiaeth), mae'n debyg y bydd maint unrhyw effaith negyddol yn fach iawn – dim ond hyd at 25 o swyddi a fydd yn cael eu colli, sy'n cyfateb i ostyngiad o -0.1% yng nghyflogaeth Ynys Môn, a dyna'r senario waethaf. Hefyd, gellir esgor ar effaith gadarnhaol (sef hyd at oddeutu 7 swydd).

5.19 Ymhellach, nodir y canlynol yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb: '[P]e bai'r refeniw ychwanegol a godir yn ysgogi gwelliannau i'r seilwaith a'r gwasanaethau lleol, gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal, gan sbarduno mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector twristiaeth.'

[14] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
[15] *Ibid*

*Oedran yn gyffredinol*

5.20 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Oedran ar ôl ystyried y mesurau lliniaru (yn cynnwys yr esemptiad i bobl ifanc dan 18 oed ar gyfer llety cyfradd is).

5.21 Ceir effeithiau posibl yn ymwneud â chyfran fwy o ymwelwyr hŷn yn Ynys Môn, a gweithlu ifanc; ond yn ôl pob tebyg, bydd effeithiau'r ardoll yn fach – a byddant yn cael eu gwrthbwyso, i ryw raddau, gan wariant yr ardoll. Felly, ni ragwelir y byddai unrhyw nodweddion penodol Ynys Môn a fyddai'n newid canfyddiadau Llywodraeth Cymru EQIA.

5.22 Pan ddaw rhagor o wybodaeth i law ynglŷn â'r modd y caiff yr arian ei wario, gellir cynnal asesiad arall o'r effaith debygol ar bobl iau neu bobl hŷn.

Rhyw

5.23 Mewn perthynas â rhyw, ystyrir yr effeithiau posibl ar:

- Ymwelwyr
- Y boblogaeth leol, o ran cyflogaeth

*Ymwelwyr*

5.24 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail rhyw.

5.25 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod astudiaethau wedi crybwyll bod dynion yn fwy agored i dalu ardoll ymwelwyr. Efallai fod hyn yn deillio o'r rhyngweithio rhwng rhywedd ac incwm, o gofio bod merched yn cael incwm is na dynion ar gyfartaledd.

5.26 Mae Tabl 5.3 isod yn dangos bod cyfrannau tebyg o ymwelwyr benywaidd a gwrywaidd yn ymweld ag Ynys Môn a Chymru fel gyfan (er, nid oes data 'tebyg am debyg' ar gael). Yn y ddau achos, ceir cyfran fwy o ymwelwyr benywaidd.

5.27 Wrth ddehongli'r tabl isod, dylid nodi:

- Mae proffil ymwelwyr Ynys Môn yn deillio o 2019, tra mae proffil rhyw ymwelwyr Cymru gyfan yn deillio o 2024.
- Mae proffil ymwelwyr Ynys Môn yn cwmpasu ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos, tra mae proffil rhyw ymwelwyr Cymru gyfan yn ymwneud ag ymwelwyr dros nos domestig.

Tabl 4-3: Dosbarthiad ymwelwyr yn ôl rhyw

| | **Ynys Môn**[16] | **Cymru**[17] |
|---|---|---|
| Merched | 60% | 59% |
| Dynion | 40% | 40% |

[16] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn
[17] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydai Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma

| | Ynys Môn[16] | Cymru[17] |
|---|---|---|
| **Pawb** | **100%** | **100%** |

D.S. Efallai na fydd y ganran yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu

5.28 Hefyd, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod arolygon yn awgrymu'r canlynol:

- Mae'r mwyafrif (58%) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai twristiaid gyfrannu at gostau cynnal a chadw a buddsoddi yn y cyrchfannau yr arhosant ynddynt. Ychydig iawn (13%) sy'n anghytuno.
- Ceir cytundeb y dylai twristiaid gyfrannu at gynnal a chadw cyrchfannau a buddsoddi mewn cyrchfannau, ac mae hyn yn cyfateb yn gryf i radd gymdeithasol a 'modd ariannol'.

5.29 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Rhyw. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

### *Cyflogaeth*

5.30 O ran cyflogaeth, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod mwy o ferched na dynion fel arfer yn gweithio yn y sector twristiaeth, ledled Ewrop. Ond yn Nhabl 5.4 isod, gwelir bod y rhaniad rhwng merched a dynion yn weddol gyfartal yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai, ar gyfer Ynys Môn a Chymru.

Tabl 5.4: Cyflogaeth yn ôl rhyw (Dosbarthu, Gwestai a Bwytai)[18]

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Merched | 3,085 (50%) | 132,116 (49%) |
| Dynion | 3,062 (50%) | 137,360 (51%) |
| **Pawb** | **6,147 (100%)** | **269,476 (100%)** |

5.31 Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith anghymesur neu wahaniaethol i'w chael yn Ynys Môn ar ferched (na dynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth, o ganlyniad i'r ardoll.

### Priodas a Phartneriaeth Sifil

5.32 Ni ddisgwylir y bydd darpariaethau Deddf 2025 yn cael unrhyw effaith ar nodweddion priodas a phartneriaeth sifil. Bydd ardoll yn cael ei chodi ar lety ymwelwyr dros nos ar gyfer priodasau / seremonïau partneriaeth sifil.

5.33 Mae cyfrannau ychydig yn is o bobl sengl yn Ynys Môn na'r cyfartaledd yng Ngogledd Cymru neu Gymru a chyfrannau ychydig yn uwch o bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil, neu sydd wedi ysgaru, wedi gwahanu neu'n weddw – cyfeiriwch at Atodiad A am ragor o fanylion.

---

[18] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

5.34 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Phriodas a Phartneriaeth Sifil. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

### Ailbennu Rhywedd

5.35 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd.

5.36 Fodd bynnag, mae Deddf 2025 yn rhoi ystyriaeth i'r bobl hynny sydd angen triniaeth feddygol ar gyfer ailbennu rhywedd ac ni chodir ardoll ar arosiadau mewn ysbytai.

5.37 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Ailbennu Rhywedd. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

### Cyfeiriadedd Rhywiol

5.38 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

#### *Ymwelwyr*

5.39 Awgryma'r dystiolaeth fod 10% o'r tripiau a wnaed i Gymru rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024 wedi cael eu gwneud gan ymwelwyr LHDTC+.[19] Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ni cheir unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai ymwelwyr â'r nodwedd 'cyfeiriadedd rhywiol' yn dioddef anfantais yn sgil darpariaethau Deddf 2025. Nid oes data cyfatebol ar gael ar gyfer Ynys Môn.

#### *Cyflogaeth*

5.40 Yn y boblogaeth gyffredinol mae cyfrannau tebyg o bobl sy'n hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol yn Ynys Môn ag sydd ar draws Gogledd Cymru a Chymru. O ran cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos:

- Caiff cyfrannau rhywfaint yn llai o weithwyr deurywiol a hoyw neu lesbiaidd eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai yn Ynys Môn (3%) o gymharu â Chymru (4%).
- Caiff cyfrannau rhywfaint yn fwy o weithwyr deurywiol a hoyw neu lesbiaidd eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai (3%) o gymharu â'r cyfartaledd ar draws pob sector yn Ynys Môn (2%) – gwelir yr un patrwm yng Nghymru (sef 4% o gymharu â 3%).

[19] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024: Ar gael yma

Tabl 5.5: Cyflogaeth trigolion yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol[20]

| | | Syth neu Heterorywiol | Hoyw neu Lesbiaidd | Deurywiol | Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | Nid atebwyd y cwestiwn | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthu, Gwestai a Bwytai | Ynys Môn | 90% | 2% | 1% | 0% | 7% | 100% |
| | Cymru | 90% | 2% | 2% | 0% | 6% | 100% |
| Pob sector | Ynys Môn | 92% | 1% | 1% | 0% | 6% | 100% |
| | Cymru | 91% | 2% | 1% | 0% | 5% | 100% |

*Cyfeiriadedd Rhywiol – yn gyffredinol*

5.41 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Hil

5.42 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail hil.

5.43 Fel y nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gall ardollau ymwelwyr effeithio ar hil mewn gwahanol ffyrdd gan ddibynnu ar y cyd-destunau penodol a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir, a chan ddibynnu hefyd ar y modd y caiff y refeniw ei wario. Gellir cymryd camau rhagweithiol i sicrhau y bydd modd dosbarthu manteision twristiaeth yn decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth, gan roi lle hollbwysig i ymgysylltu â'r cyhoedd a phrosesau penderfynu cynhwysol er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau negyddol posibl ar grwpiau ethnig leiafrifol.

5.44 Fel y nodir yn Adran 5, ceir system ad-dalu sy'n golygu y gellir rhoi ad-daliadau pan gaiff grwpiau eu cartrefu dros dro mewn llety ymwelwyr a phan fydd elusen yn talu am hynny, mewn argyfwng.

*Ymwelwyr*

5.45 Yn Nhabl 5.6 dangosir proffil ethnigrwydd twristiaeth ddomestig dros nos Cymru yn 2024 a phroffil ethnigrwydd ymwelwyr Ynys Môn.

[20] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

Tabl 5.6 Proffil ethnigrwydd ymwelwyr a thripiau ymwelwyr

| **Ethnigrwydd yr ymatebwyr** | **Cymru (% y tripiau)** [21] | **Ynys Môn (% yr ymwelwyr)** [22] |
|---|---|---|
| Gwyn | 80% | 99% |
| Grwpiau Cymysg / Amlethnig | 3%** | 2% |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 6%* | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | 7%* | |
| Tsieineaidd | 0%** | |
| Arabaidd | 0%** | |
| Grŵp ethnig arall | 0%** | |
| Roedd yn well gan yr ymatebwyr beidio â dweud / Ddim yn gwybod / Ni nodwyd | 3%** | |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** |

Sylwer: mae seren ar ôl ffigur yn dynodi bod maint y sylfaen islaw 100 ac y dylid ystyried y ffigur fel ffigur dangosol yn unig. Mae dwy seren ar ôl ffigur yn dynodi bod maint y sylfaen islaw 30; cynghorir y defnyddwyr i beidio â defnyddio'r amcangyfrif hwnnw.
Sylwer: Efallai na fydd y ganran yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu

5.46 Wrth ddehongli'r tabl uchod, dylid nodi'r:

- Mae proffil ymwelwyr Ynys Môn yn deillio o 2019, tra mae proffil ethnigrwydd ymwelwyr Cymru gyfan yn deillio o 2024.
- Mae proffil ymwelwyr Ynys Môn yn cwmpasu ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos, tra mae proffil ethnigrwydd ymwelwyr Cymru gyfan yn ymwneud ag ymwelwyr dros nos domestig.
- Gan fod proffiliau ymwelwyr Ynys Môn a Chymru yn deillio o ffynonellau data gwahanol, mae'r categorïau'n wahanol.

5.47 Serch hynny, awgrymir bod cyfran lai o ymwelwyr Ynys Môn yn dod o grwpiau ethnig leiafrifol, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

### *Cyflogaeth*

5.48 O ran cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos y canlynol:

- Caiff cyfrannau llai o bobl sy'n perthyn i grŵp ethnig leiafrifol eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai yn Ynys Môn (5%) o gymharu â Chymru (12%).
- Caiff cyfrannau rhywfaint yn fwy o bobl sy'n perthyn i grŵp ethnig leiafrifol eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai (5%) o gymharu â'r cyfartaledd ar draws pob sector yn Ynys Môn (4%) – golyga hyn y gallai newid mewn lefelau cyflogaeth effeithio ar y grŵp hwn (er bod unrhyw newid yn debygol o fod yn fach)

[21] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma
[22] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn

Tabl 5.7: Cyflogaeth trigolion yn ôl ethnigrwydd[23]

| | | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | Grwpiau Cymysg neu Amlethnig | Gwyn: Sais/Saesnes, Cymro/Cymraes, Albanwr/Albanes/ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon neu Brydeiniwr/Prydeinwraig | Gwyn: Gwyddel/Gwyddeles | Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Roma neu Unigolyn Gwyn Arall | Grŵp ethnig arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthu, Gwestai a Bwytai | Ynys Môn | 2% | 0% | 1% | 95% | 0% | 2% | 0% | 100% |
| | Cymru | 4% | 1% | 1% | 88% | 0% | 5% | 1% | 100% |
| Cyfanswm | Ynys Môn | 1% | 0% | 1% | 96% | 1% | 2% | 0% | 100% |
| | Cymru | 3% | 1% | 1% | 91% | 0% | 4% | 1% | 100% |

### *Safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr*

5.49 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn byw bywyd crwydrol a'u bod yn symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

5.50 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Tros Gynnal Plant Cymru wedi dweud na fyddai effaith fawr yn dod i ran Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn ôl pob tebyg, pe bai'r safleoedd parhaol a dros dro dynodedig yn esempt rhag talu'r ardoll.

5.51 Mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn esempt rhag yr ardoll. Ni cheir safleoedd cofrestredig yn Ynys Môn.

5.52 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn defnyddio nifer o safleoedd cyhoeddus a phreifat ledled Cymru, yn cynnwys safleoedd tymhorol, tir sy'n addas ar gyfer mannau aros a negodwyd, a safleoedd gwyliau prif ffrwd ar gyfer teithio tymhorol.

[23] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021

Yn achos aelodau'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n defnyddio llety ymwelwyr ac eithrio ar gyfer eu prif breswylfa neu eu preswylfa arferol, byddai'n rhaid iddynt dalu'r ardoll.

5.53 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu eithriadau cenedlaethol newydd pe bai tystiolaeth o effeithiau negyddol ar unrhyw grŵp arbennig yn dod i'r amlwg.

### *Ceiswyr lloches a ffoaduriaid*

5.54 Oherwydd nad oes gan geiswyr lloches ddim, neu fawr ddim, gallu i gael arian, gallai'r ardoll gael effaith negyddol arnynt. Fodd bynnag, mae Deddf 2025 yn nodi y bydd llety ar gyfer ceiswyr lloches, a drefnir gan awdurdodau lleol, yn esempt rhag talu'r ardoll. Hefyd, ceir system ad-dalu ar gyfer galluogi elusennau i adennill costau'r ardoll ar gyfer unrhyw arhosiad cymwys.

5.55 Ym mis Medi 2025, roedd 3,331 o geiswyr lloches yng Nghymru a oedd yn cael cymorth gan y Swyddfa Gartref wedi'u cartrefu mewn Llety Wrth Gefn (gwestai), Llety Cychwynnol neu Lety Gwasgaru (llety tymor hwy), neu'n cael cynhaliaeth yn unig.[24]

5.56 Yn yr un modd, ym mis Medi 2025, roedd 20 o geiswyr lloches yn Ynys Môn a oedd yn cael cymorth gan y Swyddfa Gartref wedi'u cartrefu mewn Llety Gwasgaru.[25]

5.57 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi anawsterau o ran canfod faint o ffoaduriaid sydd i'w cael yng Nghymru, a hynny oherwydd diffyg data'n ymwneud â ble yn union y mae ffoaduriaid yn preswylio. Serch hynny, awgryma'r dystiolaeth ddiweddaraf fod yna 11 achos o adsefydlu yng Nghymru yn ail chwarter 2025 (yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Gaerfyrddin a Phowys).[26]

5.58 Drachefn, mae Deddf 2025 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu eithriadau cenedlaethol newydd pe bai tystiolaeth o effeithiau negyddol ar unrhyw grŵp arbennig yn dod i'r amlwg.

### *Hil – y casgliad cyffredinol*

5.59 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Hil. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

5.60 Mae ymwelwyr Ynys Môn a chyflogeion yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai yn fwy tebygol o fod yn wyn o gymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru.

5.61 Fel y nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gellir cymryd camau rhagweithiol i sicrhau y bydd modd dosbarthu manteision twristiaeth yn decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth.

---

[24] Y Swyddfa Gartref. 'Immigration system statistics data tables'. Ar gael yma
[25] Y Swyddfa Gartref. 'Immigration system statistics data tables'. Ar gael yma
[26] Y Swyddfa Gartref. 'Immigration system statistics data tables'. Ar gael yma

### Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

5.62 Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymgysylltiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ymgymryd â darparwyr gwasanaethau a goroeswyr i ddeall y profiad byw yn fwy llawn a deall lefelau'r mathau hyn o senarios.

5.63 Mae eithriadau a mecanweithiau ar gyfer ad-dalu wedi'u cynnwys yn y Ddeddf a bydd canllawiau yn cael eu paratoi mewn perthynas â'r broses ymgeisio (o ran datgelu manylion personol). Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn Adran 4.

### Crefydd a Chred

5.64 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn amcangyfrif bod 174,456 o dwristiaid domestig wedi "ymweld ag eglwys gadeiriol, eglwys, abaty neu adeilad crefyddol arall" yn 2023.


5.65 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir na cheir cydberthynas uniongyrchol rhwng ardollau ymwelwyr a chrefydd, cred neu ddim cred. Nodir hefyd y gallai trethi neu bolisïau twristiaeth ryngweithio â rhyddid unigolion i arfer crefydd, gan ddibynnu ar natur yr ymweliad. Trwy gyflwyno ardoll ymwelwyr, gellid effeithio ar allu pobl i fforddio ymweld â mannau o'r fath, gan ddylanwadu o bosibl ar nifer y pererinion neu'r twristiaid a fyddai'n ymweld â safleoedd crefyddol gan y byddai'r ardoll yn cynyddu'r costau i ymwelwyr a fyddai'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr.

5.66 Wrth gynnal yr asesiad ar lefel genedlaethol, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru yn 2023, a hefyd cafwyd ymateb i gais arall am adborth ym mis Mehefin 2024 trwy gyfrwng cynrychiolaeth ar Grŵp Partneriaeth y Trydydd Sector.

5.67 Ni fyddai'r ardoll yn berthnasol i lety a gâi ei ddarparu am ddim. Ond byddai'r ardoll yn berthnasol i arosiadau mewn llety ymwelwyr dros nos cyfradd is (sef mater a godwyd trwy ymgysylltu, gan fod grwpiau ffydd yn trefnu tripiau gwersylla yn aml); er, gallai'r gyfradd is liniaru'r effeithiau negyddol posibl.

5.68 Nid oes data cyfatebol ar gael ar gyfer nifer y twristiaid sy'n ymweld ag adeiladau crefyddol yn Ynys Môn. Ond dengys Ffigur 5.1 fod yna 212 o fannau addoli yn Ynys Môn. Sylwer: proses ddangosol yn unig yw mapio mannau addoli ac efallai na fydd y manylion bob amser yn gyflawn, ac ni cheir diffiniad cyfreithiol clir o fannau addoli.

Ffigur 5-1: Mannau addoli yn Ynys Môn




5.69 Efallai y bydd pobl nad ydynt yn ymhél â phrosesau digidol fel rhan o'u ffydd yn dioddef effaith niweidiol. Er mwyn lliniaru unrhyw effaith bosibl, bydd gwasanaeth ac eithrio gwasanaeth digidol yn cael ei ddarparu pan fo angen.

5.70 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chrefydd a Chred. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

### Anabledd

5.71 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail anabledd.

#### *Y boblogaeth*

5.72 Yn Ynys Môn, roedd yna oddeutu 14,245 o bobl a oedd yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sef 20.7% o gyfanswm y boblogaeth. Mae'r ganran hon yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 21.6%.[27]

#### *Ymwelwyr*

5.73 Ar sail tystiolaeth hanesyddol, nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb y gallai pobl anabl wynebu costau uwch ar gyfer aros mewn llety mewn rhai senarios, a nodwyd rhai rhwystrau a heriau ar gyfer pobl anabl, yn cynnwys:

[27] Cyfrifiad 2021

- Rhwystrau amgylcheddol: Dangosodd adroddiad ymchwil Arolwg Anabledd y DU yn 2021 fod 57% o bobl anabl wedi dweud nad oes modd iddynt fynd ar wyliau oherwydd materion yn ymwneud â hygyrchedd, h.y. mynediad i adeiladau cyhoeddus.
- Ceir diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o argaeledd a nifer y gwasanaethau a'r cyfleusterau twristiaeth hygyrch sydd ar gael, ynghyd â diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau pobl anabl fel twristiaid. Mae gwybodaeth am gyrchfannau hygyrch yn hollbwysig o ran cynyddu cyfleoedd twristiaeth ymhlith unigolion anabl.
- Efallai y bydd archebu gwyliau yn arwain at gostau ychwanegol oherwydd diffyg argaeledd opsiynau teithio a llety hygyrch a fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, ac yn ystod tymhorau prysur. Mewn arolwg diweddar gan Leonard Chesire Disability, a gyhoeddwyd yn Enable Magazine, dywedodd 8 rhan o 10 o bobl anabl eu bod yn wynebu rhwystrau ac anawsterau wrth aros mewn cyrchfannau a gwestai yn y DU. Soniodd mwy na 70% am broblemau o ran dod o hyd i ystafelloedd hygyrch. Hefyd, yn ôl 6 rhan o 10 o'r ymatebwyr, mae costau llety hygyrch yn rhwystr cyffredin sy'n atal pobl rhag mynd ar wyliau, ac yn aml ystyrir bod ystafelloedd hygyrch yn ddrytach.

5.74 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi nifer o heriau eraill, yn cynnwys:

- Dewisiadau a chyfleoedd cyfyngedig i bobl anabl a rhai ag amhariadau – gall hyn effeithio ar eu boddhad â'u profiadau twristiaeth.
- Gall diffyg hygyrchedd i rai pobl anabl mewn safleoedd gwersylla a hostelau arwain at roi straen at gyllidebau teithio – caiff hyn ei liniaru i ryw raddau gan y gyfradd is a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth.
- Costau ychwanegol a/neu opsiynau cyfyngedig i bobl sydd angen gofalwr, cyfarpar arbenigol neu gi tywys.

5.75 Gan gydnabod bod yna ddiffyg data a thystiolaeth yn gyffredinol, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â chynrychiolwyr Anabledd Cymru, Autistic UK a Triniaeth Deg i Fenywod Cymru wrth lunio Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

5.76 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol.

5.77 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer rhoi ad-daliadau i bobl anabl a'u gofalwyr. Yn y pen draw, mae a wnelo'r opsiwn a gynhwysir yn y Ddeddf â rhoi ad-daliadau i bobl anabl sy'n cael budd-dal anabledd cymwys ac sydd wedi talu ardoll ymwelwyr tra'n aros mewn llety ymwelwyr yng nghwmni unigolyn sy'n darparu gofal. Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod y canlynol: 'Er nad yw'r opsiwn hwn yn dileu'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol yn llwyr, ystyriwyd ei fod yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu anuniongyrchol ond hefyd yn sicrhau cywirdeb ac effeithlonrwydd y system dreth.'

5.78 O ran gweithgarwch twristiaeth, mae 31% o'r holl dripiau i Gymru yn cynnwys pobl sy'n anabl neu sydd ag amhariad. Ymhellach, cafodd 20% o'r holl dripiau dros nos i Gymru, rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024, eu gwneud gan bobl a oedd yn gofalu am unigolion â chyflyrau meddygol.[28] Mae rhai o'r tripiau hyn yn

[28] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024: Ar gael yma

ymwneud ag aros gyda chyfeillion a theulu yn eu cartrefi yn hytrach nag aros mewn llety ymwelwyr. Nid yw hyn yn golygu bod yr ymwelwyr hyn wedi mynd gyda'r unigolyn y gofalant amdano; yn hytrach, mae'n arwydd eu bod yn ysgwyddo'r math hwn o gyfrifoldeb gofalu. Ar hyn o bryd, nid yw'r data cyfatebol ar gael ar gyfer Ynys Môn.

### *Cyflogwyr a chyflogaeth*

5.79 Ymhellach, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu ac yn rheoli'r ardoll. Yn achos darparwyr llety, rhagwelir na fydd y modd y gweithredir yr ardoll o ddydd i ddydd yn cael fawr o effaith ar berchnogion busnesau sydd ag amhariad ar y golwg a/neu'r clyw gan fod modd iddynt ryngweithio ag Awdurdod Cyllid Cymru mewn nifer o wahanol ffyrdd – system ddigidol ar gyfer ffeilio a dychwelyd ffurflenni i Awdurdod Cyllid Cymru ochr yn ochr â gwasanaeth ffôn a phapur pan fo angen.

5.80 Ymhellach, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod gweithwyr anabl yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi sy'n tueddu i fod yn llai diogel o gymharu â gweithwyr nad ydynt yn anabl. O blith y gweithwyr sy'n gweithio yn sector twristiaeth Cymru, mae 18% yn anabl – sef cyfran debyg i'r cyfartaledd ar draws pob diwydiant.[29] Ar hyn o bryd, nid yw'r data cyfatebol ar gyfer Ynys Môn ar gael.

### *Anabled yn gyffredinol*

5.81 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol, ond nodwyd bod yr opsiwn (sef peidio â chynnwys esemptiad) yn ymateb cymesur.

5.82 Ar ôl cynnwys mesurau lliniaru (yn cynnwys rhoi ad-daliadau i unigolion sy'n cael budd-dal anabledd), ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

5.83 Gellir cymryd camau rhagweithiol i sicrhau y bydd modd dosbarthu manteision twristiaeth yn decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth, yn cynnwys y modd y caiff yr arian ei wario – gallai hyn gynnwys mesurau i sicrhau bod safleoedd twristiaeth yn fwy hygyrch i bobl anabl.

### Beichiogrwydd a mamolaeth

5.84 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth.

5.85 Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu ystadegau'n ymwneud â faint o bobl sy'n feichiog. O'r herwydd, ystyriwyd data genedigaethau byw yn y dadansoddiad sylfaenol hwn.[30] Mae'r data diweddaraf sydd ar gael, sy'n deillio o 2024, yn dangos bod y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol[31] yn uwch yn Ynys Môn (48.6) o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (45.7).

---

[29] Llywodraeth Cymru: Ystadegau busnes a marchnad lafur sector twristiaeth Cymru: Ar gael yma
[30] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024. Genedigaethau Byw.
[31] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021. Cyfrifiad.

5.86 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Beichiogrwydd a Mamolaeth. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

### Crynodeb o’r effaith ar grwpiau sy’n rhannu nodwedd warchodedig

5.87 Mae Tabl 5.8 yn crynhoi canfyddiadau’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn erbyn nodweddion gwarchodedig.

Tabl 5.8 Crynodeb o’r effeithiau

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru posibl pan fo angen |
|---|---|---|
| Oedran | Daw Llywodraeth Cymru i’r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Oedran ar ôl ystyried y mesurau lliniaru (yn cynnwys yr esemptiad i bobl ifanc dan 18 oed ar gyfer llety cyfradd is). Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy’n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o’r Effaith ar Gydraddoldeb.<br><br>Ceir effeithiau posibl yn ymwneud â chyfran fwy o ymwelwyr hŷn yn Ynys Môn, a gweithlu ifanc; ond yn ôl pob tebyg, bydd effeithiau’r ardoll yn fach – a byddant yn cael eu gwrthbwyso, i ryw raddau, gan wariant yr ardoll. | Caiff pobl dan 18 oed eu heithrio rhag talu ardoll ar gyfer arosiadau cyfradd is.<br><br>Defnydd o’r ardoll yn y dyfodol |
| Anabledd | Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o’r Effaith ar Gydraddoldeb, pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy’n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o’u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny’n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol, ond nodwyd bod yr opsiwn (sef peidio â chynnwys esemptiad) yn ymateb cymesur.<br><br>Ar ôl cynnwys mesurau lliniaru (yn cynnwys rhoi ad-daliadau i unigolion sy’n cael budd-dal anabledd), ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy’n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid | System ad-dalu ar gyfer pobl sy’n cael budd-dal anabledd ac sy’n cael cwmni unigolyn sy’n darparu gofal, cymorth neu help.<br><br>Defnydd o’r ardoll yn y dyfodol |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru posibl pan fo angen |
|---|---|---|
| | canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | |
| Ailbennu rhywedd | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Ailbennu Rhywedd. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | Caiff arosiadau mewn ysbytai preifat |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Phriodas a Phartneriaeth Sifil.<br><br>Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | Ni nodwyd effeithiau posibl |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Beichiogrwydd a Mamolaeth. Er y ceir cyfradd ffrwythlondeb uwch yn Ynys Môn, ni ragwelir y bydd hyn yn newid y canfyddiad 'dim effaith'. | Ni nodwyd effeithiau posibl |
| Hil | Mae ymwelwyr ag Ynys Môn a gweithwyr yn y sector dosbarthu, gwestai a bwytai yn fwy tebygol o fod yn wyn, na'r cyfartaledd ledled Cymru.<br><br>Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Hil. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid | Caiff safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu hesemptio rhag yr ardoll.<br><br>Mae eithriadau / ad-daliadau ar gael ar gyfer grwpiau agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a phobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru posibl pan fo angen |
|---|---|---|
| | canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.<br><br>Mae ymwelwyr Ynys Môn a chyflogeion yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai yn fwy tebygol o fod yn wyn o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. | Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Crefydd a chred | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chrefydd a Chred. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer y bobl hynny y gallai eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol.<br><br>Mae llety am ddim yn esempt rhag yr ardoll, a chodir ardoll is ar lety cyfradd is.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
- **Rhagdybiaethau trosglwyddo:** Fel y nodir uchod, mae'r adroddiad yn asesu ystodau'r effaith debygol trwy asesu'r effaith pe bai'r ardoll yn cael ei throsglwyddo i ymwelwyr neu'n cael ei hamsugno gan fusnesau – nid yw'n asesu i ba raddau y mae'r elfennau hyn yn fwy neu'n llai tebygol o ddigwydd.
- **Costau yng Nghymru:** Dim ond costau yng Nghymru a gynhwysir yn y dadansoddiad; felly, yn ôl pob tebyg, caiff cyfanswm cost y trip ei danamcanu, yn enwedig ar gyfer tripiau rhyngwladol. O'r herwydd, bydd hyn yn arwain at oramcanu'r gostyngiad mewn tripiau rhyngwladol ar ôl rhoi'r ardoll ar waith (ac o'r herwydd, cyflwynir y senario waethaf).
- **Cyfyngiadau sy'n perthyn i'r flwyddyn sylfaen:** Oherwydd cyfyngiadau o ran data, modelir yr ardoll ar ddata twristiaeth sy'n deillio o 2019, ac addasir y cyfraddau er mwyn ystyried chwyddiant.
- **Chwyddiant yn y dyfodol:** Ni chynhwysir newidiadau a ddaw i ran y sector na chwyddiant yn y dyfodol – yr hyn a geir, i bob pwrpas, yw cipolwg mewn amser mewn blwyddyn arbennig.
- **Costau gweinyddol:** Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys unrhyw gostau ffrithiannol neu weinyddol a allai ddeillio o unrhyw ardoll newydd.

## Dadansoddiad diwygiedig o effeithiau posibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr, Llywodraeth Cymru, 2025

3.20 Yn yr adroddiad hwn, eir ati i ddiweddaru gwaith blaenorol ar gyfer dwy set o gyfraddau. Cafodd un o'r cyfraddau hyn (sef cyfradd safonol o £1.30 / cyfradd is o £0.75) ei defnyddio'n

ddiweddarach yn y Ddeddf. Ni chynhwysywd yn yr adroddiad blant na phobl ifanc sy'n aros mewn llety Cyfradd Is, gan eu bod wedi'u heithrio rhag talu'r ardoll.

3.21 Defnyddiodd yr adroddiad fethodoleg a oedd yn debyg i'r fethodoleg wreiddiol, ond nodir y canlynol: 'Mae cyfyngiadau ar amser a mynediad i saernïaeth data (data architectures) yn golygu nad oes modd cymharu ac ail weithio asesiad o effaith 2024 yn llawn nac yn llwyr.'

3.22 Yn Nhabl 3.1, nodir canlyniadau'r dadansoddiad ar lefel Cymru.

Tabl 3.1: Crynodeb o'r effeithiau tebygol yn adroddiad Llywodraeth Cymru

| | | | Ystod debygol |
|---|---|---|---|
| Cyflogaeth | Trosglwyddo'r ardoll i ymwelwyr | Swyddi cyfwerth ag amser llawn | -400 i 100 |
| | Busnesau'n amsugno'r ardoll | Swyddi cyfwerth ag amser llawn | 360 |
| Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol (£m) | Trosglwyddo'r ardoll i ymwelwyr | | -£7.5m i +£11.1m |
| | Busnesau'n amsugno'r ardoll | | -£32.3m |

## Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang, Prifysgol Bangor, 2024

3.23 Cynhaliodd Prifysgol Bangor adolygiad o dystiolaeth ryngwladol yn ymwneud ag effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardollau ymwelwyr mewn gwahanol gyrchfannau byd-eang. Yna, cyflwynwyd argymhellion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithredu'r ardoll.

3.24 Yn yr adroddiad, nodir pum astudiaeth achos / ardal sydd wedi rhoi ardollau ymwelwyr ar waith – sef ardaloedd sy'n debyg i Gymru o ran eu dibyniaeth ar y sector twristiaeth a/neu o ran eu cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a/neu amgylcheddol. Golyga hyn fod yr astudiaethau achos yn cynnwys mannau a oedd, fel Cymru, yn ddibynnol ar eu diwydiant twristiaeth.

3.25 Canolbwyntiodd yr adroddiad ar weithredu'r ardoll – yn cynnwys y pethau y gellir gwario'r ardoll arnynt, yr awdurdod penderfynu a'r broses benderfynu, atebolrwydd lleol, cwmpas y prosiect a'r gweithgareddau a ariennir, effaith y prosiectau a ariennir (nodir diffyg tystiolaeth), a'r angen am dryloywder, atebolrwydd, monitro a gwerthuso.

3.26 Ni chanolbwyntiwyd ar yr effaith a gaiff yr ardoll ar y sector twristiaeth yn benodol; er, nodir rhai pwyntiau hollbwysig sy'n llywio ein hadroddiad:

- Tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael mewn perthynas ag effeithiau trethi twristiaeth: '**Prin yw'r asesiadau cynhwysfawr o effeithiau trethi twristiaeth**, er gwaethaf y cymhellion amlwg dros eu rhoi ar waith'.
- Yn gyffredinol, gwelir **twf parhaus o un flwyddyn i'r llall mewn twristiaeth yn y lleoliadau sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr** (er, ni allwn wybod beth fyddai'r sefyllfa wrthffeithiol pe na bai'r ardoll wedi'i chyflwyno).
- **Mae rhai lleoliadau'n dewis amrywio'r dreth yn ystod gwahanol dymhorau** – er enghraifft, mae Ynysoedd Baleares wedi rhoi dwy ardoll ar wahân ar waith, sef €0.25 – €1 y pen, y noson yn ystod y tymor tawelaf (Tachwedd – Ebrill) a €1 – €4 y pen, y noson yn ystod y tymor prysuraf (Mai – Hydref).[3] **Ond mae lleoliadau eraill wedi penderfynu peidio â gwneud hyn:** ym Mareo a San Martin, lle mae nifer yr ymwelwyr yn amrywio'n fawr o dymor i dymor (mae niferoedd yr ymwelwyr yn ystod y pedwar mis prysuraf fwy na deg gwaith yn fwy na niferoedd yr ymwelwyr yn ystod y pedwar mis tawelaf), codir ardoll ar gyfradd safonol drwy gydol y flwyddyn (sef €1.50 – €3.50 y pen, y noson).
- Mae rhai lleoliadau (Catalonia / Barcelona ac Ynysoedd Baleares) yn **amrywio'r gyfradd ar sail y math o lety / ansawdd y llety** o dan sylw (yn cynnwys gwahanol gyfraddau ar gyfer gwestai â safon 'seren' wahanol). Ond mewn lleoliadau eraill, **ni cheir rhyw lawer o wahaniaethu**: ar y cychwyn, cyflwynodd Gwlad yr Iâ gyfradd safonol, ac yn ddiweddarach holltwyd y gyfradd honno'n dri chategori cyffredinol – sef gwersylla, gwestai a llongau mordeithio.

## Y casgliadau a'r goblygiadau ar gyfer ein hastudiaeth

3.27 Mae'r gwaith a wnaed i ategu Llywodraeth Cymru wedi dangos bod yna fylchau yn y sylfaen dystiolaeth ar gyfer deall effaith economaidd yr Ardoll Ymwelwyr. Oherwydd hyn, mae amodau'n perthyn i'r astudiaeth o'r effaith economaidd ar lefel Cymru, a chynhwysir ystodau eang ar gyfer yr effaith bosibl.

3.28 Byddai'r un amodau a'r un problemau'n berthnasol i ddefnyddio dull Llywodraeth Cymru ar lefel fwy lleol – a byddai rhai o'r problemau'n fwy acíwt o gofio bod ardal yr astudiaeth yn llai.

3.29 Nodir y manylion uchod, ond mae'r materion hollbwysig yn cynnwys y canlynol:

- **Prin yw'r dystiolaeth berthnasol ar gyfer Elastigedd Pris y Galw** – mae dau arfarniad economaidd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r PED a nodir yn Astudiaeth Alma, sef astudiaeth genedlaethol ar gyfer twristiaeth ryngwladol i raddau helaeth. Ni cheir unrhyw astudiaeth sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, a dim ond dwy astudiaeth sy'n ystyried llety yn benodol (yn hytrach na thwristiaeth yn gyffredinol). Mae'r dasg o ddefnyddio'r elastigeddau hyn yn fwy acíwt fyth pan fo ardal yr astudiaeth yn llai, oherwydd nid yw'n glir a yw elastigeddau cenedlaethol yn gweithredu yn yr un modd ar lefel is-ranbarthol.
- Nid yw'r dadansoddiad yn **mynegi barn ynghylch i ba raddau y gellid trosglwyddo'r ardoll** – modelir y sefyllfa ar sail trosglwyddo 0% a 100% o'r ardoll i ddefnyddwyr.
- Ymhellach, nid ystyrir **newidiadau yn y cyflenwad** – h.y. nid ystyrir y gallai rhai busnesau adael y farchnad neu gael eu datgymell rhag ymuno â'r farchnad. Yn y senario pan

[3] Llywodraeth Cymru, 2024. Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang yma

drosglwyddir yr holl ardoll i fusnesau, rhagdybir na fydd swyddi'n cael eu colli (ac mai'r unig beth a welir fydd gostyngiad mewn cyflogau).

- **Ychydig iawn o dystiolaeth a geir mewn perthynas â chwestiynau ymchwil mwy cynnil ac amwys**, yn cynnwys (i) mewnwelediad i'r hyn sy'n ysgogi ymddygiad ymwelwyr, (ii) effaith ardollau ymwelwyr neu elfennau o'r fath ar y galw ym maes twristiaeth, (iii) y modd y gall yr elastigeddau a archwiliwyd amrywio gan ddibynnu ar nodweddion twristiaid (e.e. ar sail nodweddion gwarchodedig). **Golyga hyn fod y dadansoddiad yn gwneud rhagdybiaethau llinol yn bennaf ar sail cyfartaleddau**. O'r herwydd, mae'n anodd cymhwyso nodweddion lleol at yr astudiaeth (ac felly, mae'n anodd addasu'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr asesiad cenedlaethol ar gyfer asesiad mwy lleol ei natur).
- **Ni chynhwysir costau y tu allan 'r Sir**. Mae hyn yn debygol o danamcanu cyfanswm cost y trip, yn enwedig ar gyfer tripiau rhyngwladol. O'r herwydd, bydd y lleihad mewn tripiau rhyngwladol yn cael ei oramcanu ar ôl rhoi'r ardoll ar waith (ac o'r herwydd, cyflwynir y senario waethaf).
- Nid yw'r dadansoddiad yn ystyried pa wariant ymwelwyr a 'gollir' o ganlyniad i wario arian ar yr ardoll – er enghraifft, pobl yn mynd ar dripiau dydd yn hytrach nag aros dros nos, trigolion Cymru yn gwario arian ar bethau eraill yn hytrach na gwario arian ar fynd ar wyliau yng Nghymru. Drachefn, mae'n debygol ein bod yn sôn am y senario waethaf o ran effaith yr ardoll ar economi Cymru. Mae'n debygol y bydd hyn yn llai perthnasol ar lefel Ynys Môn o gymharu â Chymru gyfan, oherwydd go brin bod y bobl sy'n ymweld ag Ynys Môn (ac a gânt eu datgymell gan yr ardoll) yn byw yn Ynys Môn (ond gallai rhywun sy'n byw yng Nghymru fynd ar wyliau yng Nghymru – er enghraifft, gallai rhywun sy'n byw yng Nghaerdydd wario arian yng Nghaerdydd yn hytrach na mynd ar wyliau i Ynys Môn).

# 4 Adolygiad pellach o'r llenyddiaeth

4.1 Aethom ati i gynnal adolygiad pellach o'r llenyddiaeth er mwyn deall i ba raddau y ceir tystiolaeth a fyddai'n

- Ei gwneud yn bosibl i addasu'r 'dull Cymru gyfan' ar gyfer asesiad lleol
- Llenwi'r bylchau tystiolaeth a nodir uchod

4.2 Cyfyngedig oedd y dystiolaeth ychwanegol ynglŷn â'r hyn a ddefnyddiwyd yn y gwaith i ategu Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r Ddeddf.

4.3 Cafwyd enghreifftiau eraill lle gwelwyd twf parhaus mewn twristiaeth o un flwyddyn i'r llall mewn lleoliadau lle cyflwynwyd ardoll ymwelwyr (er, fel y nodir uchod, ni allwn wybod beth fyddai'r sefyllfa wrthffeithiol pe na bai'r ardoll wedi'i chyflwyno).

4.4 Dyma'r cwestiynau eraill yr anelodd yr adolygiad llenyddiaeth at eu hateb:

- I ba raddau y caiff ardollau ymwelwyr eu trosglwyddo i ymwelwyr?
- Sut y mae effaith ardollau ymwelwyr yn newid o dymor i dymor neu ar sail poblogrwydd y gyrchfan?
- Sut y mae cost y llety / trip yn newid effaith yr ardoll? Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth ychwanegol i ateb y cwestiwn hwn.
- A yw ymwelwyr yn addasu gwariant ehangach eu trip os ydynt yn gorfod dwyn cost yr ardoll?

### I ba raddau y caiff ardollau ymwelwyr eu trosglwyddo i ymwelwyr?

4.5 Bydd y graddau y caiff ardollau ymwelwyr eu trosglwyddo i ddefnyddwyr yn pennu ai'r defnyddwyr ynteu'r darparwyr llety a fydd yn dwyn cost yr ardoll. Fel y nodir uchod, nid yw arfarniad economaidd Llywodraeth Cymru yn mynegi barn ynglŷn â hyn; yn hytrach, modelir y sefyllfa ar sail 0% a 100%.

4.6 Mae'r llenyddiaeth yn cyflwyno tystiolaeth gymysg ynglŷn â chyfraddau trosglwyddo ardollau ymwelwyr neu gyfundrefnau treth eraill. (Ystyr 'cyfradd drosglwyddo' yw'r graddau y bydd busnesau'n trosglwyddo newidiadau yn y dreth i ddefnyddwyr, ar ffurf prisiau).

4.7 Edrychwyd ar wahanol gyfundrefnau treth er mwyn canfod y cyfraddau trosglwyddo:

- Mewn adolygiad o drethi llety yn ninasoedd yr Unol Daleithiau, gwelwyd bod trethi llety yn annhebygol o gael eu trosglwyddo'n llwyr i'r ymwelwyr – telir oddeutu 86% o'r dreth gan ymwelwyr ac amsugnir yr 14% sy'n weddill gan ddarparwyr llety ar ffurf cyfraddau llety is neu gyfraddau deiliadaeth is.[4]

---

[4] Hudson, S., Meng, F., So, K. K. F., Smith, S., Li, J., a Qi, R. (2021). The effect of lodging tax increases on US destinations. *Tourism Economics*, *27*(1), 205-219. Ar gael yma

- Darganfu astudiaeth y Comisiwn Ewropeaidd fod trethi'n cael eu trosglwyddo i raddau helaeth yn y tymor hir, ond cafwyd enghraifft hefyd o sefyllfaoedd pan na chânt eu trosglwyddo. Er enghraifft, mewn astudiaeth achos yn ymwneud â Disneyland Paris, dywedodd y cwmni ei fod yn annhebygol o drosglwyddo cynnydd mewn TAW (a ddaeth i rym yn 2014) i'r ymwelwyr, a hynny gan fod yr ymwelwyr yn sensitif iawn i brisiau. O'r herwydd, amsugnwyd cost y cynnydd gan Disneyland er mwyn lliniaru'r effaith ar niferoedd a gwariant ymwelwyr.[5]
- Mewn astudiaeth yn ymwneud â throsglwyddo trethi teithwyr awyr i brisiau tocynnau hedfan ledled Ewrop, amcangyfrifwyd cyfraddau trosglwyddo rhwng 20% a 56%.[6] Mae'r un astudiaeth yn nodi bod cyfran y defnyddwyr o'r baich treth a ddeilliodd o ddiwygio TAW yn Ffrainc yn cyfateb i 57%-77%.

4.8 Felly, nid yw'r adolygiad llenyddiaeth yn cynnig tystiolaeth glir ynglŷn â gwahanol lefelau trosglwyddo y gellid eu defnyddio. O'r herwydd, glynwn at y dull a ddefnyddiwyd yn Asesiad Llywodraeth Cymru – sef defnyddio ystodau.

### Sut y mae effaith ardollau ymwelwyr yn newid o dymor i dymor neu ar sail poblogrwydd y gyrchfan?

4.9 Mae nifer cyfyngedig o astudiaethau wedi mesur Elastigeddau Pris y Galw ar gyfer gwahanol dymhorau, ond mae nifer o astudiaethau'n nodi bod y galw'n llai elastig yn ystod y tymhorau prysuraf o gymharu â'r tymhorau tawelaf.[7]

- Yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chydbwyso'r refeniw a'r galw yn y diwydiant gwestai yn Dubai[8], darganfuwyd bod elastigedd y galw yn uwch o lawer yn ystod y tymhorau tawelaf (ac yn is yn ystod y tymor prysuraf). Mae'n debyg bod hyn yn cael ei sbarduno i raddau helaeth gan deithio rhyngwladol – darganfu'r adroddiad nad yw gwestai lleol yn wynebu amrywiadau tymhorol mawr i'r un graddau â gwestai rhyngwladol.
- Yn yr adroddiad sy'n ymwneud ag elastigeddau pris ar gyfer gwasanaethau llety ym Mhrag, dangoswyd bod ymwelwyr yn llai elastig yn ystod y tymhorau prysuraf o gymharu â gweddill y flwyddyn, gyda ffigurau PED o -0.22 i 0.78 yn ystod y tymhorau prysuraf o gymharu â ffigurau PED o 0.10 i -0.54 trwy weddill y flwyddyn. Mae'r ffigurau PED positif yn ystod y tymor prysuraf yn awgrymu nad yw'r gydberthynas ddisgwyliedig rhwng y pris a'r galw i'w gweld bob amser.[9]

Darganfu astudiaeth y Comisiwn Ewropeaidd fod yna elastigedd uwch yn y galw mewn cyrchfannau lle ceir dewisiadau amnewidiadwy tebyg. Dangoswyd bod gwledydd Ewropeaidd sy'n agos at ei gilydd yn dal i arddangos gwahaniaethau mewn ffigurau PED oherwydd natur dymhorol yr arlwy a gynigir i dwristiaid.

---

[5] Y Comisiwn Ewropeaidd, 2017. The Impact of Taxes on the Competitiveness of European Tourism yma
[6] Wozny, F. (2024). *Tax incidence in heterogeneous markets: The pass-through of air passenger taxes on airfares* (Rhif 16783). IZA Discussion Papers. Ar gael yma
[7] Baždar Gašljević, T., Maradin, D., a Cerović, L. (2023). Price Elasticity of Demand For Hotel Services On The Business Example Of Two Hotels In The Republic Of Croatia. *Journal of accounting and management*, *13*(1), 1-14. Ar gael yma
[8] Alrawabdeh, W. (2021). Seasonal balancing of revenue and demand in hotel industry: the case of Dubai City. *Journal of Revenue and Pricing Management*, *21*(1), 36. Ar gael yma
[9] Petříček, M., a Chalupa, Š. (2020). PRICE ELASTICITY OF DEMAND FOR ACCOMODATION SERVICES–EMPIRICAL APPLICATION IN PRAGUE. *Ad Alta: Journal of Interdisciplinary Research*, *10*(1). Ar gael yma

4.10 Ar wahân, dangosodd yr astudiaeth o'r cynnydd mewn trethi llety mewn cyrchfannau yn yr Unol Daleithiau fod oddeutu 40% o deithwyr wedi newid eu cynlluniau oherwydd trethi teithio uchel trwy wario llai, aros yn rhywle rhatach ac ymweld yn ystod tymor tawelach.[10]

4.11 Er bod yr adolygiad llenyddiaeth wedi tynnu sylw at dystiolaeth bellach yn ymwneud ag amrywiadau tymhorol, nid yw'r dystiolaeth hon yn ddigonol i'n galluogi i bennu sut y byddai Ynys Môn yn gwahaniaethu oddi wrth y cyfartaledd ar gyfer Cymru.

### A yw ymwelwyr yn addasu gwariant ehangach eu trip os ydynt yn gorfod dwyn cost yr ardoll?

4.12 Er bod yr astudiaeth o'r cynnydd mewn trethi llety mewn cyrchfannau yn yr Unol Daleithiau (y sonnir amdani uchod)[11] yn dangos bod ymwelwyr wedi ymateb i'r ardoll trwy wario llai o arian, ni fesurwyd i ba raddau y mae ymwelwyr yn gwario llai. Ac yn gyffredinol, nid yw'r llenyddiaeth yn nodi'n glir sut y byddai ymwelwyr yn addasu gwariant ehangach eu trip pe baent yn gorfod dwyn cost yr ardoll.

[10] Hudson, S., Meng, F., So, K. K. F., Smith, S., Li, J., & Qi, R. (2021). The effect of lodging tax increases on US destinations. *Tourism Economics*, *27*(1), 205-219. Ar gael yma
[11] Ibid

# 5 Asesiad amodol o'r effaith economaidd ar lefel Ynys Môn

5.1 Fel y nodir yn yr adrannau blaenorol, ni cheir tystiolaeth ddigonol i'n galluogi i fodelu union effaith yr ardoll mewn modd manwl gywir. Ychwaith, ni cheir tystiolaeth ddigonol ynglŷn â'r modd y byddai gwahanol senarios yn effeithio ar faint yr effaith (er enghraifft, a fyddai awdurdodau lleol eraill yn codi'r ardoll hefyd).

5.2 O'r herwydd, rydym wedi rhoi dull deuol ar waith er mwyn cyflwyno ystodau (gan ddilyn dull Llywodraeth Cymru fwy neu lai) a gwirio synnwyr amrediad tebygol yr effaith:

- Atgynhyrchiad amodol o ddull Llywodraeth Cymru. Gweler Adran 5.
- Croeswirio Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan ystyried pwysigrwydd cymharol twristiaeth i Ynys Môn. Gweler Adran 6.

## Atgynhyrchiad amodol o ddull Llywodraeth Cymru

5.3 Rydym wedi defnyddio dull tebyg i'r un a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru 2025 i amcangyfrif yr effeithiau ar lefel Ynys Môn. Fel yn achos dull Llywodraeth Cymru, cynhwysir 'ystodau' gyda dwy senario – sef un senario pan fyddai 0% o'r ardoll yn cael ei hamsugno gan fusnesau, a senario arall pan fyddai 100% o'r ardoll yn cael ei hamsugno gan fusnesau.

5.4 Mae amodau'n perthyn i'r dull hwn oherwydd, fel y nodir yn Adran 3, ceir amodau yn adroddiad Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn berthnasol yn y fan hon, ac mewn ambell achos maent yn amlycach fyth mewn asesiadau a gynhelir ar lefel leol.

5.5 Dyma'r amodau hollbwysig sy'n berthnasol i'r asesiad lleol:

- Ar lefel genedlaethol, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei gadw yng Nghymru. Nid yw hyn yn wir yn achos ardaloedd llai – er enghraifft, efallai y bydd rhywun sy'n ymweld ag Ynys Môn yn gwario rhywfaint o arian yng Ngwynedd (a *vice versa*). At ddibenion yr asesiad hwn, rhagdybiwn y bydd yr holl wariant yn cael ei 'golli' o Ynys Môn, felly dyma'r senario waethaf o ran yr effaith ar yr economi ymwelwyr.
- Yn yr un modd, efallai y bydd cryn dipyn o arian yr ardoll yn cael ei ddadleoli, oherwydd efallai na fydd yr holl fusnesau a fydd yn elwa ar gontractau trwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yn Ynys Môn.
- Mae gwahanol ffynonellau data ar gyfer maint presennol economi ymwelwyr Ynys Môn – mae hyn wedi'i nodi'n fanylach isod.
- Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn rhagdybio y bydd newid ym mhris twristiaeth (h.y. yr ardoll) yn arwain at ostwng y galw am dwristiaeth. Nid ystyrir newidiadau ym mhatrymau gwario ymwelwyr yn ystod y trip (er enghraifft, lleihau costau eraill y trip yn unol â chost yr ardoll). Mae'n debyg mai dyma'r senario waethaf o ran effaith yr ardoll ar economi Cymru (gan ragdybio y bydd y ffigurau PED yn cipio'r holl newidiadau yn

ymddygiad yr ymwelwyr). Defnyddir yr un dull yn yr asesiad lleol – unwaith eto, dyma'r senario waethaf yn ôl pob tebyg.

- Ceir cryn ansicrwydd ynglŷn ag elastigeddau'r galw – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac mae'n fwy acíwt fyth pan fo ardal yr astudiaeth yn llai. Nid oes tystiolaeth amgen ar gyfer asesiad mwy cadarn ac felly rydym wedi defnyddio'r ystod o elastigedd y galw a ddefnyddir yn asesiad Llywodraeth Cymru.
- Yn yr asesiad cenedlaethol, rhagdybir (o reidrwydd) y bydd yr ardoll yn cael ei chodi ledled Cymru. Byddai gwahanol effeithiau i'w cael pe bai un awdurdod lleol yn codi'r taliad ond pe na bai'r awdurdodau cyfagos yn codi'r taliad, o gymharu â sefyllfa pan fyddai'r holl awdurdodau cyfagos yn codi'r taliad. Nid oes modd asesu'n fanwl gywir beth fydd effaith y gwahanol gyfuniadau hyn mewn perthynas â pha awdurdodau a fydd yn codi'r ardoll, ond ystyrir maint yr effaith.
- Yn y senario lle trosglwyddir yr ardoll i fusnesau, nid ystyrir newidiadau'n ymwneud â'r cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.
- Ymhellach, nid ystyrir unrhyw ostyngiad mewn cyflogaeth a rhagdybir y deuir o hyd i'r arbedion yng 'ngwerth ychwanegol' y busnesau. Mewn gwirionedd, byddai'n arwain at ostyngiad yn nifer y swyddi hefyd, yn ôl pob tebyg.
- Nid yw'r data sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gwersylla mewn meysydd gwersylla (sy'n talu'r gyfradd is) a'r rhai sy'n gwersylla mewn carafanau / faniau gwersylla neu lety glampio (sy'n talu'r gyfradd uwch). At ddiben yr asesiad hwn, rydym wedi tybio bod pob ymwelydd domestig â meysydd gwersylla yn talu'r gyfradd is – mae hyn yn unol â'r dull a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn yr asesiad economaidd a'r cyngor ar ddata i'w ddefnyddio mewn asesiadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Ar y naill law, bydd y dull yn tanamcangyfrif yr effaith ar ymwelwyr a cholli cyflogaeth o ganlyniad i wariant is gan ymwelwyr. Ar y llaw arall, bydd hyn yn cael ei wrthbwyso trwy danamcangyfrif hefyd effaith y cynnydd mewn swyddi o ganlyniad i wario'r ardoll a'r refeniw ardoll a gesglir. Bydd hefyd yn cael ei wrthbwyso i ryw raddau gan y dybiaeth (sydd unwaith eto yn unol â dull Llywodraeth Cymru) y bydd pob ymwelydd rhyngwladol yn talu'r gyfradd uwch.

5.6 Fel yn achos dadansoddiad Llywodraeth Cymru, nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys chwyddiant (ystyrir yr effaith flynyddol pe bai'r ardoll ar waith yn 2024 – sef y flwyddyn ddiwethaf lle ceir data perthnasol). Ychwaith, nid yw'n cynnwys costau gweinyddol ar fusnesau, ac nid yw'n cynnwys costau sydd y tu allan i Gymru (golyga hyn fod y dadansoddiad yn goramcanu rhywfaint ar effaith yr ardoll, yn ôl pob tebyg, yn enwedig ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol – a fydd yn talu costau uwch y tu allan i Gymru).

5.7 Oherwydd y diffyg tystiolaeth, ceir rhagdybiaethau (megis elastigeddau'r galw) lle nad ydym wedi mynd ati i lunio rhagdybiaethau sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn; yn hytrach, nodir a yw'r amcangyfrifon yn debygol o fod wedi tanamcanu neu oramcanu'r effeithiau, a darperir profion sensitifrwydd fel y bo'n briodol.

5.8 Codir TAW ar yr Ardoll Ymwelwyr.

## Amcangyfrif nifer presennol yr economi ymwelwyr

5.9 Er mwyn amcangyfrif effaith yr ardoll ymwelwyr, mae angen i ni amcangyfrif maint yr economi ymwelwyr yn gyntaf (nifer yr ymwelwyr, a'r nosweithiau a arosodd, a'r gwariant y maent yn ei gefnogi).

5.10 Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn defnyddio Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) a'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ar gyfer 2022 i 2024 – dyma'r canllawiau sydd hefyd wedi'u darparu i awdurdodau lleol.

5.11 Mae hyn yn arwain at 0.34m o ymweliadau ar gyfartaledd yn aros 1.4m o nosweithiau gwely a chefnogi £112m o wariant. Sylwch mai dyma bob taith gan gynnwys y rhai sy'n aros mewn llety nad yw'n cael ei gynnwys yn yr ardoll (er enghraifft aros gyda ffrindiau a theulu).

5.12 Dylid nodi bod y set ddata hon wedi gweld gostyngiad mewn nosweithiau gwely a gwariant o'i gymharu â'r cyfartaledd cyn Covid (2017-2019) a'r data a ddefnyddiwyd yn Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru[12]. Gall y gostyngiad hwn fod yn rhannol oherwydd newid mewn methodoleg yn y casglu data ond gall hefyd fod o ganlyniad i ostyngiad gwirioneddol mewn twristiaeth yn Ynys Môn.

5.13 Fodd bynnag, nid yw defnyddio cyfartaledd 2022-24 yn cyfrif am y twf mwy diweddar (neu'n wir yn y dyfodol) mewn nosweithiau gwely a gwariant. Felly, mae prawf sensitifrwydd wedi'i gynnwys gyda nosweithiau gwely a gwariant 2024.

5.14 Mae prawf sensitifrwydd hefyd wedi'i gynnwys i gynnwys data STEAM sydd â niferoedd ymwelwyr a data gwariant llawer uwch – mae hyn yn debygol o oramcangyfrif effaith yr ardoll ond fe'i cynhwysir er mwyn cyflawni, ac oherwydd nodir y gallai natur wledig Ynys Môn olygu y gall y GTBS a'r IPS danamcangyfrif niferoedd ymwelwyr.

## Trosglwyddo'r ardoll yn gyfan gwbl i dwristiaid

5.15 Yn yr adran hon, rhagdybir y bydd yr holl ardoll ymwelwyr yn cael ei throsglwyddo i ddefnyddwyr. Yn gyntaf, ystyrir yr effaith a ddaw yn sgil colli gwariant ymwelwyr, ac yna ystyrir i ba raddau y byddai gwariant yr ardoll ei hun yn gwrthbwyso'r golled.

### Effaith y golled bosibl o ran gwariant ymwelwyr

5.16 Yn y prif ddadansoddiad rydym yn defnyddio'r data blynyddol cyfartalog o'r GTBS a'r IPS ar gyfer 2022 i 2024

5.17 Yn ôl Arolwg Twristiaeth Prydai Fawr, mae 0.28m o ymwelwyr dros nos domestig yn ymweld ag Ynys Môn bob blwyddyn. Ar gyfartaledd, maent yn treulio 4 noson ac yn gwario £305 y pen ar bob trip.

---

[12] *Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Ardoll Ymwelwyr yn ôl disgresiwn ar gyfer awdurdodau lleol Compensiwn ffynonellau data ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr 2022*

Tabl 5.1: Ymweliadau dros nos domestig ag Ynys Môn

| | Cyfanswm (Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr) (cyfartaledd dros 2022-2024) |
|---|---|
| Cyfanswm yr ymweliadau ag Ynys Môn o du ymwelwyr dros nos domestig | 0.28m |
| Cyfanswm nosweithiau gwely domestig ar gyfer Ynys Môn | 1.142m |
| Hyd cyfartalog y trip (nosweithiau) | 4.0 |
| Cyfanswm gwariant dros nos domestig ar gyfer Ynys Môn (yn cynnwys TAW) | £86.3m |
| Cost fesul trip (yn cynnwys TAW) | £305 |
| Cost fesul noson (yn cynnwys TAW) | £76 |

5.18 Nid oes data ar gael ynglŷn â gwahanol fathau o lety ar gyfer Ynys Môn – h.y. pa un a oedd yr ymwelwyr yn perthyn i'r band is neu i'r band safonol at ddibenion yr ardoll ymwelwyr.

5.19 Ond gallwn lunio rhagdybiaethau ynglŷn â'r rhaniad ar sail dwy set ddata:

- Data'n ymwneud â nifer y mannau gwely yn ôl math o lety fesul awdurdod lleol – gellir cymharu'r data hwn â chyfanswm y nosweithiau gwely ar gyfer Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr.
- Data'n ymwneud â rhaniad yr ymwelwyr rhwng llety band is, llety band safonol, neu llety arall yng Nghonwy a Gwynedd.

5.20 Trwy gymharu'r setiau data hyn, awgrymir bod gan Ynys Môn gyfraddau deiliadaeth uwch nag awdurdodau lleol cyfagos (Gwynedd neu Gonwy).

5.21 Mae hyn yn esgor ar ddwy senario –

Senario craidd sy'n tybio bod y rhaniad rhwng y math o lety yn debycach i Gonwy ac yn tybio bod y gymhareb o leoedd gwely i breswylwyr yn aros yr un fath ar gyfer llety band is ac mae'r gyfradd defnydd uwch yn Ynys Môn o ganlyniad i ddefnydd uwch mewn llety safonol. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y nosweithiau gwely yn 889,000 (unwaith y bydd y rhai sy'n aros mewn llety sydd wedi'u heithrio o'r ardoll wedi'u heithrio) a'r rhaniad yw 697,000 mewn llety safonol a 192,000 mewn llety gwaharddiad is.

Senario terfyn is sy'n tybio bod y rhaniad rhwng y math o lety yn debycach i Wynedd ac yn tybio bod yr un gymhareb rhwng mannau gwely a nosweithiau gwely yng Ngwynedd ac yna'n graddio i gwrdd â defnydd Ynys Môn – mae hyn yn arwain at nifer is o ymweliadau â band safonol.

5.22 Mae'r senario terfyn isaf wedi'i gynnwys fel prawf sensitifrwydd yn ddiweddarach yn yr adran hon.

5.23 Sylwch fod y tabl isod yn dileu arosiadau dros nos sydd wedi'u heithrio o'r ardoll, er enghraifft y rhai sy'n aros gyda theulu neu ffrindiau[13] - dyna pam mae cyfanswm y niferoedd yn is nag yn Nhabl 5.1.

Tabl 5.2: Ymweliadau domestig dros nos ag Ynys Môn – amcangyfrifir eu rhannu rhwng mathau o lety (GBTS 2022 i 2024)

| **Ymwelwyr sy'n byw yn y DU** | **Band Isaf (amcangyfrif)** | | | **Craidd (amcangyfrif)** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Band Safonol** | **Band Isaf** | **CYFANSWM ac eithrio 'arall'** | **Band Safonol** | **Band Isaf** | **CYFANSWM ac eithrio 'arall'** |
| Cyfanswm ymweliadau dros nos ('000) | 111 | 108 | 219 | 159 | 50 | 209 |
| Cyfanswm nosweithiau gwely ('000) | 417 | 426 | 843 | 697 | 192 | 889 |
| Hyd cyfartalog y daith (nosweithiau) | 3.8 | 3.9 | 3.8 | 4.4 | 3.8 | 4.2 |
| Cyfanswm gwariant dros nos (gan gynnwys TAW) | £45m | £26m | £71m | £63m | £12m | £74m |
| Cost fesul taith (gan gynnwys TAW) | £405 | £244 | £326 | £393 | £236 | £356 |
| Cost y noson (gan gynnwys TAW) | £108 | £62 | £85 | £90 | £62 | £84 |

5.24 Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru 2025 yn amcangyfrif bod 22% o'r rhai mewn llety Band Is yn blant, a'u bod felly yn esempt rhag talu'r ardoll. Tybir y bydd y rhagdybiaeth hon yn wir ar lefel Ynys Môn – pan fydd cyfran y plant yn llai, bydd effaith yr ardoll yn fwy; ac, i'r gwrthwyneb, pan fydd cyfran y plant yn fwy, bydd effaith yr ardoll yn llai.

5.25 Mae'r tabl isod yn cynnwys ymwelwyr cymwys yn unig (h.y. nid yw plant sy'n ymweld â llety band is) ac mae hefyd yn cynnwys y data ymwelwyr rhyngwladol (a gymerwyd o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ar gyfer 2022 i 2024). Nid yw'n cynnwys y rhai sy'n aros mewn llety a fyddai'n cael eu heithrio o'r ardoll[14].

5.26 Sylwer, gan nad yw'r tabl isod yn cynnwys naill ai pobl sy'n aros mewn llety sydd wedi'i eithrio, na phlant sy'n aros mewn llety terfyn isaf – mae'r 0.34m o ymweliadau a nodir uchod yn lleihau 0.24m o ymweliadau (ac mae nosweithiau gwely a gwariant hefyd yn lleihau)

[13] Ar gyfer Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr rydym yn eithrio'r rhai sy'n aros mewn 'llety arall' ac ar gyfer yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol rydym yn eithrio'r rhai sy'n aros yn eu cartref eu hunain neu'n aros am ddim gyda ffrindiau a theulu
[14] Ibid

5.27 Nodwch fod pob ymwelydd rhyngwladol yn cael ei dybio i aros mewn llety safonol ac felly yn talu'r ardoll – mae hyn yn gyson â dadansoddiad Llywodraeth Cymru. Pe bai plant mewn llety terfyn isaf o fewn y grŵp hwn, byddai effaith maint yr ardoll yn llai.

5.28 Fel y nodir uchod, nid yw'r data sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gwersylla mewn meysydd gwersylla (sy'n talu'r gyfradd is) a'r rhai sy'n gwersylla mewn carafanau / faniau gwersylla neu glampio (sy'n talu'r gyfradd uwch). At ddiben yr asesiad hwn, rydym wedi tybio bod pob ymwelydd domestig â meysydd gwersylla yn talu'r gyfradd is - mae hyn yn unol â'r dull a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn yr asesiad economaidd a'r cyngor ar ddata i'w ddefnyddio mewn asesiadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol.

5.29 Ar y naill law, bydd y dull yn tanamcangyfrif yr effaith ar ymwelwyr (gan gynnwys tanamcangyfrif nifer y bobl sy'n talu'r gyfradd uwch a goramcangyfrif nifer y plant sydd wedi'u heithrio rhag talu) a cholli cyflogaeth o ganlyniad i wariant is gan ymwelwyr. Ar y llaw arall, bydd hyn yn cael ei wrthbwyso trwy hefyd danamcangyfrif effaith y cynnydd mewn swyddi o ganlyniad i wario'r ardoll a'r refeniw ardoll a gesglir. Bydd hefyd yn cael ei wrthbwyso i ryw raddau gan y dybiaeth (sydd unwaith eto yn unol â dull Llywodraeth Cymru) y bydd pob ymwelydd rhyngwladol yn talu'r gyfradd uwch.

Tabl 5.3: Yr holl ymweliadau dros nos cymwys ag Ynys Môn – y rhaniad rhwng mathau o lety a mathau o ymwelwyr – senario graidd (2022-2024)

| | **Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol)** | **Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Is)** | **Ymwelwyr rhyngwladol** |
|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos cymwys | 240,710 | 33,328 | 41,497 |
| Nosweithiau gwely cymwys yn Ynys Môn | 950,284 | 149,632 | 218,434 |
| Hyd cyfartalog y trip (nosweithiau) | 3.9 | 4.5 | 5.3 |
| Gwariant dros nos cymwys yn Ynys Môn (yn cynnwys TAW) | £76.23m | £7.87m | £25.03m |
| Cost fesul trip | £317 | £236 | £603 |
| Cost fesul noson | £80 | £53 | 115 |

5.30 Mae'r ardoll yn cyfateb i £1.30 y pen y noson ar gyfer llety safonol, a 75c ar gyfer llety band is. Codir TAW, felly bydd y costau'n cynyddu i £1.56 a 90c. Ar sail hyd cyfartalog y tripiau a chyfanswm cost y tripiau, amcangyfrifir y byddai'r ardoll ymwelwyr yn cyfateb i 1.2% a 1.7% o gost y trip, gan ddibynnu ar y math o drip / ymwelydd.

5.31 Rhagdybir bod yr elastigedd yn -0.74. Mae hyn yn cyd-fynd ag arfarniad Llywodraeth Cymru 2025 (ar gyfer y senario niwtral). Hefyd, rydym wedi profi'r elastigedd mwy pesimistaidd (-1.12) a'r elastigedd mwy optimistaidd (-0.38) sy'n deillio o arfarniad Llywodraeth Cymru – cyflwynir yr amrediad hwn ar ddiwedd yr adran hon.

5.32 Fel y nodir uchod, ychydig iawn o dystiolaeth a geir ynglŷn ag elastigeddau lleol o ganlyniad i ardollau ymwelwyr – caiff y dadansoddiad cymharol gyfyngedig sy'n bodoli ei seilio ar

dystiolaeth genedlaethol. Yn absenoldeb tystiolaeth fwy 'lleol' ei natur, defnyddiwyd ystod o luosyddion.

5.33 Dylid nodi hefyd y bydd elfen arall yn effeithio (i ryw raddau) ar elastigedd y galw yn Ynys Môn – sef a fydd awdurdodau lleol cyfagos yn cyflwyno'r ardoll ymwelwyr, ai peidio. Os mai Ynys Môn fydd yr unig awdurdod a fydd yn penderfynu cyflwyno'r ardoll, yn ôl pob tebyg gwelir mwy o effaith ar ymddygiad ymwelwyr (oherwydd efallai y bydd ymwelwyr yn dewis ymweld â awdurdodau lleol eraill). Ond os bydd ychwaneg o awdurdodau lleol yn cyflwyno taliad, mae'n debygol y gwelir llai o effaith.

5.34 Wrth ddefnyddio'r lluosydd niwtral (-0.74), gwelir gostyngiad yn y galw – sef gostyngiad o 0.9%-1.3% gan ddibynnu ar y math o drip / ymwelydd.

Tabl 5.4: Newid yn y galw o ganlyniad i'r ardoll – senario graidd

| | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol) | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Is) | Ymwelwyr rhyngwladol |
|---|---|---|---|
| Ardoll y pen, y noson (heb gynnwys TAW) | £1.30 | £0.75 | £1.30 |
| Ardoll y pen, y noson (yn cynnwys TAW) | £1.56 | £0.90 | £1.56 |
| Hyd cyfartalog y trip (nosweithiau) | 4.4 | 3.8 | 3.6 |
| Gwariant cyfartalog fesul trip (yn cynnwys TAW) | £393 | £236 | £467 |
| Ardoll Ymwelwyr fesul trip: | £6.84 | £3.44 | £5.66 |
| a) Ar ffurf % o gost y trip | **1.7%** | **1.5%** | **1.2%** |
| b) Elastigedd | -0.74 | -0.74 | -0.74 |
| Newid canrannol yn y galw o du defnyddwyr (a x b) | **-1.3%** | **-1.1%** | **-0.9%** |

5.35 Mae'r gostyngiad hwn yn y galw yn esgor ar ostyngiad o £1.1m yng ngwariant ymwelwyr bob blwyddyn (yn cynnwys TAW), ac £0.9m (heb gynnwys TAW).

5.36 Ni fyddai'r holl arian hwnnw wedi cael ei wario yn Ynys Môn – byddai rhywfaint o'r arian wedi cael ei wario mewn awdurdodau lleol eraill (naill ai yn ystod tripiau dydd neu yn ystod y siwrnai). Ond er mwyn bod yn geidwadol, rhagdybir mai Ynys Môn a fydd yn teimlo'r golled i gyd. Bydd hyn yn goramcanu'r effaith (negyddol) ar economi Ynys Môn.

Tabl 5.54: Y golled o ran gwariant tripiau – senario graidd

| | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol) | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Is) | Ymwelwyr tramor (Band Safonol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant dros nos cymwys (gan gynnwys TAW) | £63 | £9 | £22 | £94 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Newid canrannol yn y galw | -1.3% | -1.1% | -0.9% | |
| Gwariant Ardoll Ôl-ymwelwyr (£m) (gan gynnwys TAW) | £62 | £9 | £22 | £92 |
| Gostyngiad mewn Gwariant Teithio Gros (uniongyrchol) (£m) (gan gynnwys TAW) | -£0.8 | -£0.1 | -£0.2 | -£1.1 |
| **Colledion Gwariant Teithio Gros (uniongyrchol) (£m) (heb gynnwys TAW)** | **-£0.7** | **-£0.1** | **-£0.2** | **-£0.9** |

5.37 Ar sail lluosyddion Llywodraeth Cymru ar gyfer 'llety a bwyd', cynhwysir effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau a ysgogir hefyd. Drachefn, ni fyddai pob un o'r rhain wedi cael eu teimlo yn Ynys Môn; felly, yn ôl pob tebyg, caiff effaith (negyddol) y colledion o ran gwariant yn sgil codi'r ardoll ei goramcanu.

5.38 Rydym wedi cymhwyso lluosydd math 1 (sy'n cipio effeithiau uniongyrchol ac effeithiau anuniongyrchol) a lluosydd math 2 (sy'n cipio effeithiau uniongyrchol, effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau a ysgogir) ar gyfer llety a bwyd[15] – defnyddir hyn fel procsi ar gyfer yr holl wariant ac mae'n debygol o gipio'r mwyafrif o'r patrymau gwario.

5.39 Mae hyn yn arwain at golli £0.7m o GYC blynyddol y flwyddyn – sy'n arwain at golli rhwng 18 ac 21 o swyddi FTE.

Tabl 5.65: Colled mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol a chyflogaeth o ganlyniad i golli gwariant ymwelwyr – senario graidd

| | Math 1 | Math 1 a Math 2 |
|---|---|---|
| Newid mewn allbwn blynyddol uniongyrchol (heb DAW) | -£0.9 | -£0.9 |
| Lluosydd (llety a bwyd) | 1.23 | 1.39 |
| Newid yng nghyfanswm yr allbwn blynyddol | -£1.1 | -£1.3 |
| Cymhareb Allbwn i GYC (llety a bwyd) | 0.58 | 0.58 |
| **Newid mewn GYC blynyddol** | **-£0.7m** | **-£0.7m** |
| GYC fesul FTE (llety a bwyd) yn Ynys Môn | £35,500 | £35,500 |
| **Newid mewn cyflogaeth FTE** | **-18** | **-21** |

### Effaith gwariant yr Ardoll Ymwelwyr

[15] Seilir hyn ar luosyddion economaidd dangosol Llywodraeth Cymru (tablau mewnbwn-allbwn): 2019

5.40 Bydd yr ardoll ymwelwyr yn esgor ar gynyddu gweithgarwch economaidd. Gellir gwario'r ardoll ymwelwyr ar y canlynol:

- lliniaru'r effaith a gaiff ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd ymwelwyr (pa un a fyddant at ddefnydd pobl leol hefyd, ai peidio).

5.41 At ddibenion yr asesiad hwn, rhagdybir y bydd yr effaith yn cael ei theimlo'n gyfartal ar draws gwahanol sectorau o'r economi (ac o'r herwydd defnyddiwyd cyfartaleddau ar gyfer Ynys Môn). Gellir diweddaru hyn pan ddaw rhagor o wybodaeth i law ynglŷn â'r modd y gellir buddsoddi arian yr ardoll ymwelwyr.

5.42 Byddai'r ardoll yn esgor ar £1.6m o refiniw ychwanegol heb gynnwys TAW (gweler Tabl 5.6) – mae'r ffigur hwn yn ystyried y gostyngiad yn y galw o ganlyniad i'r ardoll ac mae'n eithrio plant sy'n aros mewn llety band is.

5.43 Ni fydd hyn i gyd yn cael ei wario gyda chyflogwyr Ynys Môn, oherwydd:

- Bydd hyd at 10% yn mynd i Lywodraeth Cymru i dalu costau gweithredu – yn y prif ddadansoddiad tybir bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y 10% llawn, ond cynhwysir prawf sensitifrwydd i leihau hyn i 0% (i roi'r ystod lawn o 0% i 10%).
- Mae gollyngiad arall o 25% yn cael ei gymhwyso i ganiatáu i wario ardoll Ynys Môn ar gwmnïau y tu allan i Ynys Môn. Mae hwn yn amcangyfrif ceidwadol gan y disgwylir y bydd gollyngiadau yn isel iawn – byddai gwariant y gronfa yn cael ei wneud gan Gyngor Ynys Môn. Mae'r gwariant yn debygol o gynnwys gwariant ar gyrchfannau a chymunedau yn Ynys Môn a byddai'r gwariant gyda chontractwyr a busnesau lleol cyn belled â phosibl. Mae natur y gwariant (contractau cymharol fach) yn golygu ei fod yn fwy tebygol o gael ei gyflawni gan fusnesau lleol ac yn llai tebygol o ddenu busnesau o ymhellach i ffwrdd. Serch hynny, mae gollyngiad uwch o 45% wedi'i gynnwys fel prawf sensitifrwydd.

5.44 Drachefn, cymhwysir lluosyddion math 1 a math 2 a chymhareb Gwerth Ychwanegol Gros: allbwn[16] – mae hyn yn esgor ar gynnydd o oddeutu £0.5m i 0.6m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol yn Ynys Môn, gan gefnogi 6-7 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (gweler Tabl 5.6).

Tabl 5.6: Colled o ran gwariant tripiau a refeniw'r ardoll – senario graidd

| | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol) | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Is) | Ymwelwyr tramor (Band Safonol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nosweithiau gwely cymwys ar ôl ardoll (gan gyfrif am y galw llai ('000) | 688 | 148 | 168 | 1,003 |
| Ardoll y pen y noson (heb gynnwys TAW) | £1.30 | £0.75 | £1.30 | |

[16] Seilir y lluosyddion a'r gymhareb ar luosyddion economaidd dangosol Llywodraeth Cymru (tablau mewnbwn-allbwn): 2019

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Refeniw Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW)** | **£0.9m** | **£0.1m** | **£0.2m** | **£1.2m** |
| Refeniw Ardoll Ymwelwyr (gan gynnwys TAW) | £1.1m | £0.1m | £0.3m | £1.5m |

Tabl 5.8: Cynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol a chyflogaeth o ganlyniad i wariant yr Ardoll Ymwelwyr – senario graidd

| | Senario Isel – Math 1 | Senario Uchel – Math 2 |
|---|---|---|
| Refeniw'r Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW) – allbwn uniongyrchol | £1.2m | £1.2m |
| Ac eithrio 10% sy'n mynd i gost weithredu LlC | £1.1m | £1.1m |
| Dadleoli | 25% | 25% |
| Refeniw'r Ardoll Ymwelwyr (heb gynnwys TAW) yn Ynys Môn – allbwn uniongyrchol | £0.8m | £0.8m |
| Lluosydd (pob sector) | 1.21 | 1.33 |
| Newid yng nghyfanswm yr allbwn (yn cynnwys allbwn uniongyrchol) yn Ynys Môn | £1.0m | £1.1 |
| Y gymhareb Allbwn: Gwerth Ychwanegol Gros (pob sector) | 0.5 | 0.5 |
| **Newid yng Ngwerth Ychwanegol Gros Ynys Môn** | **£0.5m** | **£0.6m** |
| Gwerth Ychwanegol Gros fesul sector ag Amser Llawn ar draws pob diwydiant (Ynys Môn) | £80,500 | £80,500 |
| **Newid yng Nghyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn Ynys Môn** | **6** | **7** |

*Cyfanswm effaith yr ardoll*

5.45 Mae effaith gyfunol yr ardoll yn cyfateb i'r golled mewn gwariant ymwelwyr a'r cynnydd mewn gweithgarwch economaidd o ganlyniad i wariant yr ardoll yn Ynys Môn.

5.46 Yn y senario graidd, rhagwelir y bydd effaith gyfunol yr ardoll yn cyfateb i golled o £0.1 i £0.3m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol (sef gostyngiad o 0.01% yng Ngwerth Ychwanegol Gros blynyddol Ynys Môn), a hefyd rhagwelir y bydd 12-14 o swyddi'n cael eu colli (sydd yn llai nag 0.1% o cyflogaeth Ynys Môn).

Tabl 5.9: Newid yn effaith gyfunol GYC blynyddol a chyflogaeth – senario craidd

| | | Craidd (yn seiliedig ar elastigedd) |
|---|---|---|
| GYC (Gwerth Ychwanegol Crynswth) | Gostyngiad oherwydd colli gwariant | -£0.7m |
| | Cynnydd oherwydd gwariant yr ardoll | +£0.5 i +£0.6m |
| | **Newid mewn GYC blwyddol** | **-£0.1m i -£0.2m** |
| | GYC Ynys Môn (2023) | £1,455m |
| | Tua chanran o GYC Economi Ynys Môn | -0.01% |
| Cyflogaeth | Tua chanran o GYC Economi Ynys Môn | -18 i -21 |
| | Cynnydd oherwydd gwariant yr ardoll | +6 i +7 |
| | **Newid mewn cyflogaeth cyfwerth amser llawn (FTE)** | **-12 i -14** |
| | Cyfanswm FTE Ynys Môn | 18,065 |
| | Bras canran o gyflogaeth Ynys Môn | -0.07% i 0.08% |

5.47 Seilir y senario graidd ar elastigedd o -0.74. Trwy ddefnyddio elastigedd optimistaidd Llywodraeth Cymru (0.38), caiff yr effaith o ran swyddi ei lleihau (sef colli 3-4 o swyddi) a cheir cynnydd o £0.2m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol.

5.48 Mae cymhwyso elastigedd mwy pesimistaidd (-1.12) yn esgor ar golli mwy o swyddi (hyd at 25) a fyny at cholled flynyddol o £0.6m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol.

Tabl 5.10: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol a chyflogaeth – effaith gyfunol

| | Arffin Isaf (ar sail elastigeddau) | Craidd (ar sail elastigeddau) | Arffin Uchaf (ar sail elastigeddau) |
|---|---|---|---|
| Gostyngiad oherwydd colli gwariant | -£1.0m i -£1.1m | -£0.7m | -£0.3m i -£0.4m |
| Cynnydd oherwydd gwariant yr ardoll | +£0.5m i +£0.6m | +£0.5m i +£0.6m | +£0.5m i +£0.6m |
| **Newid mewnGYC blwyddol** | **-£0.5m i -£0.6m** | **-£0.1m i -£0.2m** | **+£0.2m** |
| GYC Ynys Môn (2023) | £1,455m | £1,455m | £1,455m |
| Tua chanran o GYC Economi Ynys Môn | -0.03% i -0.04% | -0.01% | 0.01% |
| Gostyngiad oherwydd colli gwariant | -23 i -32 | -18 i -21 | -9 i -11 |
| Cynnydd oherwydd gwariant yr ardoll | +6 i +7 | +6 i +7 | +6 i +7 |
| **Change in FTE Employment** | **-22 i -25 o swyddi** | **-12 i -14 o swyddi** | **-3 i -4 o swyddi** |
| Cyfanswm FTE Ynys Môn | 18,065 | 18,065 | 18,065 |
| Bras canran o gyflogaeth Ynys Môn | -0.1% | -0.07% i -0.08% | -0.02% |

5.49 Mae Tabl 5.11 yn nodi'r cyfanswm refeniw ardoll a gesglir ym mhob senario – nodwch fod y gweithgarwch economaidd a gefnogir gan y gweithgareddau hyn wedi'i gynnwys yn yr effeithiau GYC a nodir uchod ond mae wedi'i gynnwys yma er eglurder.

5.50 Yn seiliedig ar nifer presennol yr ymwelwyr (nosweithiau gwely) byddai'r ardoll yn codi £1.2m, a byddai hyd at £1.1m ohono yn cael ei gadw gan IACC i'w wario yn yr ardal leol (yn unol â'r Ddeddf) gan dybio bod hyd at 10% o'r refeniw yn talu costau gweithredu Llywodraeth Cymru.

5.51 Mae'r dull a nodwyd yn y dadansoddiad blaenorol yn caniatáu gostyngiad yn y galw mewn ymateb i'r ardoll ymwelwyr – mae'r gostyngiad hwn yn arwain at ostwng y refeniw ychydig ond mae'n parhau i fod rhwng £1.22m a £1.24m i gyd, a rhwng £1.09m a £1.11m unwaith y bydd y cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru wedi'i eithrio.

5.52 Mewn gwirionedd, gallai'r refeniw a gasglwyd fod yn uwch na hyn am nifer o resymau:

- Mae hyn yn cymryd yn ganiataol bod nifer yr ymwelwyr yn statig o ddata 2022-2024 - a'r unig newid yw gostyngiad mewn ymwelwyr (neu nosweithiau gwely) o ganlyniad i'r ardoll. Mewn gwirionedd gall yr economi ymwelwyr dyfu (gyda'r ardoll neu hebddo). Mae marchnad dwristiaeth Ynys Môn wedi bod yn tyfu ar ôl Covid ac efallai y bydd hyn yn parhau. Ceir tystiolaeth hefyd o flwyddyn i flwyddyn twf mewn twristiaeth mewn lleoliadau sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr (cyfeiriwch at adroddiad Prifysgol Bangor fel y'i crynhoir yn Adran 3). Ar y llaw arall, pe bai nifer yr ymwelwyr yn gostwng, byddai gostyngiad mewn refeniw.
- Bydd yr ardoll yn caniatáu i IACC fuddsoddi mewn gweithgareddau yn unol â'r Ddeddf, gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth, a darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr. Mae'r buddsoddiad hwn ei hun yn debygol o yrru cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. I'r gwrthwyneb gallai fod gostyngiad mewn ymwelwyr heb y buddsoddiad yn yr ardoll.
- Mae data STEAM yn awgrymu economi ymwelwyr llawer mwy arwyddocaol ar hyn o bryd yn Ynys Môn – byddai hyn yn arwain at fwy o refeniw – mae hyn wedi'i nodi'n fanylach yn y prawf sensitifrwydd yn yr adran nesaf.
- Nid yw'r data sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gwersylla mewn meysydd gwersylla (sy'n talu'r gyfradd is) a'r rhai sy'n gwersylla mewn carafanau / faniau gwersylla neu glampio (sy'n talu'r gyfradd uwch). At ddiben yr asesiad hwn rydym wedi tybio bod pob ymwelydd domestig â meysydd gwersylla yn talu'r gyfradd is, mewn gwirionedd bydd rhai yn talu'r gyfradd uwch a fydd yn cynyddu'r refeniw. Bydd llai o blant hefyd wedi'u heithrio.

Tabl 5.11: Amcangyfrifon refeniw

| | | **Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol)** | **Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Isaf)** | **Ymwelwyr tramor (Band Safonol)** | **Cyfanswm** | **Gostyngiad o 10% i LlC ar gyfer costau gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardoll y noson (heb gynnwys TAW) | | £1.30 | £0.75 | £1.30 | | |
| Dim gostyngiad yn y galw | Nosweithiau gwely mewn cwmpas | 0.70m | 0.15m | 0.17m | 1.02m | |
| | Revenue (excl VAT) | £0.91m | £0.11m | £0.22m | £1.24m | £1.11m |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Craidd | Nosweithiau gwely mewn cwmpas | 0.69m | 0.15m | 0.17m | 1.00m | |
| | Revenue (excl VAT) | £0.89m | £0.11m | £0.22m | £1.22m | £1.10m |
| Optimistaidd | Nosweithiau gwely mewn cwmpas | 0.69m | 0.15m | 0.17m | 1.01m | |
| | Refeniw (heb gynnwys TAW) | £0.90m | £0.11m | £0.22m | £1.23m | £1.11m |
| Pesimistaidd | Nosweithiau gwely mewn cwmpas | 0.68m | 0.15m | 0.17m | 1.00m | |
| | Refeniw (heb gynnwys TAW) | £0.89m | £0.11m | £0.22m | £1.22m | £1.09m |

### *Prawf sensitifrwydd a'r effaith ar ragdybiaethau*

5.53 Uchod, gwneir nifer o ragdybiaethau sy'n effeithio ar raddfa'r effaith. Nodir y rhagdybiaethau hollbwysig yn y tabl isod, ochr yn ochr â'r goblygiadau ar gyfer maint yr effaith.

5.54 Isod, cynhelir dau brawf sensitifrwydd ychwanegol – gweler Tabl 5.12 a Tabl 13.

5.55 Fel y nodwyd uchod, mae nifer o ffynonellau gwahanol ar gyfer amcangyfrif maint presennol economi dwristiaeth Ynys Môn. Mae'r prif ddadansoddiad a gyflwynir uchod yn defnyddio'r GBTS a'r IPS ar gyfer data blynyddol cyfartalog ar gyfer 2022 i 2024 – mae hyn yn unol â'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a hefyd â'r canllawiau a ddarparwyd i awdurdodau lleol.

5.56 Mae'r ffigur blynyddol ar gyfer 2024 yn uwch na'r ffigurau blynyddol cyfartalog ar gyfer 2022-24 (sy'n adlewyrchu marchnad ôl-covid sy'n adfer) ac felly rydym wedi ychwanegu ffigurau 2024 fel prawf sensitifrwydd.

5.57 Mae data STEAM yn amcangyfrif marchnad dwristiaeth llawer mwy yn Ynys Môn – mae hyn wedi'i nodi'n fanylach, gan gynnwys prawf sensitifrwydd, isod.

Tabl 5.12: Goblygiadau rhagdybiaethau ar faint tebygol yr effaith

| | Prawf sensitifrwydd | Cyfranogiad |
|---|---|---|
| Gostyngiad cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru i 0% | Ydi – Tabl 5.13 | Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = **newid dibwys mewn effaith** |
| Cymhwysir lefel uwch (45%) o ollyngiadau | Ydi – Tabl 5.13 | Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = **newid dibwys mewn effaith** |
| Defnyddio data GTBS ac IPS 2024 (yn hytrach na chyfartaledd 2022 i 2024) | Ydi – Tabl 5.13 | Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = **newid dibwys mewn effaith** |
| Defnyddio data STEAM | Ydi – Tabl 5.14 | Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = **newid dibwys mewn effaith** |
| Mae rhaniad yr ymwelwyr yn unol â'r ffin isaf yn Nhabl 5.2 | Ydi – Tabl 5.13 | Wedi'i brofi mewn prawf sensitifrwydd = **Maint effaith ychydig yn is** |
| Mae cyfran y plant mewn llety safonol yn uwch na 22% | Na | Llai o effaith o ran colli gwariant ymwelwyr (gan fod mwy o blant wedi'u heithrio) + Llai o effaith o ran gwariant ardoll = **Maint is o'r effaith** |
| Mae cyfran y plant mewn llety safonol yn is na 22% | Na | Effaith uwch o ran colli gwariant ymwelwyr (gan fod llai o blant, sydd wedi'u heithrio) + Effaith uwch o ran gwariant ardoll = **Maint uwch o'r effaith** |
| Mwy o elastigedd pesimistaidd y galw | Wedi'i gynnwys yn Nhabl 5.10 (terfyn isaf) | Wedi'i gynnwys yn y terfyn isaf uchod = **Maint uwch yr effaith** |
| More optimistic elasticity of demand | Wedi'i gynnwys yn Nhabl 5.10 (terfyn uwch) | Wedi'i gynnwys yn y terfyn uwch uchod = **Maint is o effaith** |
| Ynys Môn yn unig awdurdod lleol i gyflwyno ardoll | Ddim yn benodol | Nid yn benodol ond yn debygol o fod yn agosach at 'mwy pesimistaidd elastigedd y galw' = **Maint uwch o effaith** |

| | | |
|---|---|---|
| Ynys Môn ac awdurdodau lleol cyfagos i gyflwyno ardoll | Ddim yn benodol | Nid yn benodol ond yn debygol o fod yn agosach at 'elastigedd mwy optimistaidd y galw' = **Maint is o effaith** |
| Llai na 100% o'r gwariant yn cael ei 'golli' o Ynys Môn | Na | Effaith is o ran colli gwariant ymwelwyr = **Maint is o'r effaith** |

Tabl 5.13: Profion sensitifrwydd

| | **Craidd** | **% is mewn llety safonol** | **Gostyngiad cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru i 0%** | **Lefel uwch (45%) o ollyngiadau** | **Defnyddio data GTBS ac IPS 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Newid mewn GYC blwyddol** | **-£0.1m to -£0.2m** | **-£0.1m** | **-£0.1m** | **-£0.3m** | **-£0.2m** |
| GVA Ynys Môn (2023) | £1,455m | £1,455m | £1,455m | £1,455m | £1,455m |
| % o GVA Ynys Môn | -0.01% | -0.01% | -0.01% | -0.02% | -0.01% |
| **Newid mewn cyflogaeth FTE** | **-12 i -14 o swyddi** | **-10 i -11 o swyddi** | **-11 i -13 o swyddi** | **-14 i -16 o swyddi** | **-13 -15 o swyddi** |
| Cyfanswm FTE Ynys Môn | 18,065 | 18,065 | 18,065 | 18,065 | 18,065 |
| % o gyflogaeth Ynys Môn | -0.07% i -0.08% | -0.06% | -0.06% i -0.07% | -0.08% i -0.09% | -0.07% i -0.08% |

5.58 Mae data STEAM yn adrodd sector twristiaeth llawer uwch yn Ynys Môn. Yn 2024 amcangyfrifwyd y byddai 1.1 miliwn o ymwelwyr dros nos, gan aros 5.7 miliwn o ddiwrnodau a gwario dros £0.3 biliwn. Mae hynny tua 3 i 4 gwaith yn fwy na'r farchnad dwristiaeth yn Ynys Môn yn seiliedig ar yr IPS a'r GTBS.

5.59 Mae'r prawf sensitifrwydd isod yn amcangyfrif effaith debygol yr ardoll yn seiliedig ar niferoedd STEAM (maent yn amcangyfrif lefel economi ymwelwyr llawer uwch na'r GTBS a'r IPS), mae hyn yn debygol o oramcangyfrif effaith yr ardoll ond fe'i cynhwysir er mwyn cyflawnrwydd ac i gydnabod y gallai natur wledig Ynys Môn olygu y gallai'r GTBS a'r IPS danamcangyfrif niferoedd ymwelwyr.

5.60 Mae'r data STEAM yn cyfrif diwrnodau ymwelwyr – at ddibenion y dadansoddiad rydym wedi tybio diwrnod ymwelydd aros = noson. Bydd hyn yn goramcangyfrif effaith yr ardoll gan y gallai rhywun fod yn bresennol mewn ardal am fwy o ddyddiau nag y maent yn nosweithiau.

5.61 Nid yw'r data STEAM yn rhannu llety heb wasanaeth yn fand is a llety safonol ac felly defnyddir ystod (h.y. o 100% yn y band isaf i 100% safonol). Bydd y realiti yn rhywle rhyngddynt.

5.62 Mae'r dadansoddiad STEAM hwn yn darparu bookend o ran y canlynol:

5.62.1 Yr achos gwaethaf o ran effaith ar gyflogaeth a GYC – mae hyn yn arwain at ostyngiad o rhwng 34 ac 80 o swyddi (tua 0.2% i 0.4% o economi Gwynedd) a hyd at £1.1m o GYC (hyd at 0.07%).

5.62.2 Yr achos gorau o ran gwariant refeniw sydd ar gael – mae hyn yn cynyddu i £3.1m i £6.2m (ar ôl cyfrif am gyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru). Mae hyn yn debygol o fod yn senario gorau iawn o ran cyllid refeniw (am y rhesymau a nodir uchod mae'n debygol o fod yn oramcangyfrif).

5.63 Sylwch fod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar y senario craidd (hy elastigedd o -0.74). Byddai cymhwyso ystod elastigedd Llywodraeth Cymru (-0.38 i -1.12) yn arwain at ystod ehangach o effeithiau gan ddefnyddio'r data STEAM.

5.64 Y prif ddadansoddiad (gan ddilyn dull a chanllawiau Llywodraeth Cymru) yw'r dull a ffefrir o hyd, ond mae'r data STEAM yn dangos ansicrwydd (ac o bosibl pen uchaf) yr effaith debygol.

Tabl 5.14: Newid yn effaith gyfunol GYC blynyddol a chyflogaeth

| | **Prif ddadansoddiad**<br>Senario craidd<br>(elastigedd o -0.74) | **STÊM 2024**<br>(elastigedd o -0.74) |
|---|---|---|
| Gostyngiad oherwydd colli gwariant | -£0.7m | -£1.8m i -£4.2m |
| Cynnydd oherwydd gwariant yr ardoll | +£0.5m i +£0.6m | +£1.4m i +£3.1m |
| **Newid mewnGYC blwyddol** | **-£0.1m i -£0.2m** | **-£0.4m i -£1.1m** |
| GYC Gwynedd (2023) | £1,455m | £1,455m |
| Tua chanran o GYC Economi Ynys Môn | -0.01% | -0.03% i -0.07% |
| Gostyngiad oherwydd colli gwariant | -18 i -21 | -52 i -119 |
| Cynnydd oherwydd gwariant yr ardoll | +6 to +7 | +18 i 39 |
| **Newid mewn cyflogaeth FTE** | **-12 i -14 o swyddi** | **-34 i -80** |
| Gwynedd FTE Cyfanswm | 18,065 | 18,065 |
| Bras canran o gyflogaeth Ynys Môn | -0.07% i -0.08% | -0.2% i -0.4% |
| **Refeniw (heb gynnwys TAW)** | **£1.2m**<br>*£1.1m yn cyfrif am gyfraniad i LlC* | **£3.4m a £6.9m**<br>*£3.1m i £6.2m yn cyfrif am gyfraniad i LlC* |

## Darparwyr llety yn ysgwyddo'r ardoll ymwelwyr yn llwyr

5.65 Mae'r senario hon yn rhagdybio y bydd busnesau'n amsugno cost yr Ardoll Ymwelwyr – sy'n golygu na fydd lefel yr ymwelwyr sy'n ymweld ag Ynys Môn yn newid. Golyga hyn y bydd busnesau'n amsugno £1.5m yn cynnwys TAW (dyma'r senario waethaf, oherwydd bydd rhai busnesau'n trosglwyddo'r TAW).

*Tabl 5.15: Cyfanswm y gost a amsugnir gan y busnes*

| | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Safonol) | Ymwelwyr sy'n byw yn y DU (Band Is) | Ymwelwyr rhyngwladol | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Nosweithiau gwely cymwys yn Ynys Môn ('000) | 697 | 149 | 169 | 1,015 |
| Ardoll y pen, y noson (yn cynnwys TAW) | £1.56 | £0.90 | £1.56 | |
| **Cyfanswm yr ardoll = cyfanswm y gost sydd i'w hamsugno** | **£1.1m** | **£0.1m** | **£0.3m** | **£1.5m** |

5.66 Bydd busnesau'n amsugno £15m o gostau ychwanegol, a defnyddir refeniw'r busnesau i dalu'r costau hyn. Mae arfarniad Llywodraeth Cymru yn rhagdybio y bydd modd 'dod o hyd' i'r arian hwn yng ngwerth ychwanegol y busnes, felly mae'n cyfateb i Werth Ychwanegol Gros. Mewn gwirionedd, mae'n debygol y byddai rhai swyddi'n cael eu colli hefyd.

5.67 Ymhellach, mae arfarniad Llywodraeth Cymru yn rhagdybio na fydd prisiau mewnbwn yn newid, ac na fydd nifer yr ymwelwyr na darbodion maint yn newid. Golyga hyn na cheir unrhyw effeithiau lluosydd cadwyn gyflenwi 'Math 1'. Fodd bynnag, ceir rhai effeithiau anuniongyrchol o ganlyniad i wasgfa'r ardoll, gan leihau incwm i'w wario (yn rhannol) ar draws economi Ynys Môn, felly defnyddir lluosydd o 1.3 i gynnwys Gwerth Ychwanegol Gros uniongyrchol a Gwerth Ychwanegol Gros a ysgogir, ond gan eithrio Gwerth Ychwanegol Gros anuniongyrchol. Mae hyn yn esgor ar golled o £1.7m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol.

*Tabl 5.16: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol gan fod effaith yr Ardoll yn cael ei hamsugno gan y busnes*

| | CYFANSWM |
|---|---|
| Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol uniongyrchol | -£1.5m |
| Lluosydd (Gwerth Ychwanegol Gros uniongyrchol a Gwerth Ychwanegol Gros a ysgogir, heb gynnwys Gwerth Ychwanegol Gros anuniongyrchol) | 1.2 |
| Cyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol | -£1.7m |

5.68 Fel y nodwyd uchod, disgwylir i wariant yr ardoll arwain at gynnydd o £0.5 i £0.6m mewn GYC y flwyddyn yn y senario craidd a chynnydd o 6 i 7 o swyddi (gan gyfrif am gyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru a gollyngiadau). Mae hyn yn arwain at effaith gyfunol o golli £1.2m mewn GYC blwyddol a chynnydd mewn 6 i 7 o swyddi.

Tabl 5.57: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol a chyflogaeth – effaith gyfunol – senario graidd

| | Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol | Cyflogaeth |
|---|---|---|
| Y newid yn sgil y ffaith y bydd yr Ardoll yn cael ei hamsugno gan y busnes | -£1.7m | 0 |
| Y newid yn sgil gwariant yr Ardoll | +£0.5m i +£0.6m | 6 i 7 swyddi |
| **Newid net** | **-£1.2m** | **6 i 7 o swyddi** |

5.69 Mae'r sensitifrwydd perthnasol a nodir uchod wedi'u cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gollyngiadau uwch, y newid yn y cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru a'r ymagwedd at newidiadau TAW yn arwain at effaith rhwng 5 ac 8 swydd ar swyddi a cholli rhwng -£0.9m a -£1.4m o GYC blynyddol.

5.70 Unwaith eto, mae'r data STEAM yn cael effaith llawer mwy (wedi'i yrru gan economi dwristiaeth gyfredol ehangach) ac mae'n dangos y pennau llyfrau (cadarnhaol a negyddol) o effeithiau posibl.

Tabl 5.18: Profion sensitifrwydd


| | Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol | Cyflogaeth |
|---|---|---|
| Craidd | -£1.2m | 6 i 7 swydd |
| Cymhwysir lefel uwch (45%) o ollyngiadau | -£1.3m i -£1.4m | 5 swydd |
| Cyfran is mewn llety safonol | -£1.0m | 5 i 6 swydd |
| Gostyngiad cyfraniad at gostau gweithredu Llywodraeth Cymru i 0% | -£1.1m i -£1.2m | 7 i 8 swydd |
| Nid yw busnesau'n 'amsugno TAW' | -£0.9m | 6 i 7 swydd |
| STEAM | -£3.3m i -£6.9m | 18 i 39 swydd |

# 6 Croeswirio Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan ystyried pwysigrwydd cymharol twristiaeth i Ynys Môn

6.1 Rydym wedi cynnal ‘gwiriadau synnwyr’, lle defnyddir effaith gyffredinol yr Ardoll Ymwelwyr ar economi Cymru (gweler dadansoddiad Llywodraeth Cymru) i amcangyfrif yr effaith debygol ar Ynys Môn. Sylwer: nid yw’r gwaith hwn yn mynd i’r afael â’r amodau sy’n berthnasol i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru na’i addaster ar lefel fwy lleol, ond mae’n cynnig hyder ychwanegol yn y dadansoddiad.

6.2 Yn gyntaf, er mai cyfran gymharol fechan o farchnad twristiaeth (a chyflogaeth) Cymru sy’n eiddo i Ynys Môn, dylid nodi bod economi’r ynys yn anghymesur o ddibynnol ar y farchnad hon. Dangosir hyn yn Ffigur 6.1 – gwelir bod ychydig dros 4% o gyfanswm cyflogaeth Ynys Môn yn perthyn i’r sector Llety, ond gwelir bod y cyniferydd lleoliad yn 2.54, sy’n golygu bod cyflogaeth Llety yn anghymesur o bwysig i’r economi leol.

Ffigur 5.1: Cyflogaeth yn y sector Llety yng Nghymru – Cyniferydd Lleoliad a chyfrannau cyflogaeth yng Nghymru



6.3 Mae'r tabl isod yn dangos bod sector twristiaeth Ynys Môn yn cyfateb i 3%-7% o economi Cymru, ar sail nifer o ddulliau mesur gwahanol (cyflogaeth, nosweithiau a gwario ymwelwyr).

Tabl 6.1: Sector twristiaeth Ynys Môn ar ffurf cyfran o gyfanswm Cymru

| | Y gyfran o sector twristiaeth Cymru |
|---|---|
| Cyflogaeth mewn Llety (BRES 2024) | 4% |
| Cyflogaeth mewn Llety a Bwyd (BRES 2024) | 3% |
| Domestig - nosweithiau (pob math o daith) | 5% |
| Domestig - gwariant (pob math o daith) | 5% |
| Nosweithiau rhyngwladol (ac eithrio cartref a'r teulu a'i ffrindiau eu hunain) | 5% |
| Rhyngwladol - gwariant (ac eithrio cartref a theulu a ffrindiau eich hun) | 7% |

6.4 Fel ffordd o wirio synnwyr hyn oll, rydym wedi cymhwyso hyn i ganfyddiadau Arfarniad 2024 Llywodraeth Cymru. Yn yr arfarniad a basiodd 100% o'r ardoll i'r cwsmer, canfu:

- Ledled Cymru, byddai'r Ardoll yn arwain at golli rhwng 400 a chynnydd o 100 o swyddi
- Ynghyd â newid sy'n amrywio o -£7.5m i £11.1m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol.

6.5 Pe baem yn cymhwyso'r ystod uchod (3%-7%), gellid disgwyl gweld effaith rhwng -28 a +7 o swyddi, ynghyd â newid sy'n amrywio o golled o -£.5m ac cynnydd o £0.8m mewn Gwerth Ychwanegol Gros. Mae hyn yn debyg i'r amcangyfrifon yn Adran 5 – sef rhwng -3 a -25 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a rhwng -£0.6m a £0.2m mewn Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol.

6.6 Gellid disgwyl y byddai'r dull hwn o gymhwyso egwyddor *pro rata* at ddadansoddiad Llywodraeth Cymru yn esgor ar ganlyniadau uwch na'r dadansoddiad a nodir yn Adran 5 – oherwydd trwy ddefnyddio egwyddor *pro rata*, rhagdybir y byddai Ynys Môn yn hawlio'i chyfran berthynol o wariant yr ardoll ymwelwyr (ar ôl ystyried gwariant nad yw'n wariant rhanbarthol).

6.7 Mae'r dadansoddiad yn Adran 5 yn rhagdybio y byddai gwariant ardoll Ynys Môn yn cael ei ddadleoli i ardaloedd y tu allan i Ynys Môn, ac nid ystyrir yr 'enillion' a fyddai'n dod i ran Ynys Môn o ganlyniad i wariant ardoll awdurdodau lleol eraill (er enghraifft, cyflogi busnes o Ynys Môn i weithio ar brosiect yng Ngwynedd, sef prosiect y byddai'r ardoll Gwynedd yn talu amdano).

6.8 Dylid nodi mai amcangyfrifon dangosol yn unig yw'r rhain – ni cheir dulliau 'tebyg am debyg'. Serch hynny, mae tebygrwydd y ffigurau'n rhoi hyder yn y dadansoddiad a nodir yn Adran 5.

Tabl 6.2: Croeswirio o gymharu â Dull Llywodraeth Cymru – trosglwyddo 100% o'r Ardoll i ymwelwyr

| | | Pesimistaidd | Craidd | Optimistaidd |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Cymru | -400 | -140 | 100 |
| | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 3% | -12 | -4.2 | 3 |
| | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 7% | -28 | -9.8 | 7 |
| | Dull amodol Ynys Môn (trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr) – Adran 5 | -22 i -25 swydd | -12 i -14 swydd | -3 i -4 swydd |
| Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol (£m) | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Cymru | -7.5 | -£7.5m | £2.1m |
| | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 3% | -0.23 | -£0.2m | £0.1m |
| | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 7% | -0.53 | -£0.5m | £0.2m |
| | Dull amodol Ynys Môn (trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr) – Adran 5 | -0.8 | -£0.5m i-£0.6m | -£0.1m i -£0.2m |

6.9 Trwy ddefnyddio'r un dull ar gyfer y senario lle byddai busnesau'n amsugno'r ardoll, a thrwy gymhwyso'r ystod 3%-7% wedyn, gwelir y byddai 11-25 o swyddi ychwanegol yn cael eu creu (o gymharu â 6 i 7 yn Adran 5), ac y byddai'r Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol yn amrywio o -£1.0m i -£2.3m (o gymharu â -£1.2m yn Adran 5).

Tabl 6.3: Croeswirio o gymharu â Dull Llywodraeth Cymru – trosglwyddo 0% o'r ardoll i ymwelwyr

| | | | Craidd |
|---|---|---|---|
| Cyflogaeth | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Cymru | Swyddi | 360 |
| | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 3% | Swyddi | 11 |
| | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 7% | Swyddi | 25 |
| | Dull amodol Ynys Môn (busnesau'n amsugno'r Ardoll) – Adran 5 | Swyddi cyfwerth ag amser llawn | 6-7 swydd |
| Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Cymru | | -£32.3m |
| | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 3% | | -£1.0m |
| | Dull Llywodraeth Cymru – ar lefel Ynys Môn, 7% | | -£2.3m |
| | Dull amodol Ynys Môn (busnesau'n amsugno'r Ardoll) – Adran 5 | | -£1,.2m |

# 7 Casgliadau

7.1 Tystiolaeth eithaf cyfyngedig sydd ar gael ynglŷn ag effaith ardollau ymwelwyr ar economïau lleol, a cheir rhai bylchau arwyddocaol ac ansicrwydd yn yr wybodaeth. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ddarllen yr arfarniad hwn.

7.2 Rydym wedi anelu at atgynhyrchu'r dulliau arfarnu a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru, gan geisio sicrhau eu bod yn berthnasol ar lefel leol pan fo modd, ac rydym wedi cynnwys rhagdybiaethau ac amodau mewn modd tryloyw. Hefyd, rydym wedi ychwanegu profion sensitifrwydd a gwiriadau synnwyr er mwyn gwella trylwyredd yr arfarniad.

7.3 Er gwaethaf yr amodau sy'n gysylltiedig â'r fethodoleg a'r sylfaen dystiolaeth, rydym yn hyderus mai effaith gymharol fach a fyddai'n dod i ran economi Ynys Môn – mewn perthynas â'r effaith ar gyflogaeth a'r effaith ar Werth Ychwanegol Gros blynyddol. Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r ystod debygol gan ddefnyddio'r IPS a'r GTBS (yn unol â'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru).

7.4 Mae'r dadansoddiad hwn yn gymharol geidwadol gan ei fod yn cymryd yn ganiataol nad oes twf yn yr economi ymwelwyr ac yn caniatáu gostyngiad mewn ymateb i'r ardoll. Yn ymarferol, os yw'r economi ymwelwyr yn tyfu yna bydd y cyllid a godir gan yr ardoll yn cynyddu (ac i'r gwrthwyneb[17]), ac yn wir gallai'r gwariant ardoll yrru twristiaeth uwch trwy well profiad ymwelwyr. Mae tystiolaeth o dwf o flwyddyn i flwyddyn mewn lleoliadau eraill lle mae ardollau ymwelwyr wedi'u cyflwyno.

7.5 Byddai unrhyw dwf yn yr economi ymwelwyr hefyd yn gwrthbwyso unrhyw golledion i'r economi (swyddi a GVA) o ganlyniad i'r ymwelwyr nad ydynt yn dod o ganlyniad i'r ardoll ac o ganlyniad yn cynyddu refeniw yr ardoll.

---

17 I'r gwrthwyneb pe bai twristiaeth yn lleihau am resymau heblaw am yr ardoll, byddai'r cyllid refeniw yn gostwng.

Tabl 7.1: Crynodeb o'r effeithiau tebygol

| | | | Ystod debygol |
|---|---|---|---|
| Cyflogaeth | Dull amodol Ynys Môn (trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr) | Swyddi cyfwerth ag amser llawn | -31 i -5 |
| | Dull amodol Ynys Môn (busnesau'n amsugno'r ardoll) | Swyddi cyfwerth ag amser llawn | 6-7 |
| | **Amrediad cyfunol** | Swyddi cyfwerth ag amser llawn | -31 i +7 |
| Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol (£m) | Dull amodol Ynys Môn (trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr) | | -£0.8 i +£0.09m |
| | Dull amodol Ynys Môn (busnesau'n amsugno'r Ardoll) – Adran 5 | | -£2.1m |
| | **Amrediad cyfunol** | | -£2.1m i +£0.09m |
| Refeniw Ardoll Ymwelwyr | **Amrediad cyfunol** | | **£1.1m i £1.2m** |

7.6 Mae data STEAM yn amcangyfrif bod economi ymwelwyr bresennol Ynys Môn 3 i 4 gwaith yn fwy na'r data IPS / GBTS – felly mae defnyddio'r data STEAM yn arwain at effeithiau sylweddol uwch. Er enghraifft, y newid mewn swyddi yw -14 i +7 yn senario craidd y prif ddadansoddiad, ac mae hyn yn dod yn -80 i +39 gan ddefnyddio'r data STEAM. Yn yr un modd, mae'r refeniw yn cynyddu i £3.1m i £6.2m (er bod hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif). Mae hyn yn tynnu sylw at yr ansicrwydd yn y data ac felly'r ansicrwydd cynhenid wrth ragweld effaith yr ardoll.

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon

# Gwerthusiad o Effeithiau Posibl yr Ardoll Ymwelwyr ar yr Amgylchedd

ynysmon.llyw.cymru anglesey.gov.wales

## Gwerthusiad o Effeithiau Posibl yr Ardoll Ymwelwyr ar Amgylchedd Ynys Môn

### 1.0 Diben

Amlinellu effeithiau posibl cyflwyno'r ardoll ymwelwyr ar yr Iaith Gymraeg, gan gynnwys dangosyddion cadarnhaol a negyddol.

### 2.0 Cyflwyniad

Mae darpariaeth twristiaeth Ynys Môn yn dibynnu'n helaeth ar argaeledd adnoddau naturiol o ansawdd uchel ac ecosystemau iach.

Mae prif ddefnydd ymwelwyr wedi'i ganoli ar Dirwedd Genedlaethol yr ynys sy'n cwmpasu rhannau helaeth o arfordir dramatig Ynys Môn. Mae'n cynnwys y rhan fwyaf o glogwyni a thraethau'r ynys, a llawer o'r tir ffermio a'r coedwigoedd sy'n ffurfio cefndir arfordirol yr ynys. Mae Ynys Môn yn cynnal ei statws fel cyrchfan wyliau boblogaidd am ei thraethau eang a'i childraethau cudd. Ond mae hefyd, yn hollbwysig, yn dirwedd weithredol o ffermydd a phentrefi, gydag economi wledig ac arfordirol amrywiol a ffyniannus.

• Mae gan Dirwedd Genedlaethol Ynys Môn (AHNE) un o'r tirweddau mwyaf nodedig, deniadol ac amrywiol yn Ynysoedd Prydain. Fe'i dynodwyd yn AHNE ym 1966 i amddiffyn apêl esthetig ac amrywiaeth tirwedd arfordirol a chynefinoedd yr ynys rhag datblygiad amhriodol.

• Mae'r ardaloedd a ddynodwyd yn Ynys Môn tua 83 milltir sgwâr o ran maint ac maent yn bodoli ar hyd arfordir yr ynys gyda thoriadau o amgylch yr ardaloedd trefol ac yng nghyffiniau Wylfa. Mae arfordir Ynys Môn, y mae llawer o rannau ohono wedi'u hynysu, yn cyfrannu'n fawr at apêl yr ynys. Mae clogwyni garw, baeau tywodlyd, corsydd, twyni, glannau cysgodol Afon Menai a llethrau gwyntog Mynydd Twr a Mynydd Bodafon yn rhoi amrywiaeth fawr o olygfeydd.

• Mae'r AHNE yn bennaf yn ddynodiad arfordirol, sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o arfordir 201 cilomedr Ynys Môn. Mae'n cynnwys Mynydd Twr a Mynydd Bodafon, ynghyd ag ardaloedd sylweddol o dir sy'n ffurfio cefndir hanfodol i'r arfordir. Cyfanswm arwynebedd yr AHNE yw tua 221 cilomedr sgwâr (22,100 hectar).

Mae tirweddau Cenedlaethol Ynys Môn yn cynnwys 5 ACA, 3 AGA, 1 GNG, 32 SoDdGA, a 3 GNL

Mae'r Dirwedd Genedlaethol hefyd yn cwmpasu Geoparc Byd-eang Geo Môn, sydd wedi'i gydnabod gan UNESCO, ac mae'n gweithio tuag at statws Gwarchodfa Awyr Dywyll. Mae'n cynnwys un o'r dwyseddau uchaf o Henebion Hynafol Rhestredig o'r holl Dirweddau cenedlaethol a thirweddau hanesyddol, ochr yn ochr â safleoedd eiconig fel Ynys Llanddwyn a chlogwyni Gogarth ar Ynys Cybi.

Daw ymwelwyr i ymgysylltu ag ardaloedd harddwch naturiol Ynys Môn, ac i archwilio'r amgylchedd naturiol sydd gan Gymru i'w gynnig. Fe'i gwelir fel cyrchfan ar gyfer gweithgareddau awyr agored – canfyddiad sy'n cael ei gefnogi gan yr amgylchedd gwyrdd a naturiol.

Er nad yw cyflwyno ardoll ymwelwyr ei hun wedi'i bwriadu i effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd, efallai y bydd effeithiau eilaidd o'i chyflwyno, pe bai cynnydd neu ostyngiad yn y galw twristiaeth ar gyfer ardaloedd sy'n cyflwyno ardoll, fel yr archwiliwyd yn yr asesiad effaith economaidd.

Nid bwriad yr ardoll ymwelwyr yw newid ymddygiad ymwelwyr, er bod yna adnoddau ychwanegol ar gyfer datblygu modelau twristiaeth adfywiol, a thrwy addysgu ymwelwyr am bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol. Os bydd gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â Chymru oherwydd cyflwyno'r ardoll, gallai hyn, yn ei dro, leihau rhai o effeithiau negyddol twristiaeth ar adnoddau naturiol, a drafodir yn fanylach isod.

## 3.0 Effeithiau Gor-dwristiaeth

Yn gyffredinol, gall twristiaeth gael effaith negyddol ar adnoddau naturiol trwy or-dwristiaeth – er enghraifft, y nifer fawr o ymwelwyr sy'n ymweld â safleoedd sy'n sensitif yn amgylcheddol gan gynnwys Tywyn Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn, Mynydd Twr a'r Fenai, neu nifer fawr o bobl yn ymweld â'r traethau yn ystod tywydd da.

Mae nifer o ganlyniadau i'r gweithgareddau hyn, megis cynnydd mewn sbwriel, difrod ffisegol i'r amgylchedd naturiol (er enghraifft i lwybrau troed gan gerddwyr), neu lefelau uwch o lygredd oherwydd cynnydd mewn traffig a pharcio. Edrychodd astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ardaloedd allweddol i ymwelwyr, gan gymharu'r cyfnod clo ym mis Mehefin 2020 â'r tymor twristaidd prysur a ddilynodd ym mis Mehefin 2021. Er mai dim ond ciplun oedd hwn, dangosodd yr asesiad fod y cynnydd yn nifer y twristiaid yn 2021 wedi cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth.

## 3.1 Prif Effeithiau Twristiaeth ar yr Amgylchedd Naturiol

- Heriau rheoli sbwriel a gwastraff, wrth i nifer yr ymwelwyr gynyddu felly hefyd mae swm y sbwriel a'r effaith ar wasanaethau rheoli gwastraff.
- Tagfeydd, lle nad yw seilwaith trafnidiaeth yn gallu cynnal traffig ymwelwyr mewn cyrchfannau poblogaidd
- Amcangyfrifir bod allyriadau carbon, a achosir gan deithio sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, wedi cyfrif am 5% o'r holl allyriadau carbon yn fyd-eang yn 2016

- Gellid effeithio ar gynnig twristiaeth Cymru oherwydd erydiad pridd a llwybrau troed, wrth i nifer fawr o dwristiaid ymweld â safleoedd twristaidd poblogaidd gan ddirywio amgylcheddau naturiol sydd, yn anochel, wedi'u heffeithio gan fwy o ymwelwyr a thraffig.

## 4.0 Effeithiau Cadarnhaol Posibl yr Ardoll ar yr Amgylchedd Naturiol

Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y rhagwelir effeithiau cadarnhaol ar draws economi Cymru wrth i awdurdodau lleol ledled Cymru ailwario'r refeniw treth.

Mae'r Ddeddf yn cynnig bod y refeniw yn cael ei wario ar brosiectau sy'n gysylltiedig â rheoli a gwella cyrchfannau sy'n cynnwys camau gweithredu sy'n:

• lliniaru effaith ymwelwyr.

• cynnal ac yn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg.

• hyrwyddo ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio.

• darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i ymwelwyr eu defnyddio (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio).

Fodd bynnag, swyddogion etholedig, ar ôl ymgynghori â'u hardaloedd lleol, fydd yn penderfynu sut mae awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r ardoll yn bwriadu defnyddio'r refeniw. Felly, gellir defnyddio'r refeniw a godir gan yr ardoll i fynd i'r afael â rhai o'r effeithiau hyn, gan helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy. Gellid gwneud hyn trwy ddefnyddio refeniw o'r ardoll i helpu i warchod ardaloedd, ariannu prosiectau cadwraeth lleol, neu liniaru effeithiau twristiaeth – er y byddai maint a natur unrhyw fuddion yn dibynnu ar union brosiectau neu weithgareddau a ariennir gan awdurdodau lleol.

## 5.0 Enghreifftiau o'r Ardoll Ymwelwyr yn Ariannu Gwaith Amgylcheddol Cadarnhaol

Defnyddir ardoll ymwelwyr yn llwyddiannus mewn mwy na 40 o wledydd a chyrchfannau teithio ledled y byd ac mae sawl enghraifft o gyrchfannau sydd wedi defnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan ardoll i fod o fudd i'r amgylchedd naturiol a'i wella.

Ariannodd Seland Newydd 10 prosiect yn 2019-20 drwy ei Ardoll Cadwraeth a Thwristiaeth Ymwelwyr Rhyngwladol. Nod y prosiectau hyn yw amddiffyn tirweddau sensitif a gwerthfawr yn ecolegol, uwchraddio llwybrau troed ac arwyddion amwynderau ymwelwyr ac amddiffyn rhywogaethau sydd mewn perygl.

Yng Ngwlad yr Iâ, lle sy'n adnabyddus am ei amgylchedd unigryw, ystyrir ei atyniadau naturiol fel ei brif apêl i dwristiaid. Mae Cronfa Diogelu Safleoedd Twristiaeth (TSPF) yn ariannu prosiectau sy'n cynnwys mynediad at atyniadau twristaidd naturiol a'u

cadwraeth. Mae prosiectau nodweddiadol yn cynnwys adeiladu llwybrau troed a llwybrau; rampiau mynediad, pontydd a chanllawiau llaw; llwyfannau gwylio a rhwystrau diogelwch; cyfleusterau parcio a thoiledau; ac arwyddion a byrddau gwybodaeth.

Enghraifft bellach yw cymuned Fforest Ddu Münstertal, sydd wedi defnyddio rhan o'i threth dwristiaeth leol yn llwyddiannus i hyrwyddo mesurau amaethyddol traddodiadol fel ffermio agored, gan helpu i gefnogi natur a gwarchod rhywogaethau tra hefyd yn gwarchod a gwella atyniad yr ardal i dwristiaid.

Mae manteision clir y gallai ardoll ymwelwyr yng Nghymru eu darparu. Mae defnyddio mannau cyhoeddus a gwasanaethau yn rhan annatod o brofiad cyffredinol yr ymwelydd. Gall buddsoddi ynddynt a'u cynnal a'u cadw wella enw da'r gyrchfan gan fod o fudd i ymwelwyr, trigolion, busnesau ac adnoddau naturiol Cymru.

Gallai cyflwyno ardoll helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, bydd hyn yn dibynnu ar sut mae awdurdodau lleol sy'n gweithredu'r ardoll yn dewis gwario'r refeniw ychwanegol.

## 6.0 Effeithiau ar Fioamrywiaeth

Mae'n anodd pennu effaith uniongyrchol ymddygiad ymwelwyr ar fioamrywiaeth yn gywir, fodd bynnag, yn anffodus mae tarfu ar fywyd gwyllt oherwydd gweithgareddau yn gymharol gyffredin, gydag adar fel y Frân Goesgoch a chytrefi adar môr a bywyd morol fel Dolffiniaid yn cael eu heffeithio amlaf. Mae sathru fflora prin hefyd wedi'i gofnodi'n helaeth.

Nid yw bioamrywiaeth yn agwedd uniongyrchol ar y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, fodd bynnag, o ystyried y gellir cyfeirio'r refeniw sy'n deillio o'r trethi hyn i ariannu prosiectau penodol sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr, gallai'r rhain gynnwys rheoli unrhyw effeithiau negyddol twristiaeth fel dirywiad amgylcheddol.

Bydd gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb am wariant a rhaid iddynt ystyried ffactorau bioamrywiaeth fel rhan o'u proses gwneud penderfyniadau yn unol â'u dyletswyddau dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 133.

## 7.0 Effaith Llai o Ymwelwyr

Os bydd llai o ymwelwyr yn dod i Gymru (neu awdurdod lleol penodol yng Nghymru), yna gallai hyn arwain at ostyngiad mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (GHGs)34, a lefelau is o sbwriel ac erydiad bioamrywiaeth yn yr ardal honno (yn dibynnu ar sut mae busnesau ac ymwelwyr yn ymateb). Cydnabyddir yn eang y gall twristiaeth effeithio ar gyrchfannau

twristaidd mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol, gan gwmpasu dimensiynau economaidd, cymdeithasol-ddiwylliannol ac amgylcheddol.

Gellid defnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan ardoll i gefnogi'r bwlch adnoddau hwn, drwy ymwneud yn uniongyrchol â chynnal a chadw ac adfer amgylcheddau naturiol lleol a chefnogi cyfleusterau i sicrhau bod ymwelwyr eisiau dychwelyd i Gymru, a thrwy hynny o bosibl gynyddu lefelau refeniw wrth i fwy o dwristiaid ddychwelyd i Gymru yn y tymor hir ac o ganlyniad y cyllid sydd ar gael i'w wario ar wella'r ardal leol.

Yn ogystal, er nad yn fwriadol, pe bai nifer yr ymwelwyr yn lleihau mewn rhai ardaloedd gallai hyn gael effaith amgylcheddol gadarnhaol gan gynnwys lleihau llygredd ac effeithiau negyddol eraill twristiaeth.

Gall fod effeithiau gwahanol ar wahanol awdurdodau lleol yn dibynnu ar nifer y twristiaid ym mhob ardal.

Neu, gallai gwella ardal a'i chyfleusterau gan ddefnyddio'r refeniw o'r ardoll ddenu mwy o ymwelwyr, felly efallai y bydd mwy o effaith amgylcheddol, ond mae hyn yn anodd ei amcangyfrif.

Neu, os bydd cyflwyno'r ardoll yn arwain at ymwelwyr yn dewis ymweld am ddiwrnod, gallai hyn waethygu'r effeithiau amgylcheddol negyddol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ddydd, heb gyllid o'r refeniw i helpu i liniaru'r effeithiau hyn (o ystyried y codir y tâl ar arosiadau dros nos). Un enghraifft yw y gallai fod cynnydd mewn traffig a llygredd mewn mannau poblogaidd gan gynnwys Pont Britannia, pentref Niwbwrch ac ym mhentrefi fel Benllech, ac o’u hamgylch.

Gallai'r senario hwn fod yn amlwg pe bai'r Ardoll yn cael ei chyflwyno mewn un awdurdod ond nid mewn awdurdod cyfagos, gan achosi cynnydd o bosibl yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros yn yr awdurdod na ddewisodd ei mabwysiadu, a chynnydd yn nifer yr ymwelwyr undydd yn yr awdurdod a ddewisodd fabwysiadu'r Ardoll.

Os na chaiff yr amodau galluogi ar gyfer twristiaeth eu diogelu, yna gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Y dirwedd a'r harddwch naturiol sy'n denu ymwelwyr i Ynys Môn yw'r pethau y gall ymwelwyr effeithio arnynt fwyaf. Os nad oes cyllid ar gael i liniaru'r effeithiau, yna gallai fod effaith ar atyniadau twristiaid gan arwain at ddirywiad tymor hwy i dwristiaeth.

Yn ogystal, efallai y bydd rhai ardaloedd yn dymuno gwella eu darpariaeth leol neu'r gwasanaethau a ddarperir i fynd i'r afael â materion lleol unigryw er budd ymwelwyr a thrigolion ond nid oes ganddynt yr adnoddau i wneud hyn ar hyn o bryd.

**8.0 Casgliad**

Y disgwyliad yw y gallai cyflwyno'r Ardoll ymwelwyr gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar amgylchedd naturiol Ynys Môn. Os caiff yr incwm a gynhyrchir ei dargedu at

welliannau i leddfu pwysau ymwelwyr, adfer natur, a datblygu model twristiaeth adfywiol, yna gallai'r Ardoll wella'r amgylchedd yn sylweddol.

O ystyried pwysigrwydd yr amgylchedd a harddwch naturiol i ddenu ymwelwyr i Ynys Môn, mae'n bwysig bod darpariaeth ar gael i ddiogelu a gwella'r asedau hyn fel nad yw'r cynnig twristiaeth yn lleihau. Gallai'r Ardoll gyflawni rhan o'r swyddogaeth alluogi hon.

Os gwelir bod nifer yr ymwelwyr dros nos yn lleihau, gallai hyn gael effaith gadarnhaol o safbwynt amgylcheddol o ran lleihau effeithiau nifer anghynaladwy o ymwelwyr ar safleoedd o bwys amgylcheddol a chymunedau cyfagos.

I’r gwrthwyneb, gellir gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr dydd a allai wrthbwyso’r enillion hyn a lleihau’r enillion economaidd a’r adnoddau i reoli’r asedau amgylcheddol yn effeithiol.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn 2023 - 2028



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.




| Tudalen | Cynnwys |
|---|---|
| 3 | Gosod y cyd-destun |
| 5 | Gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn 2023-2028 |
| 6 | Beth yw Rheoli Cyrchfan? |
| 7 | Pam Rheoli Cyrchfan? |
| 9 | Dull strategol |
| 11 | Cynllun Y Cyngor |
| 14 | Effaith economi ymwelwyr Ynys Môn |
| 15 | Yr heriau a'r cyfleoedd i economi ymwelwyr Ynys Môn |
| 16 | Egwyddorion a Blaenoriaethau ar gyfer 2023-2028 |
| 17 | Cynllun gweithredu lefel uchel |
| 22 | Camau nesaf |

# Gosod y cyd-destun

Mae'r Cyrchfan ac economi ymwelwyr yn hanfodol i ffyniant a'r cynnig unigryw sydd gan Ynys Môn.

Rydym wedi ein bendithio ag amgylchedd amrywiol sy'n cyd-fynd â chwmpas amrywiol y cynigion i dwristiaeth a phrofiadau ymwelwyr.
Ynys Môn yw'r sir sy'n dibynnu fwyaf ar y diwydiant hwn yn y DU, gan gynhyrchu mwy na £360m y flwyddyn yn yr economi leol, ac yn gymorth uniongyrchol i ~3,698 o swyddi. Felly, mae'n hynod o bwysig bod y cynllun hwn yn cynorthwyo a darparu buddion ystyrlon i bobl a chymunedau sydd mor ddibynnol ar y sector hwn.

Fodd bynnag, mae yna fregusrwydd sylfaenol i economi Ynys Môn, wedi'i nodweddu gan lefelau uchel o ymfudo ymysg pobl ifanc, yn ogystal â diweithdra ag amddifadedd cymdeithasol. Un o'r prif anawsterau sy'n wynebu economïau ymylol fel Ynys Môn yw'r gallu i greu gwaith newydd. Twristiaeth yw un o'r sectorau sy'n gallu, ac wedi, cyfrannu at ffyniant lleol ac ansawdd bywyd ar Ynys Môn.

Mae'r bregusrwydd hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr amgylchedd naturiol, gyda chynefinoedd a rhywogaethau'n dod yn fwy toredig a dan hyd yn oed fwy o fygythiad. Gall twristiaeth chwarae rhan arwyddocaol yn amlygu pwysigrwydd amgylchedd naturiol Ynys Môn, ac felly'n cynorthwyo'r 'argyfwng byd natur' yn ogystal â dod a buddion iechyd a llesiant.

Fodd bynnag, gall economi ymwelwyr gael effaith negyddol hefyd. Gall y cynnydd parhaus yn nifer yr ymwelwyr greu pwysau nad oes croeso iddo ar y gymuned leol.

O ganlyniad, ni ellir gadael i dwristiaeth dyfu heb ei reoli; mae'n rhaid iddo gael ei reoli mewn modd cynaliadwy, i wneud y gorau o'r buddion ffyniant hirdymor a lliniaru effaith negyddol posibl.

Drwy ddull cydweithredol, mae gan Ynys Môn y cyfle i weithredu nawr drwy weithredoedd a chynllunio ymlaen llaw clir. Mae angen cyfoethogi'r cynnig presennol drwy sicrhau bod yna anghenion sylfaenol megis seilwaith priffyrdd, mynediad cyhoeddus gwell, cyfleusterau cyhoeddus a darpariaeth gwybodaeth yn addas, a gwydn rhag pwysau megis newid hinsawdd.

Wrth sicrhau'r angen sylfaenol hwn, mae gennym gyfle i gynigion presennol gael eu cryfhau, gan deimlo'n ddiogel o wybod bod y profiad yn cael ei gyfoethogi ymhellach gan groeso Ynys Môn sydd eisoes yn gonglfaen i'r cynnig ymwelwyr.

O'r safle hwn sydd wedi ei gryfhau bydd cyfleoedd newydd yn codi, ac ar y cyd â phartneriaid a chymunedau, gallwn ddatblygu'r cynnig yn seiliedig ar briodweddau unigryw Ynys Môn mewn modd cynaliadwy.

# Ar gyfer pwy mae'r cynllun?

68,900
Trigolion

50Km
Arfordir
Treftadaeth



32
SSSI's
Safleoedd o Ddiddordeb
Gwyddonol Arbennig



221 KM Sgwâr
Maint ein
AHNE

Tudalen 124

3,698
Gweithwyr
mewn twristiaeth

5.2 miliwn
ymwelwyr



1
UNESCO
Geoparc byd-eang



75
Henebion
Rhestredig



.
Phorthladd
mordeithio prysuraf
Cymru

35,843
Gwelyau



125 Milltir
Llwybr yr Arfordir

55.8%
Siarad Cymraeg

# Gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn 2023-2028

Mae Ynys Môn yn lle arbennig o unigryw, gyda hanes, diwylliant a threftadaeth doreithiog, ynghyd â thirweddau sydd heb eu difetha ac ag amrywiaeth ecolegol.

Rydym yn awyddus i gael economi ymwelwyr sy'n empathetig i ymdeimlad o le'r Ynys, ac sydd o fudd i'r bobl, yr amgylchedd, y diwylliant, y dreftadaeth a'r iaith, ac sy'n parhau i chwarae rhan hanfodol yn sefydlogrwydd economaidd yr ynys.

Mae'r cynllun hwn yn awyddus i gyfoethogi'r ysbryd o gydweithio a ffordd holistig o feddwl i ddatblygu cynnig sy'n gwella'r gwerthoedd allweddol hyn, a darparu buddion economaidd a chymdeithasol i'r cymunedau lleol.





# Beth yw Rheoli Cyrchfan?

Mae rheoli cyrchfan yn ymwneud â 'rheoli'r cyrchfan ar ei ffurf ehangaf er budd pawb'.

- Mae hwn yn gysyniad seiliedig ar le, sy'n ymwneud â'r holl amgylchedd lle mae ymwelwyr, pobl leol a thwristiaeth yn rhwydweithio.
- Mae'n canolbwyntio ar yr elfennau sy'n denu ymwelwyr, yn ogystal â'r seilwaith a'r gwasanaethau sy'n cynorthwyo eu hymweliad. Mae'r term 'ymwelwyr' yn berthnasol i'r rhai sy'n treulio'u gwyliau yn yr ardal fel twristiaid, ond mae hefyd yn cynnwys pobl leol sy'n ymweld â'r ardal am ddiwrnod neu lai.
- Nid yw rheoli cyrchfan felly'n cynnwys twristiaid yn unig, ond effaith ehangach pobl, yn cynnwys pobl leol ac ymwelwyr cyfagos, sy'n defnyddio gwasanaethau, seilwaith ac yn mwynhau asedau lleol. Mae'n ymestyn i bob agwedd o'r economi ac yn gofyn am gydweithio i'w gynnal yn effeithiol a chynaliadwy.
- Mae'n ymwneud â rheoli gweithredol, ariannol a ffisegol cyrchfan, yn ogystal â'i gynllunio, datblygu a marchnata.





# Pam Rheoli Cyrchfan?

Mae yna sawl ffactor yn ysgogi’r angen i ddiweddaru cynllun rheoli cyrchfan Ynys Môn i’w wneud yn barod i weithio gyda heriau a chyfleoedd 2023 a thu hwnt.

Mae’r economi ymwelwyr, a’r cyd-destun gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol ehangach yn wahanol iawn i’r hyn oedd yn 2015 pan gafodd y cynllun diwethaf ei ddrafftio.

Mae’r newidiadau hyn, ymysg eraill, yn cael eu dangos yn y graffig gyferbyn ac yn egluro’r angen am gynllun wedi ei ddiweddaru a model darparu.





### Cyd-destun y Polisi

Mae angen y Cynllun Rheoli Dynodiad hwn i gydnabod y cyd-destun newid polisi ers y Cynllun Rheoli diwethaf yn 2016, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Bolisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol (sy'n cael eu harchwilio ar y dudalen nesaf)
- Llai o gapasiti ar gyfer cymorth / darpariaeth gan Awdurdod Lleol
- Diogelu'r iaith Gymraeg
- Arian a Buddsoddiad Ffyniant Bro yng Nghaergybi
- Polisïau a threthi ail gartrefi

### Economi ymwelwyr

Mae'r economi ymwelwyr wedi newid ers Cynllun Reoli Dynodiad 2016-2020. Bydd yn rhaid i'r strategaeth hon ymateb i:

- Newid yn y proffil ymwelwyr: ymwelwyr dydd yn erbyn ymwelwyr sy'n aros dros nos
- Cynnydd mewn perchnogi ail gartrefi
- Twf mewn gosod eiddo tymor byr (Airbnb a VrBo)
- Trawsnewid digidol



### Cynaliadwyedd a sero net

Mae risg ffisegol newid hinsawdd, ynghyd â phwysau cynyddol nifer yr ymwelwyr ar yr amgylchedd yn ysgogi'r angen i fabwysiadu arferion mwy amgylcheddol cynaliadwy a'r trawsnewid i sero net. Adlewyrchir hyn yn y canlynol:

- Cynllun CSYM Tuag at Sero Net 2022-2025
- Cynllun Bioamrywiaeth
- Yr angen am wytnwch a rheoli adnoddau naturiol

### Cyd-destun economaidd

Roedd pandemig Civid-19 yn amlygu'r angen i ymgorffori gwytnwch i reoli cyrchfan, gyda'r angen i fynd i'r afael â:

- Seilwaith a chapasiti: sut i gael y pethau sylfaenol yn gywir, sicrhau buddion ac osgoi unrhyw darfu ar bobl leol wrth ddarparu profiad ymwelwyr o ansawdd
- Bylchau mewn sgiliau a chyflogaeth yn y sector

# Dull strategol

Nod y Cynllun Rheoli Cyrchfan hwn yw ystyried a chynorthwyo’r amcanon strategol ehangach a nodir yn y polisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y diagram gyferbyn. Mae cynlluniau a pholisïau allweddol wedi eu nodi â seren ac yn cynnwys:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, 2015

Agwedd allweddol o gynnig ymwelwyr Ynys Môn yw amlygu’r diwylliant a’r iaith ffyniannus yng Nghymru, sy’n cysylltu’n uniongyrchol â dyheadau’r Ddeddf hon.

Croeso i Gymru: Mae blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr, 2020-2025



yn annog y sector i gyfuno ffocws lleol yn gyntaf yn dathlu diwylliant, sgiliau a busnesau cartref a chymunedau (Bro) gyda lefelau rhyngwladol o ansawdd ac uchelgeisiau (Byd). Mae hyn, ynghyd â blaenoriaethau allweddol Croeso Cymru yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn.

Cynllun Corfforaethol CSYM (2023-2028)

Mae twristiaeth yn rhan allweddol o Ynys Môn, felly mae angen i bolisïau a chynlluniau’r Ynys gynorthwy’r seilwaith twristiaeth a busnesau presennol yn ogystal â hyrwyddo’r cyfleoedd i ddatblygu yn y dyfodol. Yn yr un modd, bydd angen i’r cynllun hwn alinio’n agos â’r nodau mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ceisio eu cyflawni ar gyfer y gymuned leol.

Ar adeg paratoi’r cynllun hwn, nid oes eglurder ar weithredu’r ardoll dwristiaeth na chynllun cofrestru statudol. Os yw’n berthnasol, bydd y cynllun hwn yn cynorthwyo ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru i weithredu’r cynllun yn llwyddiannus.

**Deddfwriaeth**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Cenedlaethol**

- Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-2025
- Strategaeth Digwyddiadau Cenedlaethol ar gyfer Cymru 2022 i 2030
- Y Genhadaeth Ail-adeiladu a Gwytnwch Economaidd
